# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**Y CYNGOR**

Dyddiad ac Amser

**1.30 y.h., DYDD IAU, 6ED GORFFENNAF, 2023**

*** NODER ***

**Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu**

**https://gwynedd.public-i.tv/core/l/cy_GB/portal/home**

Lleoliad

**Cyfarfod Aml-leoliad**
**Siambr Dafydd Orwig, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon LL55 1SH / Rhithiol ar Zoom**

Pwynt Cyswllt

**Eirian Roberts**

**01286 679018**

**eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru**

(DOSBARTHWYD Dydd Mercher, 28 Mehefin 2023)

**Ian Jones**
**Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth**

www.gwynedd.llyw.cymru

**DYDD MERCHER, 28 MEHEFIN 2023**

Annwyl Gynghorydd,

**CYFARFOD O GYNGOR GWYNEDD – DYDD IAU, 6 GORFFENNAF 2023**

**FE’CH GWYSIR TRWY HYN** i gyfarfod aml-leoliad o **GYNGOR GWYNEDD** a gynhelir am **1.30 y.h., DYDD IAU, 6ED GORFFENNAF, 2023 YN SIAMBR DAFYDD ORWIG, SWYDDFA'R CYNGOR, CAERNARFON LL55 1SH / RHITHIOL AR ZOOM**, i ystyried y materion a grybwyllir yn y rhaglen a ganlyn.

Yr eiddoch yn gywir



Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth

Bydd yr ystafelloedd a ganlyn ar gael i’r grwpiau gwleidyddol yn ystod y bore:-

Plaid Cymru - Siambr Dafydd Orwig
Annibynnol – Siambr Hywel Dda
Grwp Llafur / Rhydfrydol – Ystafell Ogwen

# RHAGLEN

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. COFNODION 5 - 21

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 4 Mai, 2023 fel rhai cywir.

## 3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 4. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan y Cadeirydd.

## 5. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 6. CWESTIYNAU

(a) Ystyried unrhyw gwestiynau gan aelodau o'r cyhoedd, y rhoddwyd rhybudd priodol ohonynt o dan Adran 4.17 o'r Cyfansoddiad.

Cwestiwn gan Mr Ieuan Wyn ar ran Cylch yr Iaith (cyfeiriad wedi'i ddarparu yn unol â gofynion y Cyfansoddiad).

"O ystyried bod Adran Addysg a Chabinet y Cyngor wedi caniatáu sefyllfa lle bo –

- plant yn cael eu trochi yn unedau'r gyfundrefn drochi am 20% yn llai o amser nag o'r blaen, a hynny drwy gwtogi'r amser y mae'r plant yn yr unedau o 5 diwrnod yr wythnos i 4;
- cwtogi staffio unedau trochi o ddau athro i un;
- unedau trochi yn gorfod cau am gyfnodau o ganlyniad i absenoldeb staff a phrinder athrawon llanw cymwys;
- a hefyd, oherwydd y lleihad, cyfyngu ar allu staff unedau trochi i fynd i'r ysgolion i roi arweiniad a chymorth;

onid ydi hi'n wir bod Adran Addysg a Chabinet y Cyngor wedi bod yn gyfrifol am wanychu effeithiolrwydd y ddarpariaeth drochi, a bod angen cywiro'r sefyllfa?"

(b) Ystyried unrhyw gwestiynau gan aelodau etholedig, y rhoddwyd rhybudd priodol ohonynt o dan Adran 4.18 o'r Cyfansoddiad.

**7. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU 2022/23** 22 - 40

Cyflwyno adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Safonau.

**8. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CYFARWYDDWR STATUDOL GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2022/23** 41 - 70

Cyflwyno adroddiad y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol.

**9. ADRODDIAD BLYNYDDOL CRAFFU 2022/23** 71 - 95

Cyflwyno Adroddiad Blynyddol Craffu.

**10. DIWYGIO CYNLLUN HAWLIAU DIRPRWYEDIG SWYDDOGION** 96 - 100

Cyflwyno adroddiad y Swyddog Monitro.

**11. ABSENOLDEB AELOD O GYNGOR GWYNEDD** 101 - 102

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth.

**12. RHYBUDDION O GYNNIG**

**(A) RHYBUDD O GYNNIG GAN Y CYNGHORYDD ELFED WYN AP ELWYN**

Yn unol â'r Rhybudd o Gynnig a dderbyniwyd oddi wrtho yn unol ag Adran 4.19 y Cyfansoddiad, bydd y Cynghorydd Elfed Wyn ap Elwyn yn cynnig fel a ganlyn:-

“Mae'r Cyngor yn galw ar Lywodraeth San Steffan i ddatganoli'r grymoedd dros gyfiawnder (Y Llysoedd, Carchardai, Yr Heddlu, Gwasanaeth Prawf, a grymoedd eraill ynghlwm) a chreu Awdurdodaeth Gyfreithiol i Gymru.”

**13. YMATEBION I RYBUDDION O GYNNIG BLAENOROL** 103

Cyflwyno, er gwybodaeth - Llythyr gan Drafnidiaeth Cymru mewn ymateb i rybudd o gynnig y Cynghorydd Huw Rowlands i gyfarfod 1 Rhagfyr 2022 o'r Cyngor ynglŷn â gwella gwasanaethau trenau yng Ngwynedd.

## CYFARFOD BLYNYDDOL Y CYNGOR 4/5/23

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd R. Medwyn Hughes (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Beca Roberts (Is-gadeirydd).

Y Cynghorwyr:- Craig ab Iago, Menna Baines, Beca Brown, Stephen Churchman, Glyn Daniels, Elwyn Edwards, Elfed Wyn ap Elwyn, Alan Jones Evans, Dylan Fernley, Delyth Lloyd Griffiths, Jina Gwyrfai, John Brynmor Hughes, Iwan Huws, Elin Hywel, Nia Wyn Jeffreys, Anne Lloyd Jones, Berwyn Parry Jones, Dawn Lynne Jones, Dewi Jones, Elin Walker Jones, Elwyn Jones, Gwilym Jones, Gareth Tudor Jones, Huw Wyn Jones, Linda Ann Jones, June Jones, Eryl Jones-Williams, Cai Larsen, Beth Lawton, Dafydd Meurig, Dilwyn Morgan, Linda Morgan, Dewi Owen, Edgar Wyn Owen, Gwynfor Owen, Llio Elenid Owen, Gareth Coj Parry, John Pughe, Rheinallt Puw, Arwyn Herald Roberts, Elfed P Roberts, Gareth A.Roberts, John Pughe Roberts, Meryl Roberts, Richard Glyn Roberts, Huw Llwyd Rowlands, Paul Rowlinson, Angela Russell, Dyfrig Siencyn, Ioan Thomas, Peter Thomas, Menna Trenholme, Rob Triggs, Rhys Tudur, Hefin Underwood, Einir Wyn Williams, Elfed Williams, Gareth Williams, Gruffydd Williams a Sasha Williams.

**Swyddogion:** Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr), Geraint Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Dylan Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol a Chyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol), Dewi Morgan (Swyddog Cyllid Statudol), Iwan Evans (Swyddog Monitro), Ian Jones (Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth), Garem Jackson (Pennaeth Addysg), Aled Davies (Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant), Sion Huws (Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau), Sandra Thomas (Rheolwr Rhaglen Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn), Hawis Jones (Rheolwr Comisiynu, Contractau a Phrosiectau), Vera Jones (Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith) ac Eirian Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

### 1. CADEIRYDD

Cynigiwyd ac eiliwyd dau enw am y gadeiryddiaeth, sef y Cynghorydd Beth Lawton a'r Cynghorydd R.Medwyn Hughes.

**PENDERFYNWYD penodi'r Cynghorydd R.Medwyn Hughes yn Gadeirydd am 2023/24.**

Darllenodd a llofnododd y Cynghorydd R.Medwyn Hughes ddatganiad yn derbyn y swydd o Gadeirydd Cyngor Gwynedd am 2023/24 ym mhresenoldeb y Prif Weithredwr.

### 2. IS-GADEIRYDD

Cynigiwyd ac eiliwyd dau enw am yr is-gadeiryddiaeth, sef y Cynghorydd Beth Lawton a'r Cynghorydd Beca Roberts.

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Beca Roberts yn Is-gadeirydd am 2023/24.**

Darllenodd y Cynghorydd Beca Roberts ddatganiad yn derbyn y swydd o Is-gadeirydd Cyngor Gwynedd am 2023/24 ym mhresenoldeb y Prif Weithredwr.

### 3. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Anwen J.Davies, Dafydd Owen Davies, Annwen Hughes, Louise Hughes, Kim Jones ac Eirwyn Williams.

**4. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 2 Mawrth 2023 fel rhai cywir.

**5. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Datganodd yr Arweinydd, y Cynghorydd Dyfrig Siencyn, fuddiant personol yn eitem 11 – Uwch-gyflogau, ar ran yr aelodau hynny sy'n derbyn uwch-gyflogau ar hyn o bryd.

Nid oedd o'r farn ei fod yn fuddiant sy'n rhagfarnu, ac ni adawodd yr aelodau hynny'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

**6. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

Cydymdeimlwyd â'r canlynol:-

- Y Cynghorydd Glyn Daniels a'r teulu ar golli wyres fechan yn ddiweddar;
- Y Cynghorydd Alan Jones-Evans a'r teulu ar farwolaeth ei dad;
- Teulu Alison Evans, aelod o Dîm Caffael y Cyngor.

Nodwyd hefyd bod y Cyngor yn dymuno cofio am bawb o fewn cymunedau'r sir oedd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar.

Ymdawelodd y Cyngor fel arwydd o barch a choffadwriaeth.

Nodwyd bod nifer o staff y Cyngor wedi ymddeol yn ystod y misoedd diwethaf, a dymunwyd ymddeoliad hir a hapus i bawb ohonynt.

Llongyfarchwyd y Cynghorydd Menna Trenholme ar ei phriodas yn ddiweddar.

**7. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi.

**8. CWESTIYNAU**

*(Cyhoeddwyd atebion ysgrifenedig yr Aelodau Cabinet i'r cwestiynau ymlaen llaw.)*

**(1) Cwestiwn Y Cynghorydd Beca Roberts**

"Yn 2019 mi wnaethom ni fel Cyngor ddatgan Argyfwng Hinsawdd a Natur gan dderbyn bod newid eithafol yn yr hinsawdd yn effeithio yn negyddol ar ein cymunedau ni, a ledled y byd. Mae'r risgiau newid yn yr hinsawdd yn rai go-iawn i nifer o drigolion Gwynedd - o lifogydd i dirlithriadau, ac eithafion tywydd cynnes ac oer – mae'r gost o anwybyddu'r argyfwng hinsawdd yn cynyddu. Ers i ni gychwyn ein gwaith i leihau allyriadau carbon gyda Chynllun Rheoli Carbon Cyngor Gwynedd faint o garbon mae'r Cyngor wedi arbed, a allwch chi ymhelaethu ar faint o arian mae'r newidiadau yma wedi arbed i'r Cyngor?"

**Ateb Arweinydd y Cyngor, Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn**

"Dyma un o'r pynciau pwysicaf y gallwn ni fel Cyngor ei wynebu ac mi wnâi ddarllen yr ateb ysgrifenedig yn gyflawn gan ein bod yn credu bod hwn yn fater mor bwysig.

Mae'n wir ein bod fel Cyngor wedi ymrwymo i leihau effaith ein gweithgareddau ar ein hamgylchfyd ymhell cyn i ni ddatgan Argyfwng Newid Hinsawdd a Natur yn 2019. Yn ôl yn 2010, bu i ni fabwysiadu Cynllun Rheoli Carbon er mwyn rheoli a lleihau ein hôl troed carbon. Ers ei gyflwyno, rydym wedi arbed 103,757 tunnell o garbon o'r allyriadau sy'n cael eu creu drwy ddefnydd ynni ein hadeiladau (ysgolion, canolfannau hamdden, cartrefi preswyl, llyfrgelloedd, swyddfeydd a mwy), ein goleuadau stryd, ein fflyd a defnydd o geir, a'n gwastraff.

Ar ôl degawd o weithredu a llwyddo yn y maes cadwraeth ynni, roedd ôl troed carbon blynyddol ein gweithgareddau uniongyrchol 43% yn llai na'r oedd cyn i ni gychwyn ar y siwrne yma.

Ers 2010, rydym wedi gweithio'n ddiflino i geisio manteisio ar unrhyw gyfle posib i fod yn lleihau ein hôl troed carbon, gan gynnwys buddsoddi £7.4M mewn cynlluniau megis 613kWp o baneli solar ar 55 o'n safleoedd er mwyn creu trydan ein hunain, uwchraddio goleuadau a lampau i'r dechnoleg fwyaf cyfredol, ynysu ein hadeiladau er mwyn cadw'r gwres, gorchuddio pyllau nofio dros nos, a llawer iawn mwy. Mae'r tîm ynni ymroddgar yma hefyd yn edrych ar batrymau defnydd ynni ein hadeiladau yn gyson er mwyn adnabod gwastraff ac i sicrhau effeithlonrwydd ac yn defnyddio meddalwedd sy'n eu galluogi i reoli defnydd ynni ein hamrywiol adeiladau ar hyd a lled y sir o swyddfa'r tîm yng Nghaernarfon.

Yn wir, mae Tîm Ynni Cyngor Gwynedd wedi cael cydnabyddiaeth genedlaethol o'u gwaith gan iddynt ennill gwobr 'Tîm Rheolaeth Ynni y Sector Gyhoeddus' yng ngwobrau Energy Managers Association Prydain yn 2020.

Mae'r holl waith yn y maes yma wedi arwain at gyfanswm arbediad ariannol o £14.75M i'r Cyngor ers 2010.

Hoffwn hefyd dynnu sylw at y budd ariannol syfrdanol yr ydym yn elwa ohono erbyn heddiw, oherwydd ein llwyddiant dros y degawd diwethaf. Pe byddem wedi parhau i ddefnyddio'r un faint o ynni ag yr oeddem yn ei ddefnyddio yn 2010, byddai ein biliau ynni wedi bod £4.3M yn uwch y llynedd. Pe byddem wedi gorfod talu'r gost ychwanegol yma, byddai wedi arwain at £4.3M yn uwch o doriadau mewn gwasanaethau rheng flaen, neu gynyddu'r Dreth Cyngor 5.4% yn uwch na'r cynnydd eleni.

I gloi felly, rhaid tynnu sylw at y ffaith ein bod ni fel Cyngor wedi rhoi blaenoriaeth i'r agenda yma ymhell cyn datgan Argyfwng Hinsawdd a Natur yn ôl yn 2019, a'n bod dros y blynyddoedd wedi llwyddo i wneud gwahaniaeth drwy reoli ein hôl troed carbon uniongyrchol fel cyfraniad i warchod ein hamgylchfyd ar gyfer cenedlaethau i ddod. Mae'r gwaith hynny yn parhau wrth gwrs ac yn ehangu fel byddwn yn ceisio cyrraedd nod Llywodraeth Cymru o fod yn garbon net sero erbyn 2030. Byddwn angen bod yn fyw i'r ffaith y bydd y cyfnod nesaf yn fwy heriol fyth, wrth i ni fynd i'r afael ag allyriadau carbon sy'n deillio o'n gweithgaredd caffael, cymudo i'r gwaith ayb."

**Cwestiwn Atodol y Cynghorydd Beca Roberts**

"Beth mae'r Cyngor yn ei wneud i gefnogi ac ysbrydoli pobl a busnesau Gwynedd i gymryd yr un un camau er mwyn iddyn nhw fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd?"

**Ateb Arweinydd y Cyngor, Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn**

"Wrth i ni roi'r Bwrdd Newid Hinsawdd at ei gilydd rai blynyddoedd yn ôl bellach, yn dilyn y penderfyniad i ddatgan argyfwng, ein blaenoriaeth ni bryd hynny oedd sicrhau bod ein gweithgaredd ni fel Cyngor, a'r hyn oedd gennym ni reolaeth drosto, yn

ymgyrraedd at y nod. Rwy'n credu mai'r cam nesaf sy'n ein hwynebu ni ydi estyn allan i'n cymunedau ac i'n busnesau ni, felly mi fydd y Bwrdd Newid Hinsawdd yn ystyried y camau hynny o hyn ymlaen, yn ogystal â cheisio cyrraedd y nod net sero 2030. Mae hyn yn dipyn o her, cofiwch, ac mae 'na gost iddo hefyd, ond mae cael ac ysbrydoli ein cymunedau i fod yn rhan o'r prosiect pwysig yma yn mynd i fod yn flaenoriaeth i waith y Bwrdd Newid Hinsawdd wrth i ni symud ymlaen."

**(2) Cwestiwn Y Cynghorydd Rhys Tudur**

"Ar wahân i ffurfio tasglu ar gais y Pwyllgor Craffu Addysg ag Economi, pa gamau rhagweithiol mae'r Adran Addysg wedi eu cymryd i ddiweddaru Polisi Iaith Ysgolion Gwynedd fel ei fod yn fwy cydnaws â'r drefn gategoreiddio newydd ar gyfer y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg sy'n weithredol ers Medi 2022?"

**Ateb yr Aelod Cabinet Addysg, Y Cynghorydd Beca Brown**

"Fel y gwelwch, mae'r ateb ysgrifenedig yn cyfeirio at nifer o lwyddiannau sirol yn fan hyn o ran y Gymraeg mewn addysg, ac nid brolio ydi hynny, ac mae angen cofio bod yr hyn sy'n digwydd hefo'r Gymraeg yng Ngwynedd yn destun edmygedd ac eiddigedd mewn siroedd cyfagos a thrwy Gymru. Yn digwydd bod, cefais fy atgoffa o hynny yn ddiweddar mewn cyfarfod hefo Llywodraeth Cymru lle roedden nhw'n rhyfeddu at ein gallu ni i gynnal sefyllfa'r Gymraeg.

Mae'r cwestiwn yn cyfeirio at y drefn gategoreiddio, ond mae ein Polisi Iaith ni yn sefyll ar ei draed ei hun ac nid yw'n cael ei yrru gan y drefn categorïau, gan mai rhywbeth gweinyddol yn unig ydi'r categori i ni oherwydd, wrth gwrs, mae ein dyhead ni yma yng Ngwynedd yn sylweddol uwch na'r hyn sy'n cael ei nodi yn y categori. Ond y pwynt pwysig wrth ddweud hynny ydi mai'r Polisi, wrth gwrs, sy'n bwysig, fel mae'r cwestiwn yn nodi, ac rydw i'n falch o fedru dweud bod yna fwriad i ddiweddaru'r Polisi Iaith er mwyn adlewyrchu'r newidiadau sydd wedi bod yn y byd addysg ac i ymateb i'n dyheadau ni o ran hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd, dyheadau sydd, wrth gwrs, yn uchelgeisiol ac yn arloesol fel erioed.

Yn ogystal â ffurfio'r tasglu, mae'r Adran wedi bod yn casglu gwybodaeth a data am y ddarpariaeth ddwyieithog ar hyd ein hysgolion a bydd hynny, ynghyd â chanfyddiadau ymchwil y tasglu craffu, o gymorth i ni wrth i ni ddiweddaru'r Polisi yma er gwell, ac i adeiladu ar y llwyddiannau hanesyddol y mae cyfeiriad at rywfaint ohonynt yn yr ateb ysgrifenedig."

**Cwestiwn Atodol y Cynghorydd Rhys Tudur**

"Mae'r Polisi Iaith cyfredol yn hyrwyddo cyflwyno addysg cyfrwng Saesneg. A fu unrhyw newid sylweddol i Bolisi Iaith Ysgolion Gwynedd yn ystod y 30 mlynedd ddiwethaf mewn ymateb i newidiadau demograffig a shifft iaith yn y gymdeithas?"

**Ateb yr Aelod Cabinet Addysg, Y Cynghorydd Beca Brown**

"Addysg ddwyieithog rydym ni'n gynnig yn y sir yma, wrth gwrs, ac mae'r Gymraeg ar gael i bawb, ac mae pawb yn cael y Gymraeg. Does yna ddim osgoi'r Gymraeg yma yn y sir. Rydym ni'n gwybod bod yna waith yn digwydd hefo dwy ysgol, ond addysg ddwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg, wrth gwrs, hefo'r pwyslais ar y Gymraeg, sydd yn digwydd yma. Nid ydw i'n ymwybodol o newidiadau diweddar i'r Polisi, ond â bod yn deg, mae'r Polisi wedi bod yn hynod lwyddiannus ac yn gweithredu ar yr egwyddor glir bod y Gymraeg ar gael i bawb, a phawb yn ei chael hi.

Rydym yn gwybod, fodd bynnag, o weld ystadegau'r Cyfrifiad, bod yna heriau o ran y boblogaeth, ayb, ac mae hynny'n golygu bod angen i ni edrych ar yr heriau newydd rheini. Hefyd, mae yna nifer o newidiadau wedi digwydd yn y byd addysg, felly mae'n amserol i ni gyfarch y rheini a heriau newydd o ran y boblogaeth, a bydd hynny'n codi mewn cwestiwn arall yn nes ymlaen.

Heb i ni fod yn edrych yn ôl ar yr hyn a fu, beth sy'n bwysig ydi beth sy'n digwydd rŵan, a beth sy'n mynd i fod yn digwydd, a beth sy'n digwydd rŵan ydi bod ni'n edrych ar y Polisi ac yn mynd i'w ddiweddaru a'i gryfhau, a bod hynny yn mynd i fod, gobeithio, yn unol â'n dyhead ni, sydd bob amser yn uchelgeisiol yn y sir yma."

**(3) Cwestiwn Y Cynghorydd Richard Glyn Roberts**

"Mae darpariaeth newydd ym maes gofal yn rhywbeth i'w groesawu, ond ai priodol yw mynegi cymeradwyaeth a chefnogaeth ddiamod, ymlaen llaw, i gynlluniau sy'n rhwymo'r cyfryw ddarpariaeth wrth ddatblygiad tai nad yw ei raddfa o reidrwydd yn gymesur â'r angen am dai yn lleol a chan gymylu a drysu'r materion hyn, gofal a thai, nes tanseilio ymlaen llaw'r ymdrech i gloriannu effeithiau cymdeithasol posibl y cyfryw gynlluniau?"

**Ateb yr Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant, Y Cynghorydd Dilwyn Morgan**

"Diolch am y cwestiwn oherwydd mae'n rhoi cyfle i mi godi ymwybyddiaeth a rhannu newyddion da am gynllun sy'n arloesol a hynod gyffrous i ni yma yng Ngwynedd, ac rwy'n falch o gefnogaeth yr Aelod i'r ddarpariaeth newydd yma.

Cefndir y bartneriaeth sy'n cydweithio ar y cynllun yma ydi ni, wrth gwrs, Cyngor Gwynedd, yr Adran Tai ac Eiddo a'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, ac efallai y byddaf yn rhoi'r cyfle, gyda chaniatâd y Swyddog Monitro, os bydd yr Aelod Cabinet Tai, y Cynghorydd Craig ab Iago, hefyd eisiau cyfrannu at yr ateb, os bydd cwestiwn atodol. Partneriaid eraill ydi Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Cymdeithas Tai Clwyd ac Alun a'r gymuned leol, ac mae hwnnw'n bwysig iawn, sef y fferyllwyr, y meddygon lleol, yn ogystal ag aelodau lleol y gymuned yn Llŷn ac Eifionydd yn ehangach.

Rydw i am ateb y cwestiwn fel Cadeirydd y Bwrdd Rhaglen Ail-ddatblygu Safle Penyberth, bwrdd sydd, gyda llaw, â'r hawl absoliwt i gymeradwyo neu wrthod pob penderfyniad am y safle yma. Tra'n diolch am y cwestiwn, mae'n rhaid i mi anghytuno a chadarnhau nad ydi'r "*mynegi cymeradwyaeth a chefnogaeth ddiamod o flaen llaw*", sydd yn y cwestiwn, yn ffeithiol gywir. Felly mae'n rhaid i mi anghytuno hefo'r Aelod ar hynny, ond eto'n wir groesawu bod yr Aelod yn gefnogol i'r ddarpariaeth gofal yma fydd, wrth gwrs, yn cynnwys cymysgedd o dai gofal, darpariaeth gwelyau nyrsio, dementia a llawer mwy. Ac rydw i am orffen trwy ddweud bod croeso i unrhyw aelod o'r Cyngor gysylltu â mi ar unrhyw fater am Penyberth, ac yn ehangach o ran yr Adran Oedolion, ac rydw i ar gael bob amser. Diolch eto am y cwestiwn a'r cyfle i godi ymwybyddiaeth o safle Penyberth."

**Cwestiwn Atodol y Cynghorydd Richard Glyn Roberts**

"Byddai paragraff olaf yr ymateb ysgrifenedig wedi bod yn ateb digonol i baragraff o gwestiwn. Pam bod teimlad bod yna reidrwydd i ragymadroddi?"

**Ateb yr Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant, Y Cynghorydd Dilwyn Morgan**

"Rwy'n credu fy mod wedi ateb y cwestiwn atodol ar y cychwyn. Rydw i wedi pwysleisio bod hwn yn gynllun mor arloesol ac mor gyffrous fel bod angen i ni fel Cyngor fanteisio ar unrhyw gyfle i gael y neges yna allan. Mae'n neges mor bwysig, nid yn unig i drigolion Llŷn ac Eifionydd, ond i'n hardaloedd gwledig ni, felly dyna'r rheswm dros yr ateb llawn, ac rydw i'n hynod falch o'r ateb a'r cyfle i roi'r wybodaeth allan i'r cyhoedd."

**(4) Cwestiwn Y Cynghorydd Gwynfor Owen**

Yn dilyn cyfarfod gyda Lee Waters yng Nghaerdydd Dydd Mercher y 26ain o Ebrill 2023 i drafod pryderon diogelwch ffyrdd Llanbedr, gai ofyn i'r Arweinydd adrodd i'r Cyngor ar ganlyniad y trafodaethau hynny?

**Ateb Arweinydd y Cyngor, Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn**

"Roedd yn gyfarfod y gellid ei ddisgrifio fel un hanesyddol, h.y. dydi'r Dirprwy Weinidog a minnau ddim wedi bod ar y telerau gorau ers iddo ddatgan nad oedd cynllun ffordd Llanbedr yn mynd yn ei flaen, ac mae yna eiriau wedi bod rhyngom ers y cyfnod yna. Fodd bynnag, mi gefais y cyfle i fynychu'r cyfarfod gyda'r Dirprwy Weinidog ynghyd â chynrychiolaeth o Grŵp Pobl Llanbedr, a'n Haelod Seneddol, Mabon ap Gwynfor, a'n Haelod Seneddol, Liz Saville Roberts.

Cyn i ni gael gair i mewn a dweud y gwir, fe wnaeth y Dirprwy Weinidog ddatgan ei fod yn cefnogi cynlluniau am ffordd, nid ffordd osgoi, ond ffordd lliniaru cyflymder isel i Lanbedr fel rhan o gynllun ehangach y Coridor Gwyrdd. Roeddwn wedi bod mewn cyfarfod ychydig ddyddiau ynghynt ac roedd llawer o sôn am ddatblygu'r Coridor Gwyrdd. Rydym ni'n awyddus iawn i ddatblygu'r Coridor Gwyrdd ar hyd arfordir Ardudwy, ond heb y ffordd lliniaru, doedd y Coridor Gwyrdd ddim yn mynd i weithio.

Mae hwn yn gam mawr ymlaen ac yn galonogol iawn ac mae'r trigolion lleol wrth eu boddau o glywed y cyhoeddiad fel y gwyddom ni. Er hynny, rhaid rhoi rhybudd iechyd bach - does dim cadarnhad o gyllido'r cynllun, felly does 'na ddim sicrwydd ar hyn o bryd y bydd unrhyw gynllun yn cael ei ariannu. Nid ydym chwaith yn ymwybodol o'r amserlen sydd gan y Llywodraeth mewn golwg, felly edrychwn ymlaen at unrhyw drafodaethau pellach gyda'r Dirprwy Weinidog a'i swyddogion er mwyn symud y prosiect yn ei flaen.

Cyn tewi, gai hefyd ddiolch i bobl Llanbedr am eu dyfal barhad ynglŷn â'r mater yma ac am weithio mor galed i sicrhau clust y Llywodraeth. Roedd o'n cael effaith ddifrifol ar fywydau pobl Llanbedr, ac mae fy niolch i yn bersonol yn fawr iawn iddyn nhw am eu hymdrechion."

**Cwestiwn Atodol y Cynghorydd Gwynfor Owen**

"Fedar yr Arweinydd adrodd beth mae'n rhagweld fydd angen i'r Cyngor a Llywodraeth Cymru ei wneud o hyn ymlaen i wireddu'r cynllun?"

**Ateb Arweinydd y Cyngor, Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn**

"Y camau cyntaf fydd rhaid eu cymryd ydi mynd drwy'r holl broses o baratoi cynlluniau newydd, cael y caniatadau gan y rheoleiddwyr, caniatâd cynllunio, ymgymryd â'r holl ymgynghoriadau lleol, ayb, ac mae'r Llywodraeth yn mynd i gydweithio â'n Hadran Amgylchedd ni i ddatblygu'r cynlluniau hynny. Felly dyna ydi'r gwaith sy'n mynd i ddigwydd nesaf. Gall hynny gymryd cryn amser. Mi fuaswn i'n tybio y bydd o leiaf flwyddyn neu ddwy cyn i ni gael y cynlluniau hynny yn eu lle, ac mae yna gost i'r peth hefyd.

Mae'r Llywodraeth wedi cynnig cymorth ariannol i ddatblygu'r cynlluniau hynny. Gai ddweud nad ydw i'n dathlu mor fawr â rhai eraill oherwydd mod i'n gwybod nad oes yna arian wedi'i glustnodi. Fel y cofiwn, wrth gwrs, mi roedd yna arian yn ei le. Roeddem ar fin mynd allan i dendr am y cynllun gwreiddiol cyn i'r Dirprwy Weinidog wneud ei ddatganiad, felly roedd popeth yn ei le, yn cynnwys arian Ewrop, sydd bellach wedi'i golli. Fe gofiwch hefyd i ni wneud cais i'r gronfa 'Levelling Up' oedd ddim yn llwyddiannus, felly'r unig ffynhonnell ariannol sydd gennym ni bellach ydi Llywodraeth Cymru.

Felly, y dasg i ni, mae'n debyg, o hyn ymlaen, wrth ddatblygu'r cynlluniau yna ydi pwyso ar y Llywodraeth am eu hymrwymiad hwy i ariannu'r cynllun, ac mi fydd yn gynllun ehangach na dim ond y ffordd o amgylch Llanbedr. Roeddwn yn hynod bryderus ynglŷn â'r agwedd oedd yn yr adroddiad gwreiddiol nad oedd safle maes awyr Llanbedr yn addas ar gyfer datblygiad economaidd, am ei fod mewn lle gwledig. I mi, mae hynny'n ddatganiad polisi difrifol iawn i ardaloedd gwledig. Dyma'r union fath o safleoedd rydym angen eu datblygu er mwyn cynnig gwaith o safon y tu allan i amaethyddiaeth a'r tu allan i dwristiaeth. Felly rydw i'n hynod falch bod yna ryw fath o ddatblygiad o leiaf gan obeithio y bydd yn symud yn ei flaen."

**(5) Cwestiwn y Cynghorydd Huw Rowlands**

"Mae demograffeg nifer disgyblion ysgolion Gwynedd yn dangos gostyngiad am y blynyddoedd i ddod.

Yn wyneb hyn, pa strategaeth sydd gan Gyngor Gwynedd er mwyn dygymod â'r sialens yma, yn enwedig yng nghyd-destun ysgolion bach a gwledig?"

**Ateb yr Aelod Cabinet Addysg, Y Cynghorydd Beca Brown**

"Mae hwn yn gwestiwn hynod o bwysig sy'n codi materion y dylem i gyd fod yn gwbl effro iddynt. Un o'r pethau mwyaf trawiadol i mi wrth baratoi'r ateb ysgrifenedig oedd, o safbwynt nifer yr ysgolion cynradd sydd gennym, bod Gwynedd yn bedwerydd uchaf o holl awdurdodau Cymru, gyda dim ond Caerdydd, Caerfyrddin a Rhondda Cynon Taf gyda nifer uwch o ysgolion cynradd na ni. O safbwynt nifer yr ysgolion uwchradd, Gwynedd yw'r trydydd uchaf (ar y cyd ag Abertawe) o holl awdurdodau Cymru, gyda dim ond Caerdydd a Rhondda Cynon Taf gyda mwy o ysgolion uwchradd na ni. Fodd bynnag, ceir oddeutu 20,000 yn fwy o ddysgwyr cynradd, ac 20,000 yn fwy o ddysgwyr uwchradd yng Nghaerdydd o'i gymharu â Gwynedd, ac mae hynny'n dweud ei stori ei hun.

Peth trawiadol hefyd ydi bod y gyfradd genedigaethau wedi bod yn gostwng, a bod rhagfynegiadau Llywodraeth Cymru yn awgrymu lleihad pellach o tua 16% yn niferoedd dysgwyr 3-19 oed erbyn 2038.

Felly, mae yna heriau amlwg a sylweddol o'n blaenau. Mewn ymateb i'r darlun hynod bryderus yma, mae'r Adran yn y broses o lunio Strategaeth Addysg newydd fydd yn nodi gweledigaeth, nod ac amcanion yr Adran ar gyfer mynd i'r afael â'r newidiadau mawr yma sydd ar droed o ran poblogaeth ein sir."

**Cwestiwn Atodol y Cynghorydd Huw Rowlands**

"Sut fyddwch chi'n datblygu'r Strategaeth a gyda phwy fyddwch yn ymgynghori wrth ddatblygu'r Strategaeth?"

**Ateb yr Aelod Cabinet Addysg, Y Cynghorydd Beca Brown**

"Mae braidd yn gynamserol i mi allu rhoi llawer o fanylion i chi, ond bydd drafft yn mynd gerbron y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ym mis Medi eleni, a byddaf yn edrych ymlaen yn arw at glywed sylwadau'r craffwyr ar y drafft. Bydd yna ymgynghori hefo rhanddeiliaid, wrth gwrs, a blaen graffu'r Strategaeth ddrafft. Yn gyffredinol, rwy'n meddwl ei bod yn hollbwysig bod yna *'joined-up thinking'* o ran blaengynllunio ar gyfer yr her enfawr yma sydd gennym ni, a bod hynny'n digwydd ar draws sawl adran, Economi, Tai ac Addysg, oherwydd mater i gymunedau ydi hyn yn y bôn, a sut rydym ni'n denu a chadw teuluoedd yma, ac efallai eu denu yn ôl o lefydd fel Caerdydd.

Mae yna andros o waith i'w wneud, ac rydym ni'n aml iawn yn brwydro yn erbyn ffactorau sydd y tu hwnt i'n rheolaeth ni, ond dydi hynny ddim i ddeud nad oes yna unrhyw beth fedrwn ni ei wneud ychwaith, a hoffwn feddwl bod yna bethau fedrwn ni eu gwneud, ac yn wir rwy'n meddwl ei fod yn un o'r darnau gwaith pwysicaf wnawn ni, felly diolch am y cwestiwn."

**9. CYNLLUN LLESIANT BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS GWYNEDD AC YNYS MÔN 2023-28**

Cyflwynodd Arweinydd y Cyngor, Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn, adroddiad yn gwahodd y Cyngor i fabwysiadu Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn 2023-28, ac ymhelaethodd Rheolwr Rhaglen Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn ymhellach ar y cynnwys.

Diolchodd yr Arweinydd i'r Rheolwr Rhaglen am ei holl waith yn paratoi'r cynllun.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau gyflwyno sylwadau a gofyn cwestiynau. Codwyd y materion a ganlyn gan aelodau unigol:-

Nodwyd bod pryder wedi'i leisio eisoes yn y Pwyllgor Craffu Cymunedau ynglŷn â'r syniad bod y Gymraeg yn llinyn euraidd sy'n rhedeg drwy'r holl gynllun, yn hytrach nag yn amcan clir mewn bocs, a gofynnwyd am sicrwydd bod y swyddogion wedi gweithredu ar yr adborth hwnnw cyn cyflwyno'r adroddiad hwn i'r Cyngor.

Mewn ymateb, nododd yr Arweinydd:-

- Ei bod yn fater o farn a ydi rhoi'r Gymraeg mewn bocs yn cryfhau neu wanhau'r Gymraeg.
- Bod y Gymraeg yn rhan annatod o bob maes y mae'r Bwrdd yn ymwneud ag o, ac nad oes angen rhoi'r Gymraeg mewn bocs. Credai ei fod yn gryfach felly, a gallai roi sicrwydd na fyddai yna newid safbwynt o gwbl o ran y Gymraeg.
- Bod yr holl bartneriaid wedi cyfrannu'n ariannol at brosiectau, dan arweiniad Cadeirydd y Bwrdd, Aled Jones-Griffith, yn ymwneud â'r defnydd o'r Gymraeg ar draws y sefydliadau i gyd yn eu derbynfeydd, a chredai fod yna ragor o arian i ddod i brosiectau yn y dyfodol ynglŷn â'r Gymraeg.

Ychwanegodd y Rheolwr Rhaglen fod yr un sylw wedi codi wrth drafod gyda'r grwpiau eraill, a'i bod yn gobeithio fod y cynllun presennol yn dipyn gwahanol i'r drafft gwreiddiol, yn sgil cryfhau'r agwedd yn ymwneud â'r iaith.

Holwyd beth fyddai'r sefyllfa yn sgil newid mewn arweinyddiaeth yn y dyfodol, heb bolisïau a gwarchodaeth i'r iaith.

Mewn ymateb, nododd yr Arweinydd nad mater iddo ef yn bersonol oedd y Gymraeg a bod y Gymraeg yn flaenoriaeth i Gyngor Gwynedd fel sefydliad. Gan hynny, byddai pwy

bynnag fyddai'n cynrychioli'r Cyngor ar y Bwrdd yn y dyfodol yn gosod safbwynt y Cyngor o ran y Gymraeg yn hollol glir.

Ychwanegodd y Rheolwr Rhaglen:-

- Bod cylch gorchwyl y Bwrdd yn datgan yn glir bod gwaith y Bwrdd yn Gymraeg.
- Y credai fod y prosiectau mwyaf effeithiol y mae'r Bwrdd wedi ymgymryd â hwy yn ymwneud â'r Gymraeg, lle mae'r partneriaid i gyd wedi ymrwymo iddynt.
- Bod yna brosiect newydd ar y gweill i edrych ar anawsterau penodi i swyddi lle mae'r Gymraeg yn angenrheidiol o fewn y gwahanol sefydliadau.

Gan gyfeirio at baragraff 2.9 o'r blaen-adroddiad, nodwyd bod y gweithrediadau penodol i'r Gymraeg yn amlwg yn Amcan Llesiant 2, lle mae sôn am drosglwyddo'r iaith, ond y dymunid cael enghreifftiau yn Amcan Llesiant 1 ac Amcan Llesiant 3, lle nad oes amlygiad i'r iaith Gymraeg ar hyn o bryd.

Mewn ymateb, nododd y Rheolwr Rhaglen:-

- Y cytunai ei fod yn fwy clir yn Amcan Llesiant 2, ond ei fod yn treiddio drwy'r cynllun.
- O ran Amcan Llesiant 3, bod mwy o waith i'w wneud dros yr Haf, a gellid sicrhau'r aelodau y byddai'r iaith Gymraeg yn y cynllun gweithredu maes o law.

Awgrymwyd mai geiriau gwag oedd dweud bod yr iaith Gymraeg yn llinyn euraidd sy'n rhedeg drwy'r cynllun, os nad ydym yn ei wneud yn amcan neu'n faen prawf y gellir ei fesur.

Mewn ymateb, nododd yr Arweinydd:-

- Ei fod yn anghytuno â'r sylw ac yn gresynu at y cyhuddiad, ac nad geiriau gwag mohonynt.
- Na chredai fod angen cael prosiect arbennig i'r Gymraeg yng Ngwynedd.

Awgrymwyd ychwanegu sylw, er bod y Gymraeg yn organig ac yn briod iaith y cymunedau at ei gilydd, bod ffigurau'r Cyfrifiad o ddegawd i ddegawd yn dangos nad yw sefyllfa'r iaith yn arbennig o ddiogel yma yng Ngwynedd chwaith, a'n bod yn dilyn taflwybr tebyg i nifer o ardaloedd eraill.

Nodwyd bod erthygl ddiweddar yn nodi mai Gwynedd oedd â'r bwlch mwyaf rhwng y ganran o'r boblogaeth sy'n medru'r Gymraeg yn gyffredinol a chanran y boblogaeth o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig sy'n medru'r Gymraeg. Awgrymwyd nad oedd system addysg Gwynedd, o bosib', yn cynnig yr un cyfle i rai o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig afael yn y Gymraeg, ac felly gymhwyso ar gyfer swyddi i'r un graddau ag aelodau'r gymdeithas yn gyffredinol, a chredid bod hynny'n eithaf damniol ac yn awgrymu y dylem newid polisi addysg, ayb.

Mynegwyd syndod nad oedd y cynllun yn rhoi mwy o flaenoriaeth i'r argyfwng presennol yn y maes iechyd.

Mewn ymateb, nododd yr Arweinydd:-

- Ei fod yn derbyn y sylw a'i fod yn ymwybodol o'r argyfwng yn y maes iechyd.
- Er mai'r Bwrdd Iechyd sy'n bennaf gyfrifol am y maes iechyd, gellid edrych ar ffyrdd o gyfrannu at ddatrys y broblem iechyd trwy bartneriaeth y Bwrdd.

Nodwyd bod pobl yn methu cael ambiwlans, meddyg na deintydd, a bod tlodi yn gwaethygu yn ein cymunedau o ganlyniad i'r argyfwng costau byw. Hefyd, roedd diffyg trafnidiaeth

gyhoeddus yn caethiwo pobl yn eu cymunedau, a chredid nad oedd y cynllun yn cyfarch yr holl faterion hyn.

Mewn ymateb, nododd yr Arweinydd:-

- Er yn derbyn y pwynt, na allai'r cynllun gyfarch popeth. Rôl y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus oedd chwilio am ffyrdd i ychwanegu at waith y cynghorau a'r sefydliadau unigol, ac nid gwneud y gwaith yma drostynt.
- Bod yna bwynt am iechyd sy'n cyfeirio at rywbeth sy'n draws-ffiniol ac yn draws-sefydliadol, a chredid bod yna rywbeth i'r Bwrdd edrych arno.
- Bod tlodi, fel newid hinsawdd, yn faes hynod gymhleth ac ychydig iawn o reolaeth sydd gennym ni, ac ychydig iawn o reolaeth neu arfau sydd gan Lywodraeth Cymru o ran tlodi, gan fod yr arfau yn gorwedd yn Llywodraeth San Steffan.

Awgrymwyd bod y symudiad tuag at sero net carbon am yrru mwy o bobl i sefyllfa o dlodi. Roedd mwyafrif poblogaeth y byd yn ddibynnol ar fwyd sydd wedi'i gynhyrchu gan ddefnyddio gwrtaith ac roedd cwmnïau o'r tu allan yn prynu ein tiroedd ar gyfer plannu coed i wrthbwyso eu ôl-troed carbon. Nid oedd modd cyrraedd sero net carbon yng nghefn gwlad. Roedd amaethwyr angen diesel i'w tractors a gweithwyr angen tanwydd i'w cerbydau er mwyn cymudo i'r trefi.

Mynegwyd siomedigaeth mai 499 yn unig o ymatebion a dderbyniwyd i'r holiadur ar y cynllun a nodwyd bod unrhyw gydweithio rhwng Gwynedd a Môn yn diystyru De Gwynedd.

Mewn ymateb, nododd yr Arweinydd, yn ogystal â'r holiadur ar y wefan, bod yna waith ymgysylltu hefyd wedi digwydd trwy ddefnyddio gwaith ymgysylltu'r Cyngor yng nghyswllt Ardal Ni.

Ychwanegodd y Rheolwr Rhaglen:-

- Bod 499 o ymatebion yn uchel o gymharu ag ymatebion i holiaduron eraill.
- Bod mwyafrif y sesiynau ymgysylltu wyneb yn wyneb wedi'u cynnal yn Ne Gwynedd ac y cafwyd ymateb da iawn.

Mynegwyd siomedigaeth na ymgysylltwyd gyda disgyblion hŷn ysgolion uwchradd.

Mewn ymateb, nododd y Rheolwr Rhaglen nad oedd yr amseru wedi gweithio o ran hynny, ond y cafwyd cytundeb bellach i fynd allan i ysgolion uwchradd yn eu tro, a bod 4 ysgol wedi arwyddo i fyny i hynny eisoes.

Ychwanegodd yr Arweinydd mai'r Rheolwr Rhaglen oedd unig adnodd ymgynghori'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a dyna pam ein bod yn gwneud defnydd o waith ymgysylltu'r cynghorau hefyd.

Nodwyd bod sylw'r Arweinydd mai ychydig iawn o reolaeth sydd gennym dros faterion megis tlodi yn un gonest iawn, ac awgrymwyd y dylai geiriad aml i baragraff a chymal yn yr adroddiad fod yn fwy gwylaidd ac ymarferol, drwy nodi *'byddwn yn <u>ymdrechu</u> ...'* yn hytrach na *'byddwn yn ...'* Fel enghraifft o hynny, nodwyd bod y cynllun yn sôn am sicrhau llwyddiant a thegwch i bobl ifanc, ond roedd yr ysgolion wedi'u naddu at yr asgwrn yn ariannol, a hyn a hyn y gellid ei wneud yn unig o fewn y cyfyngiadau hynny. Roedd yr un peth yn wir am sylwadau Cylch yr Iaith, a byddai'n braf mynegi bod yna rwystrau strwythurol na fedrwn ni wneud dim yn eu cylch.

Mewn ymateb, nododd yr Arweinydd nad oedd yn rhannu negyddiaeth yr aelod yn hyn o beth.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn 2023-28.**

## 10. ADOLYGIAD BLYNYDDOL O GYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL Y CYNGOR

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth adroddiad yn cyflwyno'r adolygiad blynyddol o gydbwysedd gwleidyddol y Cyngor.

Nododd Arweinydd y Grŵp Annibynnol y dymunai sicrhau fod y dyraniad yn cael ei gyfrifo'n gywir a bod cadeiryddiaethau dau bwyllgor craffu yn mynd i'r Grŵp Annibynnol fel y dylent.

**PENDERFYNWYD**

1. **Mabwysiadu'r rhestr o bwyllgorau ac is-bwyllgorau i'w sefydlu ar gyfer y flwyddyn fwrdeistrefol 2023/24 fel a nodir isod, ynghyd â mabwysiadu'r dyraniad seddau a nodir.**

**DYRANIAD SEDDI AR BWYLLGORAU**

| A | Plaid Cymru | Annibynnol | Llafur Rhydd* | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi | 12 | 6 | 0 | 18 |
| Pwyllgor Craffu Cymunedau | 11 | 6 | 1 | 18 |
| Pwyllgor Craffu Gofal | 11 | 6 | 1 | 18 |
| Llywodraethu ac Archwilio | 8 | 4 | 0 | 12 |

| B | Plaid Cymru | Annibynnol | Llafur Rhydd | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Democrataidd | 9 | 5 | 1 | 15 |
| Cynllunio | 9 | 5 | 1 | 15 |
| Trwyddedu Canolog/ Cyffredinol | 10 | 5 | 0 | 15 |
| Iaith | 10 | 5 | 0 | 15 |
| Penodi Prif Swyddogion | 10 | 5 | 0 | 15 |
| Apelau Cyflogaeth | 5 | 2 | 0 | 7 |
| Nifer y seddau | 95 | 49 | 4 | 148 |

| C | Plaid Cymr | Annibynnol | Llafur Rhydd | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|

| | u | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Pensiynau** | **4** | **2** | **1** | **7** |
| **Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol** | **7** | **4** | **0** | **11** |
| **CYSAG** | **4** | **3** | **0** | **7** |
| **Cyfanswm y seddau** | **110** | **58** | **5** | **173** |

*** Grŵp Llafur/Democratiaid Rhyddfrydol**

2. **Dirprwyo'r hawl i'r Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth wneud penodiadau i'r grwpiau ar sail cydbwysedd gwleidyddol, ac yn unol â dymuniadau'r grwpiau gwleidyddol.**
3. **Mabwysiadu cadeiryddiaethau'r pwyllgorau craffu ar sail cydbwysedd gwleidyddol, fel a ganlyn:**

**Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi – Grŵp Annibynnol**
**Pwyllgor Craffu Cymunedau – Grŵp Plaid Cymru**
**Pwyllgor Craffu Gofal – Grŵp Annibynnol**

**11. UWCH GYFLOGAU**

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth adroddiad yn gwahodd y Cyngor i fabwysiadu uwch gyflogau ar gyfer 2023/24.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r uwch-gyflogau isod ar gyfer 2023/24:**

- **Arweinydd**
- **Dirprwy Arweinydd**
- **Hyd at 8 aelod arall o'r Cabinet**
- **Arweinydd yr Wrthblaid fwyaf ***
- **Cadeiryddion Pwyllgorau:**
  - **o Pwyllgorau Craffu (x3)**
  - **o Pwyllgor Cynllunio**
  - **o Pwyllgor Trwyddedu (mae'r pwyllgor Trwyddedu Canolog a Chyffredinol yn cael ei drin fel un pwyllgor)**
  - **o Pwyllgor Pensiynau**
- **Pennaeth dinesig (Cadeirydd y Cyngor)**
- **Dirprwy Bennaeth dinesig (Is-gadeirydd y Cyngor)**

**12. PENODI CADEIRYDD I'R PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATIAETH**

Gwahoddwyd y Cyngor i benodi cadeirydd i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth ar gyfer 2023/24.

**PENDERFYNWYD penodi'r Cynghorydd Dewi Owen yn Gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth am 2023/24.**

**13. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PENNAETH GWASANAETHAU DEMOCRATIAETH 2022/23**

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth ei adroddiad blynyddol ar ran y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth yng nghyswllt cefnogaeth i aelodau. Diolchodd y

Pennaeth i Gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth, y Cynghorydd Dewi Owen ac aelodau'r pwyllgor, a hefyd i'w ragflaenydd, Geraint Owen, a'r swyddogion o fewn y gwasanaeth sy'n rhoi'r gefnogaeth o ddydd i ddydd.

Diolchodd Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth i'r swyddogion, gan nodi ei fod yn edrych ymlaen at weithio gyda'r Pennaeth a'r Rheolwr Gwasanaethau Democratiaeth ac Iaith dros y flwyddyn nesaf. Ychwanegodd mai un o'r prif faterion sy'n wynebu'r pwyllgor yw diogelwch aelodau, ac y byddai o fudd petai yna rif ffôn ar gael i aelodau adrodd unrhyw bryderon ynglŷn â hynny.

Diolchwyd i'r Adran am y wybodaeth glir ac amserol i aelodau newydd yn dilyn Etholiadau 2022.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r adroddiad er gwybodaeth.**

## 14. ASESIAD ANGHENION POBLOGAETH OEDOLION GWYNEDD

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant adroddiad yn gwahodd y Cyngor i gymeradwyo Asesiad Anghenion Poblogaeth Oedolion Gwynedd a mabwysiadu'r argymhellion yn yr adroddiad i'w hymgorffori yng Nghynllun y Cyngor.

Diolchodd yr Aelod Cabinet i'r Rheolwr Comisiynu, Contractau a Phrosiectau a'r Tîm am eu gwaith sylweddol yn paratoi'r ddogfen.

Nododd Cadeirydd 2022/23 y Pwyllgor Craffu Gofal, y Cynghorydd Eryl Jones Williams, y dymunai ddiolch yn bersonol i'r Aelod Cabinet am ei waith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Nododd, yn sgil cau ward cleifion mewnol Ysbyty Tywyn, bod Adran Henoed Gwynedd wedi dod o hyd i le i bron bawb o'r cleifion yn lleol mewn cartrefi gofal yn Nhywyn, yn hytrach na'u bod wedi gorfod mynd i Ysbyty Dolgellau, a diolchodd i'r Aelod Cabinet a'r staff am eu gwaith caled.

Diolchodd yr Aelod Cabinet am y gefnogaeth, ond gan nodi mai i staff yr Adran yr oedd y diolch am y gwaith.

**PENDERFYNWYD**

1. **Cymeradwyo Asesiad Anghenion Poblogaeth Oedolion Gwynedd.**
2. **Mabwysiadu'r argymhellion yn yr adroddiad i'w hymgorffori yng Nghynllun y Cyngor.**

## 15. RHYBUDDION O GYNNIG

(A) Cyflwynwyd y rhybudd o gynnig a ganlyn gan y Cynghorydd Rhys Tudur o dan Adran 4.20 y Cyfansoddiad, ac fe'i eiliwyd:-

Er mwyn i'r Cyngor arloesi yn y ffordd y bydd yn monitro gweithrediad y ddarpariaeth addysg Gymraeg a'r cynnydd yn fanwl ac yn effeithiol o fewn ein hysgolion, gofynnir i'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi roi ystyriaeth i'r modd priodol o gasglu data a monitro'r ddarpariaeth cyfrwng Gymraeg ymhob ysgol uwchradd yn erbyn gwaelodlinau'r categorïau y mae'r ysgolion ynddynt.

Gosododd yr aelod y cyd-destun i'w gynnig, gan nodi:-

- Nad hwn oedd y cynnig gwreiddiol roedd wedi dymuno ei roi gerbron y Cyngor, a bod ei gynnig wedi'i newid drwy awgrym y Swyddog Monitro.
- Bod ei gynnig gwreiddiol yn gofyn i'r Cyngor llawn gasglu data a monitro'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn erbyn gwaelodlinau'r categorïau

cenedlaethol, ac er ei fod yn derbyn yr arweiniad, ei bod yn siom a syndod iddo nad oes modd i aelod gyflwyno cynnig yn galw ar y Cyngor i gasglu data.

- Nad oedd y cynnig yn mynd yn syth at y nod fel roedd wedi gobeithio, ond yn hytrach yn cropian yn araf bach at y nod drwy alw ar y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi bellach i edrych ar ddull o gasglu data. Ni ddylem fod yn cropian at y nod hefo'r Gymraeg, ond yn hytrach yn llamu ac yn arloesi.
- Mai arwyddocâd y cynnig yn ei hanfod oedd y dylid mesur y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn unol â'r categoreiddio cenedlaethol.
- Gan fod gan ysgolion cyfrwng Cymraeg waelodlin yn nodi bod 60% o'r plant yn gwneud 70% o'u haddysg drwy'r Gymraeg, tybid mai cam pwysig fyddai mesur faint o blant sy'n gwneud 70% o'u haddysg drwy'r Gymraeg, ac ym mha fodd mae'r ysgolion yn ffitio i waelodlinau'r categori. Heb y wybodaeth honno, nid oedd yn hysbys sut roedd yr ysgolion yn ffitio i'w categori a sut roeddent yn gwella.
- Mai llinyn mesur y Cyngor ar hyn o bryd o ran darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg oedd y mesurydd yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSGA) o ran faint o blant sy'n gwneud 5 pwnc TGAU neu ragor drwy'r Gymraeg.
- Bod y Cyngor, nid yn unig wedi methu yn yr amcan o gynyddu'r nifer sy'n gwneud 5 pwnc neu ragor drwy'r Gymraeg, ond hefyd wedi llithro dros y blynyddoedd, felly roedd y CSGA wedi methu o ran yr agwedd honno.
- Y gobeithid y byddwn yn casglu data yn drylwyr o hyn allan er mwyn cyrraedd ein hamcanion ac arloesi o blaid y Gymraeg.
- Bod y canllawiau cenedlaethol mewn grym ers Medi 2022 a byddai'n drueni o beth petai Cyngor Gwynedd o bawb yn ymwrthod â mesur yn unol â'r categoreiddio yma.
- Ei fod yn galw ar ei gyd-aelodau i gefnogi'r cynnig gan y byddai'n ein grymuso â gwybodaeth, a dyna'r cam pwysicaf ar gyfer symud y Cyngor ymlaen ar y continiwm iaith.

Mewn ymateb i sylwadau'r cynigydd, nododd yr Aelod Cabinet Addysg:-

- Ei bod yn derbyn y pwynt yn llwyr ynglŷn â phwysigrwydd medru mesur a chael data, a'i bod wedi crybwyll hynny yn ei hateb i un o'r cwestiynau yn flaenorol.
- Bod yna waith yn mynd ymlaen yn yr Adran ar hyn o bryd i wneud yr union beth hynny, sef casglu data er mwyn cael darlun cyflawn ynglŷn â beth yn union sy'n mynd ymlaen ar lawr dosbarth yn ein hysgolion o ran y Gymraeg ac addysg ddwyieithog.
- Bod yna fesurydd y Gymraeg yn cael ei gyflwyno i'r cyfarfodydd herio perfformiad a bod cynrychiolwyr o'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi yn cael gwahoddiad i rai o'r cyfarfodydd hynny.
- Nad oedd Gwynedd yn ddarostyngedig i'r waelodlin sydd yn y categori ac roedd y ffaith bod y canllawiau yn anstatudol yn bwysig oherwydd y gallai'r gwaelodlinau naill ai newid neu ddiflannu'n llwyr.
- Bod y cynnig felly yn gofyn i ni fesur yn erbyn rhywbeth fydd ddim yn bodoli maes o law, ond wrth gwrs, roedd gofyn ein bod yn mesur o ran yr hyn y dymunwn ei weld yma, ac roedd unrhyw ddyhead sydd gennym am fod yn sylweddol uwch na gwaelodlin y categori.
- Mai'r Cyngor hwn, ac nid y fframwaith cenedlaethol, sy'n gosod y Polisi Iaith yn lleol. Roedd Llywodraeth Cymru yn llwyr ddeall hynny, ac yn gwerthfawrogi bod ein sefyllfa ni yng Ngwynedd yn unigryw.

Mynegodd aelodau eraill gefnogaeth i'r cynnig.

Yn ei sylwadau cloi, nododd y cynigydd:-

- Ei fod yn croesawu'r ffaith bod yna waith yn mynd ymlaen yn yr Adran ar hyn o bryd o ran mesurydd ychwanegol, ond na welai bod ei gynnig yn creu anhawster o ran cyfeirio at y gwaelodlinau.
- Petai'r gwaelodlinau yn newid yn y dyfodol, byddem yn mesur yn unol â beth fydd y gwaelodlinau hynny yn y dyfodol.
- Ei fod yn croesawu'r ffaith bod yna amcan i roi gwaelodlin gwell na'r hyn mae'r Llywodraeth yn ei gynnig, ond roedd y Cyngor yn mesur yn salach nag mae'r waelodlin yn ganiatáu ar hyn o bryd, a'r unig fesurydd eithaf manwl sydd gennym ydi faint o blant sy'n gwneud 5 pwnc TGAU neu ragor drwy'r Gymraeg, sef 50% mewn difri, neu lai o bosib' os ydi plentyn yn gwneud 11 pwnc TGAU.
- Ei fod yn argymell yn gryf ein bod yn mesur yn unol â'r hyn mae'r categoreiddio yn gynnig, anstatudol neu beidio, a bod diystyru canllawiau cenedlaethol ar gynyddu addysg Gymraeg, gan feddwl ein bod yn arloesi, yn rhywbeth eithaf ffôl i'w wneud.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r cynnig, sef:-**

**Er mwyn i'r Cyngor arloesi yn y ffordd y bydd yn monitro gweithrediad y ddarpariaeth addysg Gymraeg a'r cynnydd yn fanwl ac yn effeithiol o fewn ein hysgolion, gofynnir i'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi roi ystyriaeth i'r modd priodol o gasglu data a monitro'r ddarpariaeth cyfrwng Gymraeg ymhob ysgol uwchradd yn erbyn gwaelodlinau'r categorïau y mae'r ysgolion ynddynt.**

(B) Cyflwynwyd y rhybudd o gynnig a ganlyn gan y Cynghorydd Elin Walker Jones o dan Adran 4.20 y Cyfansoddiad, ac fe'i eiliwyd:-

Mae gan Gymru uchelgais glodwiw i fod yn Genedl Noddfa Cymru gyntaf y Byd. Mae Gwynedd wedi gweithredu'n unol â'r uchelgais hon drwy gynnig lloches i ffoaduriaid ar draws y byd. Serch uchelgais Cymru, mae Llywodraeth San Steffan yn cyflwyno Deddf Mudo Anghyfreithlon sydd yn peryglu hawliau ffoaduriaid a cheiswyr lloches ac yn troi'r weithred o gyrraedd ynysoedd Prydain i geisio lloches yn drosedd. Mae hyn yn gwrthdaro yn erbyn egwyddorion Confensiwn Ffoaduriaid 1951, a'n huchelgais ni yng Nghymru. Wrth ystyried yr ofn y gall negeseuon anghroesawgar Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol achosi, mae'r Cyngor yma yn cadarnhau ei uchelgais o fod yn cynorthwyo ffoaduriaid, er mwyn lliniaru ychydig o'r ofn yma.

Gosododd yr aelod y cyd-destun i'w chynnig, gan nodi:-

- Ein bod, yn 2023, yn dal i fyw mewn byd creulon, yn llawn anghyfiawnder a thrais, a hynny er bod Datganiad y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Dynol yn galw am ryddid, cyfiawnder a heddwch yn y byd.
- Bod Erthygl 14 yn datgan fod gan bawb yr hawl i geisio ac i gael noddfa rhag erledigaeth mewn gwledydd eraill.
- Er hynny, bod y Deyrnas Gyfunol wedi cyflwyno polisïau dros y blynyddoedd i'w gwneud yn llai deniadol i geiswyr lloches ddod i Brydain, gan gynnwys rhwystrau ar allu gweithio a cheisio budd-daliadau, a dal ceiswyr lloches mewn canolfannau cadw lle nad oes ganddynt statws nag unrhyw syniad pryd y bydd eu cais yn cael ei brosesu.
- Bod storïau unigolion yn dangos fod hyn yn achosi straen, iselder a gorbryder a hyd yn oed broblemau iechyd corfforol a meddyliol, gan gofio fod y ceiswyr lloches yn bobl fregus yn barod.
- Y bydd y Bil Mudo Anghyfreithlon yn gwneud pethau'n waeth i'r bobl fregus yma, ond ni fydd y ddeddfwriaeth newydd yn rhwystro ffoaduriaid rhag ffoi, na cheisio lloches, na dod i Brydain, a bydd y niferoedd yn dal i gynyddu.
- Bod pobl yn ceisio lloches yn y DG oherwydd bod pobl yn siarad Saesneg, neu efallai fod ganddynt deulu neu ffrindiau yma eisoes.

- Bod y ddeddfwriaeth newydd yn sôn am anfon pobl yn ôl i'w mamwlad, ond roedd hyd yn oed Llywodraeth San Steffan yn cydnabod na ellir anfon ceiswyr lloches yn ôl i'w gwlad yn aml, gan nad ydi hi'n ddiogel iddynt ddychwelyd.
- Bod y ddeddfwriaeth yn sôn am anfon pobl na all fynd yn ôl i'w mamwlad i Rwanda, ond nid yw'r drefn wedi cychwyn eto, a beth am gapasiti Rwanda i dderbyn y ceiswyr lloches?
- Os na all ceiswyr lloches ddychwelyd adref, na mynd i Rwanda, byddent yn cael eu cadw mewn canolfannau cadw yn y Deyrnas Gyfunol (sydd eisoes yn orlawn), heb statws, heb obaith o gael prosesu eu cais am loches, heb le saff i'w alw'n gartref, heb le digonol i fyw na chysgu, heb ofal iechyd digonol, a hynny am gyfnod amhenodol.
- Bod gennym ni yng Nghymru uchelgais o fod yn genedl noddfa, ac mae gennym ninnau yng Ngwynedd draddodiad hir o roi croeso cynnes i geiswyr lloches.
- Gwyddom am bobl sydd wedi ffoi trais, artaith, ac yn wir, wedi ffoi o enau marwolaeth, ac yn cyrraedd glannau ynysoedd Prydain i chwilio am aelodau o'u teuluoedd, am waith, am lety, ac am fywyd newydd.  Rydym yn falch yng Ngwynedd ein bod wedi, ac yn parhau, i gefnogi ein cyd-ddyn o wledydd fel Syria, Affganistan, Wcrain ac ati, ac mae gennym fudiadau gwirfoddol yng Ngwynedd sy'n cefnogi pobl, megis Croeso Menai, Pobl I Bobl, Cefn, ac yn y blaen.
- Serch ein huchelgais glodwiw yng Nghymru, sy'n rhoi gwerth ar fywyd pob unigolyn, mae'r Ddeddf Mudo Anghyfreithlon, sy'n cael ei drafod yn San Steffan ar hyn o bryd, yn annynol, yn greulon ac yn achosi trawma pellach i bobl sydd eisoes wedi profi trawma erchyll.  Mae'r ddeddfwriaeth newydd yma yn groes i'n dyheadau ni fel pobl Gwynedd, ac fel pobl Cymru.
- Ei bod yn galw ar ei chyd-gynghorwyr i gefnogi'r cynnig a dangos eu gwrthwynebiad i'r ddeddfwriaeth annynol greulon yma.

Mynegodd nifer o aelodau eraill gefnogaeth i'r cynnig.

Nododd aelod bod y pwnc yn amlygu'r ffaith ei bod yn berffaith dderbyniol gan Lywodraeth y DG a'r cyfryngau i bobl bardduo mudo gan y rhai mwyaf difreintiedig, ond does wiw i bobl gondemnio mudo gan rai breintiedig yn economaidd, sy'n cael effaith ar ardaloedd megis Gwynedd.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r cynnig, sef:-**

**Mae gan Gymru uchelgais glodwiw i fod yn Genedl Noddfa Cymru gyntaf y Byd.  Mae Gwynedd wedi gweithredu'n unol â'r uchelgais hon drwy gynnig lloches i ffoaduriaid ar draws y byd.  Serch uchelgais Cymru, mae Llywodraeth San Steffan yn cyflwyno Deddf Mudo Anghyfreithlon sydd yn peryglu hawliau ffoaduriaid a cheiswyr lloches ac yn troi'r weithred o gyrraedd ynysoedd Prydain i geisio lloches yn drosedd.  Mae hyn yn gwrthdaro yn erbyn egwyddorion Confensiwn Ffoaduriaid 1951, a'n huchelgais ni yng Nghymru.  Wrth ystyried yr ofn y gall negeseuon anghroesawgar Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol achosi, mae'r Cyngor yma yn cadarnhau ei uchelgais o fod yn cynorthwyo ffoaduriaid, er mwyn lliniaru ychydig o'r ofn yma.**

## 16. YMATEBION I RYBUDDION O GYNNIG BLAENOROL

Cyflwynwyd er gwybodaeth – llythyr gan Lywodraeth Cymru mewn ymateb i rybudd o gynnig y Cynghorydd Huw Rowlands i gyfarfod 1 Rhagfyr, 2022 ynglŷn â gwella gwasanaethau trenau yng Ngwynedd.

Mynegodd y Cadeirydd ei siomedigaeth a'i anfodlonrwydd ynglŷn â diffyg ymateb gan Drafnidiaeth Cymru i'r rhybudd o gynnig, a gofynnodd i'r swyddogion ddilyn y mater i fyny.

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00yp a daeth i ben am 4.20yp.

**CADEIRYDD**

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod** | **Y Cyngor Llawn** |
| **Dyddiad** | **6 Gorffennaf 2023** |
| **Pwnc** | **Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau 2022/23** |
| **Awdur** | **Mr Hywel Eifion Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau** |
| **Swyddog Perthnasol** | **Iwan Evans, Swyddog Monitro** |

**Cefndir**

**1.** Mae'r Pwyllgor Safonau yn bwyllgor statudol, sydd wedi ei sefydlu i hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan gynghorwyr ac aelodau cyfetholedig Cyngor Gwynedd, a chynghorau cymuned a thref Gwynedd.

**2.** Ers sawl blwyddyn bellach mae'r Pwyllgor wedi bod yn cyhoeddi adroddiad blynyddol i egluro'r hyn y mae'n ei wneud ac i hyrwyddo ei waith, ac yn ei gyflwyno'n ffurfiol i gyfarfod o'r Cyngor Llawn. Erbyn hyn mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 wedi cyflwyno dyletswydd statudol ar y pwyllgor i gyhoeddi adroddiad blynyddol ac ar yr awdurdod i'w ystyried.

**3.** Mae'r Pwyllgor felly yn cyflwyno'r adroddiad hwn i sylw'r Cyngor. Bydd yr adroddiad hefyd yn cael ei gylchredeg i gynghorau cymuned a thref Gwynedd.

**Argymhelliad**

**4.** Derbyn yr adroddiad

**Sylwadau Swyddogion Statudol**

**Swyddog Monitro**

Swyddog Cyfrifol

**Prif Swyddog Cyllid**

Dim i'w ychwanegu i'r adroddiad o safbwynt priodoldeb ariannol.

# ADRODDIAD BLYNYDDOL PWYLLGOR SAFONAU CYNGOR GWYNEDD

# 2022 - 2023

# RHAGAIR GAN Y CADEIRYDD

Roedd hi'n fraint mawr i mi gael fy ethol yn Gadeirydd ar y Pwyllgor Safonau ym mis Chwefror eleni. Hoffwn yn gyntaf gymryd y cyfle i ddiolch yn ddiffuant i fy rhagflaenydd yn y Gadair sef Dr Einir Young a roddodd wasanaeth ac arweiniad i'r Pwyllgor dros gyfnod o 10 mlynedd fel aelod. Hoffwn hefyd ddiolch i Margaret Jones am ei gwasanaeth yn ystod y 10 mlynedd diwethaf. Tra'n ffarwelio a nhw, roedd hi hefyd yn bleser croesawi aelod newydd i'r Pwyllgor sef Mark Jones.

Mae safonau mewn bywyd cyhoeddus yn bwnc sy'n cael cryn sylw ar hyn o bryd gan bwysleisio pwysigrwydd ymddygiad unigolion ar gyfer cynnal hyder y cyhoedd yn y modd y gwneir penderfyniadau ar eu rhan gan eu cynrychiolwyr etholedig. Rwyf yn hyderus y gall y pwyllgor hwn barhau i roi cymorth ac arweiniad i aelodau Cyngor Gwynedd ac aelodau'r cynghorau cymuned, tref a dinas o fewn y sir.

**Hywel Eifion Jones**
**Cadeirydd y Pwyllgor Safonau**

# RHAGAIR GAN Y SWYDDOG MONITRO

Mewn blwyddyn etholiad lleol, y ffocws oedd hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth o'r Cod Ymddygiad a'r safonau ymddygiad disgwyliedig.  Mae'n arwydd cadarnhaol bod pob aelod wedi gallu manteisio ar y trefniadau anwytho i'r Cod Ymddygiad  a bod llawer wedi mynychu'r cwrs mwy manwl dilynol.  Y gobaith yw y bydd y flwyddyn i ddod yn caniatáu adnoddau a chapasiti i gynnal digwyddiadau eraill o'r fath.

Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 wedi creu dyletswyddau newydd i Arweinwyr Grwpiau Gwleidyddol gymryd elfen o gyfrifoldeb dros hyrwyddo ymddygiad da a chydweithredu â'r Pwyllgor Safonau. Mae'n gyfle cadarnhaol i gryfhau rhyngberthynas bwysig sy'n canolbwyntio ar hyrwyddo a chefnogi ymddygiad da. Rhaid cyfaddef bod hon yn flwyddyn gychwynnol o fodolaeth y ddyletswydd sydd ei hangen arnom i ddatblygu'r agwedd newydd hon ar y fframwaith moesegol. Mae'r Pwyllgor Safonau wedi cytuno ar brotocol i fwrw ymlaen ag Arweinwyr y Grŵp ac rwy'n hyderus y bydd perthynas waith gadarnhaol yn datblygu,

Yn y pen draw, consensws ynghylch y math o Gyngor yr ydym yn ei weld a'i weithio ynddo sy'n cynrychioli'r sylfaen orau. Er bod yr adroddiad yn cynnwys achosion lle canfuwyd bod y Cod wedi'i dorri mae'n rhaid gosod hyn yng nghyd-destun nifer yr aelodau etholedig boed yn sir neu'n gymuned yng Ngwynedd.  Mae hyn yn cefnogi canolbwyntio ein gwaith ar ymyriadau sy'n datblygu ac yn cynnal y safonau a ddisgwylir.

**Iwan Evans**
**Swyddog Monitro**
**Cyngor Gwynedd**

# CYFLWYNIAD

Sefydlwyd y Pwyllgor yn 2001 o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000. Prif swyddogaeth y Pwyllgor yw hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan gynghorwyr ac aelodau cyfetholedig Cyngor Gwynedd, a chynghorau cymuned a thref Gwynedd. Gwna hyn mewn sawl ffordd:

- Cynorthwyo'r cynghorwyr a'r aelodau cyfetholedig i ddilyn y Cod Ymddygiad Aelodau.
- Cynghori'r awdurdod ar fabwysiadau neu ddiwygio'r Cod Ymddygiad Aelodau
- Monitro gweithrediad y Cod Ymddygiad Aelodau
- Cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi cynghorwyr ac aelodau cyfetholedig ar faterion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad.
- Penderfynu ar gwynion a gyfeirir ato gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru fod aelodau wedi torri'r Cod Ymddygiad.
- Ystyried ceisiadau a wneir gan aelodau am oddefebau i'w galluogi i gymryd rhan mewn trafodaethau, er bod ganddynt fuddiant sy'n rhagfarnu o dan y Cod.
- Ystyried materion a gyfeirir ato dan drefn ddatrys cwynion lleol Cyngor Gwynedd
- Goruchwylio Polisi Rhoddion a Lletygarwch Aelodau Cyngor Gwynedd .

**Adroddiad Blynyddol**

Diwygiwyd Deddf Llywodraeth Leol 2000 gan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 gan ei gwneud yn ddyletswydd statudol bellach i bwyllgorau safonau adrodd i'w awdurdod, cyn gynted ag sy'n ymarferol bosib ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol, mewn perthynas a'r flwyddyn honno (h.y. y cyfnod o 12 mis yn gorffen ar 31 Mawrth).

Rhaid i'r adroddiad ddisgrifio sut y mae swyddogaethau'r pwyllgor wedi eu gweithredu yn ystod y flwyddyn, gan yn benodol gynnwys crynodeb o :

- Yr hyn sydd wedi'i wneud i gyflawni'r swyddogaethau cyffredinol a phenodol a roddwyd i'r pwyllgor gan Ddeddf 2000
- Adroddiadau ac argymhellion a wneir neu a gyfeirir at y pwyllgor gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

- Camau a gymerwyd gan y pwyllgor ar ôl iddo ystyried adroddiadau ac argymhellion o'r fath;

- hysbysiadau a roddir i’r pwyllgor gan Banel Dyfarnu Cymru

Rhaid i adroddiad gan bwyllgor safonau cyngor sir hefyd gynnwys:

- Asesiad y pwyllgor o'r graddau y mae arweinwyr grwpiau gwleidyddol ar y cyngor wedi cydymffurfio â'u dyletswyddau newydd statudol mewn perthynas â safonau ymddygiad.

Gall yr adroddiad gynnwys:

- Argymhellion i’r awdurdod ynghylch unrhyw fater y mae gan y pwyllgor swyddogaethau mewn cysylltiad ag ef.

Rhaid i’r awdurdod ystyried pob adroddiad blynyddol a wneir gan ei bwyllgor safonau cyn diwedd 3 mis sy’n dechrau ar y diwrnod y mae’r awdurdod yn derbyn yr adroddiad.

# AELODAU'R PWYLLGOR

Er bod y Pwyllgor Safonau yn un o bwyllgorau Cyngor Gwynedd, mae'n cynnwys mwyafrif o aelodau sydd heb unrhyw gysylltiad â'r Cyngor neu lywodraeth leol ('Aelodau Annibynnol'). Mae hefyd yn cynnwys aelod sy'n cynrychioli buddiannau'r cynghorau cymuned ('Aelod Pwyllgor Cymunedol'), yn ogystal â thri aelod etholedig o Gyngor Gwynedd. Rhaid i Gadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor ddod o blith yr Aelodau Annibynnol.

## Aelodau Annibynnol

**Margaret E Jones (aelod 2012 - 2022)**

Er yn enedigol o Landrillo yn Rhos mae Margaret wedi treulio'r rhan fwyaf o'i hoes yn Chwilog. Bu'n dysgu yn Ysgol Abersoch am 32 o flynyddoedd, yn cynnwys 14 fel prifathrawes. Mae'n ddiacon yn Eglwys yr Annibynwyr Siloh, Chwilog, a bu'n Gadeirydd Cyngor Undeb yr Annibynwyr Cymraeg am 3 blynedd ac mae hi hefyd yn gyn Llywydd yr Undeb. Bu'n aelod o Gyngor Iechyd Cymuned Gogledd Gwynedd ac yn Is-gadeirydd hyd at yr ad-drefnu yn 2010. Mae hi'n aelod gweithgar o Bwyllgor Eisteddfod Chwilog ac yng ngofal y Seremoni Cadeirio.

**Dr Einir Young (aelod 2012 -2022)**

Wedi ei geni yn y Rhondda a'i magu yn Llanelli a Chwmtwrch mae Einir wedi ymgartrefu yng Ngwynedd ers dros ddeg mlynedd ar hugain. Bu'n byw am gyfnod yng Nghaliffornia ac mae wedi teithio led led y byd yn enwedig i Affrica yn gweithio gyda chymunedau ymylol. Cymru fu canolbwynt ei gwaith am bymtheg mlynedd olaf ei gyrfa ond noda mai'r un yw'r heriau sy'n wynebu cymunedau - yr angen am weledigaeth hir dymor, sicrhau fod penderfyniadau'n cael eu gwneud er gwella neu'n atal pethau rhag mynd yn waeth, integreiddio ar draws cymunedau, cyd weithio ac efallai'n bwysicaf oll cynnwys pawb. Dyma'r union egwyddorion sydd i'w gweld yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac mae hi'n frwd dros hyrwyddo'r ffyrdd o weithio sy'n cael eu hannog gan y ddeddf yn y Cyngor a thu hwnt. Mae cynnal safonau yn elfen cyn bwysiced i gynaliadwyedd ag yw ail gylchu ac arbed ynni, ac mae hi'n falch o'r cyfle o gael bod yn rhan o Bwyllgor Safonau Cyngor Gwynedd ac i'w gadeirio. Fe ymddeolodd Einir o'i swydd fel Cyfarwyddwr Cynaliadwyedd Prifysgol Bangor ddiwedd Rhagfyr 2020 ond mae'n parhau i weithio yn rhan amser ar broject Ecoamgueddfa Pen Llŷn. Mae hi'n un o Gyfarwyddwyr Ynni Llŷn ac Ynni Cymunedol Cymru ac yn un o is-gadeiryddion yr Academi Heddwch. Yn ei hamser hamdden mae Einir yn mwynhau cerdded gyda'i chwaer a'r ci ar hyd llwybrau hir megis Llwybr Arfordir Cymru, Llwybr y Pererinion a Llwybr Llechi Eryri.

**David Wareing (aelod ers 2015)**

Symudodd David o Swydd Gaerhirfryn i'r Groeslon yn 2014 yn dilyn ei ymddeoliad o Heddlu Glannau Mersi. Gwasanaethodd am 26 mlynedd mewn amrywiaeth o rolau, yn fwyaf diweddar yn Adran Weithredol yr Heddlu yn y Pencadlys. Yn y swydd hon roedd yn cynllunio digwyddiadau cyhoeddus mawr, diogelwch y cyhoedd yn ystod gweithrediadau gan yr Heddlu a lleihau cymorth yr heddlu i asiantaethau allanol drwy fwy o weithio mewn partneriaeth. Roedd yn arbenigo mewn asesu risg a sicrhau cydymffurfiaeth gyda deddfwriaeth iechyd a diogelwch. Cynrychiolodd David Heddlu Glannau Mersi ar bob un o'r pum Grŵp Ymgynghorol Diogelwch o fewn yr ardal honno. Mae'n credu'n gryf bod yn rhaid i weithredoedd y rhai sydd mewn swyddi cyhoeddus fod yn dryloyw ac yn atebol.

**Aled Jones (aelod ers 2016)**

Brodor o Lanbedr Pont Steffan, Ceredigion yn wreiddiol yw Aled. Astudiodd radd mewn Cymraeg a Daearyddiaeth ym Mhrifysgol Aberystwyth. Ar ôl graddio ym 1999, symudodd i Gaernarfon i weithio gyda chwmni cyfieithu Cymen a daeth yn gydberchennog ar y cwmni yn 2007. Bellach mae'n cyflogi tîm o bron 30 aelod staff a dros 20 o gyfieithwyr llawrydd eraill. Mae'n byw ym Mangor gyda Tegwen a'r plant, Cai a Beca. Yn ddiweddar, cwblhaodd gwrs Arweinyddiaeth a Rheoli Lefel 5 yr ILM ar y cyd rhwng Prifysgol Bangor ac Abertawe. Nod y rhaglen yw creu amgylchedd i alluogi arweinwyr i ddatblygu busnesau arloesol a meithrin sgiliau arwain o'r radd flaenaf. Yn rhinwedd ei swydd fel cyfieithydd ar y pryd, mae ganddo brofiad helaeth o fynychu cyfarfodydd ar bob lefel o lywodraethiant, o'r Undeb Ewropeaidd i gyngor cymuned, felly mae mewn sefyllfa dda i arsylwi ar ymddygiad a safonau gan adnabod yr arferion gorau.

**Hywel Eifion Jones (aelod ers 2019)**

Wedi'i eni a'i addysgu yn Nyffryn Clwyd, roedd Eifion yn uwch reolwr gyda Banc Barclays yn gwasanaethu 34 mlynedd mewn nifer o ganghennau ledled Gogledd a Chanolbarth Cymru. Mae wedi ymgymryd â llawer o swyddogaethau gwasanaeth cyhoeddus gan gynnwys Cynghorydd Sir gyda Chyngor Ynys Mon ac aelod o Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru. Ar hyn o bryd mae'n Ynad ar fainc Gogledd Orllewin Cymru, yn aelod o Fyrddau Pensiwn Gwynedd, Betsi Cadwaladr ac Adra. Mae hefyd yn aelod o Banel Dyfarnu Cymru sy'n penderfynu honiadau o dorri'r cod ymddygiad gan aelodau etholedig Cynghorau Sir a Chymuned.

**Mark Jones (aelod ers Rhagfyr 2022)**

Mae Mark yn byw ym Mangor ac yn gyn swyddog heddlu gyda 30 mlynedd o brofiad mewn amrywiaeth o rolau, gan gynnwys fel Pennaeth Safonau Proffesiynol Heddlu Gogledd Cymru. Gwasanaethodd fel Llywodraethwr Cymunedol ac Is-gadeirydd yn

Ysgol Glanadda am 20 mlynedd. Mae hefyd yn gyn-Gadeirydd Adra, lle mae'n parhau i wasanaethu fel aelod o'r Bwrdd.

## Aelod Pwyllgor Cymunedol

**Cynghorydd Richard Parry Hughes (aelod ers 2017)**

Magwyd Richard ar fferm yn Llanaelhaearn ac aeth i Ysgol Ramadeg Pwllheli, Coleg Amaethyddol Glynllifon ,a Choleg Seale Hayne (Prifysgol Plymouth) . Mae ganddo ôl radd mewn Rheolaeth Fferm. Bu yn gweithio i bartneriaeth filfeddygon yn Chwilog am dair blynedd ac yn ddarlithydd rhan amser yng Ngholeg Glynllifon, cyn prynu fferm Penfras Uchaf Llwyndyrys lle bu ei deulu yn denantiaid arni am dros dri chan mlynedd. Mae'n briod ac Eleri ac mae ganddynt dri mab. Yn gyn arweinydd Cyngor Gwynedd, mae yn dal i ffermio. Mae ganddo brofiad helaeth o bwyllgorau gan ddal swyddi fel cadeirydd Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru cyn ymgymryd â chael ei ethol fel aelod o gyrff cyhoeddus. Bu yn aelod o Gyngor Sir Gwynedd o 1992 hyd 1996 ac yn aelod o Gyngor Gwynedd o 1996 i 2008. Bu'n arwain Cyngor Gwynedd o 2003 i 2008 a hefyd yn lefarydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar yr Amgylchedd a Chynllunio yn ystod y cyfnod yma. Mae'n aelod brwd o Gwmni Drama Llwyndyrys a chefnogwr amryw o gymdeithasau eraill lleol megis, Antur Aelhaearn a Chyfeillion Eglwys Carnguwch. Mae'n gweithio'n wirfoddol fel gweithiwr achos i'r Farm Community Network . Mae'n aelod o Gyngor Cymuned Llannor ers 1992.

## Aelodau Cyngor Gwynedd

**Cynghorydd Beth Lawton (aelod ers 2017)**

Mae Beth yn byw ym Mryncrug ac yn berchen ffatri leol. Mae'n Gynghorydd Sir dros ardal Bro Dysynni, sydd yn cynnwys pentrefi Bryncrug, Abergynolwyn a Llanegryn. Mae hefyd yn Gynghorydd Cymuned ac yn gadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Craig y Deryn. Mae'n weithgar ar sawl pwyllgor yn y gymuned, gan cynnwys Carnifal Abergynolwyn, Ffair Wledig Bryncrug, Pwyllgor Apêl Ysbyty Tywyn a llawer mwy. Mae yn aelod o Merched y Wawr ac yn arwain yn Eisteddfod Abergynolwyn. Mae yn aelod o Bwyllgor Craffu Gofal a Tai a Phwyllgor Craffu Addysg ac Economi Cyngor Gwynedd ac wedi bod yn Gadeirydd ar y ddau bwyllgor ers bod yn aelod. Mae hefyd yn gyfarwyddwr a Chadeirydd Cwmni Hamdden Byw'n Iach.

**Cynghorydd Anne Lloyd-Jones (aelod ers 2017)**

Mae Anne yn byw ac yn rhedeg busnes twristiaeth fferm yn Nhywyn, ac mae wedi cynrychioli Tywyn ar Gyngor Gwynedd ers 1995 a chyn hynny roedd yn aelod o Gyngor Dosbarth Meirionnydd am wyth mlynedd. Etholwyd hi'n gyntaf fel aelod o Gyngor Tref Tywyn yn 1985 a hi oedd Faeres gyntaf yn 1991, ac eto yn 2004, ac

roedd yn Gadeirydd Cyngor Gwynedd yn 2009. Mae hi'n gyn-gadeirydd Pwyllgor Cynllunio Cyngor Gwynedd ac yn un o aelodau gwreiddiol Bwrdd Rheoli Cartrefi Cymunedol Gwynedd. Roedd hi'n aelod o Gyngor Iechyd Cymuned Meirionnydd, ac yn Gadeirydd presennol Cronfa Apêl Ysbyty Tywyn a'r Cylch.

Mae hi'n aelod ac yn gyn-gadeirydd Ysgol Penybryn ac yn aelod ar gorff Llywodraethol Ysgol Uwchradd Tywyn.

Roedd Anne yn Gadeirydd Twristiaeth Canolbarth Cymru rhwng 2001-2016, yn aelod sefydliadol ac yn gyn-lywydd a Thrysorydd Clwb Inner Wheel Tywyn a bu'n Drysorydd cangen leol yr NSPCC ers 1989.

Mae Anne yn briod â John ac mae ganddyn nhw dair merch a dwy wyres sy'n efeilliaid.

**Cynghorydd Dewi Owen (aelod ers 2022)**

Mae Dewi yn ffermio yn Aberdyfi, ac wedi bod yn Gynghorydd Sir dros Aberdyfi a Phennal ers pymtheg mlynedd, ac ar Gyngor Cymuned Aberdyfi ers pum mlynedd ar hugain. Cafodd ei ethol yn Gadeirydd Cyngor Gwynedd yn 2014. Mae Dewi wedi bod yn Gadeirydd ar sawl pwyllgor craffu, ac ar hyn o bryd yn Gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth ar Gyngor Gwynedd, ac wedi ymuno gyda'r Pwyllgor Safonau ers 2022.

Mae Dewi yn Gadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Uwchradd Tywyn, ac yn aelod o sawl pwyllgor lleol, fel Sioe Sir Meirion, Undeb Amaethwyr Cymru ac 'Aberdyfi Advertising & Improvements Committee.

## Y Swyddog Monitro

Mae Swyddog Monitro'r Cyngor, Iwan Evans, ynghyd a swyddogion o'r Gwasanaeth Cyfreithiol a'r Gwasanaeth Democrataidd yn cefnogi'r Pwyllgor Safonau yn ei waith. Mae gan y Swyddog Monitro rôl statudol i sicrhau bod y Cyngor, ei aelodau a'i swyddogion yn gweithredu yn briodol ac yn gyfreithlon.

**Manylion Cyswllt**

- Iwan Evans, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro. E-bost: IwanGDEvans@gwynedd.llyw.cymru Ffôn (01286) 679015
- Siôn Huws, Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau a Dirprwy Swyddog Monitro. E-bost: sionhuws@gwynedd.llyw.cymru Ffôn: (01286) 679168

# GWAITH Y PWYLLGOR YN YSTOD 2022 - 2023

Mae gwaith y Pwyllgor wedi cynnwys y canlynol dros y flwyddyn (ceir rhaglen waith lawn y Pwyllgor yn yr **Atodiad 1**):

## Achosion fu gerbron y Pwyllgor

Cyfeiriwyd un gŵyn o dorri'r Cod Ymddygiad at y Pwyllgor am benderfyniad yn ystod y flwyddyn ond ni ystyriwyd y gŵyn tan Ebrill 2023.

## Cwynion eraill

Hysbysir y Pwyllgor hefyd o benderfyniadau'r Ombwdsmon ar y cwynion hynny na chyfeirir at y Pwyllgor am benderfyniad, a cheir crynodebau ohonynt yn **Atodiad 2.**

## Goddefebau

Mae'r Cod Ymddygiad i Aelodau yn darparu na all cynghorydd gymryd rhan mewn trafodaeth os oes ganddo/i 'fuddiant sy'n rhagfarnu'. Serch hynny mae gan aelod yr hawl i wneud cais i'r Pwyllgor am ganiatâd i gymryd rhan er bod ganddo/i'r buddiant yma, h.y. goddefiad.

- Ni chyflwynwyd un cais am oddefeb i'r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn.

## Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru

Mae Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru yn rhoi'r cyfle i gynrychiolwyr o holl bwyllgorau safonau awdurdodau'r gogledd gyfarfod. Pwrpas y fforwm yw galluogi pwyllgorau safonau'r ardal i drafod a rhannu syniadau, arferion da ac adnoddau, a hefyd gyflwyno barn ar y cyd ar y lefel genedlaethol. Mynychir cyfarfodydd y Fforwm gan Gadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor. Erbyn hyn mae Pwyllgorau Safonau Ceredigion a Phowys wedi ymuno â'r Fforwm.

## Fforwm Pwyllgorau Safonau Cenedlaethol Cymru

Comisiynwyd Richard Penn gan Lywodraeth Cymru i edrych ar y Cod Ymddygiad, sut mae'n cael ei orfodi, sut y cyflawnir hyfforddiant a phob dull arall i sicrhau safonau uchel o ymddygiad moesegol. Cyflwynodd ei adroddiad yn Nhachwedd 2021, lle roedd yn gwneud sylwadau cadarnhaol ar waith y fforwm ar gyfer Cadeiryddion Pwyllgorau Safonau yng Ngogledd a Chanolbarth Cymru.

Er ei fod yn cydnabod y lle ar gyfer gwneud penderfyniadau lleol, argymhellodd sefydlu Fforwm Cenedlaethol ar hyd yr un llinellau. Bydd y fforwm yn

a) rhoi cyfle i gadeiriau rannu a chytuno i gydlynu ymarfer;
b) gweithredu fel bwrdd bachog am syniadau;
c) creu rhwydwaith cymorth ar gyfer cadeiryddion a Phwyllgorau.

Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf o'r Fforwm Genedlaethol ar 27 Ionawr 2023 drwy Zoom. Roedd Cadeiryddion neu Is-gadeiryddion holl Bwyllgorau Safonau Cymru yn bresennol gyda nifer o Swyddogion Monitro, Llywodraeth Cymru (LlC) a swyddogion Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC).

## Cefnogaeth i Aelodau Cynghorau Cymuned , Tref a Dinas

Cynhaliodd y pwyllgor broses o ymgynghori, drwy'r Cadeirydd a'r Aelod Pwyllgor Cymunedol, gyda detholiad o glercod cynghorau tref a chymuned. Y bwriad oedd cael dealltwriaeth o'r materion penodol hynny oedd yn medru creu problemau o safbwynt ymddygiad aelodau i alluogi'r Pwyllgor i wneud y defnydd gorau o'r adnoddau hynny sydd ar gael yn yr awdurdod.

Penderfynwyd ar Gynllun Gweithredu, sy'n cynnwys y 3 elfen o gefnogaeth y gellir ei gynnig i aelodau a chlercod cynghorau cymuned ar faterion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad:

1. **Cyngor ar faterion penodol** - Parhau i gysylltu gyda'r Swyddog Monitro neu'r Dirprwy Swyddog Monitro.

2. **Gwefan Cyngor Gwynedd** - Tudalen Pwyllgor Safonau i gynnwys mwy o wybodaeth a chanllawiau yn ogystal â dolenni i wefannau eraill defnyddiol.

3.**Hyfforddiant** - Cynnal sesiwn hyfforddiant rhithiol ar ffurf 'webinar'. Byddai hyn yn creu adnodd y gallai aelodau ei wylio pan yn gyfleus iddynt yn hytrach na gorfod dibynnu ar sesiynau mewn mannau ac ar amseroedd penodol.

## Dyletswydd Arweinyddion y Grwpiau Gwleidyddol

Darparwyd cyflwyniad ar y dyletswydd newydd gan y Swyddog Monitro ynghŷd â sesiwn drafod ar y cyd gyda bob un o'r Arweinyddion y Grwpiau Gwleidyddol, a Chadeirydd ac Is Gadeirydd y Pwyllgor Safonau ar y 18 fed o Hydref 2022. Roedd y cyflwyniad yn cynnwys esboniad o'r dyletswyddau newydd a thrafodaeth ar sut y gellir gweithredu'r dyletswydd newydd a chyd weithio gyda'r Pwyllgor Safonau a'r Swyddog Monitro. Cafwyd cytundeb ar Brotocol Drafft ar gyfer gweithredu'r dyletswydd i'r dyfodol . Yn ei gyfarfod ar 21 Tachwedd cymeradwywyd y Protocol i gefnogi'r dyletswydd gan y Pwyllgor Safonau.

Mae'r arweinyddion Grwpiau yn ymwybodol o'r dyletswydd sydd yn gosod gofyn arnynt ac wedi adrodd ar y camau cychwynnol sydd wedi eu cymryd i ymdrin â'r

ddyletswydd. Cynhaliwyd cyfarfod rhwng y Swyddog Monitro a’r Arweinyddion i drafod y dyletswydd ac mae adroddiad gan yr arweinyddion yn adlewyrchu'r camau cychwynnol yma. Roed y lefel presenoldeb mewn digwyddiadau anwytho Cod Ymddygiad hefyd yn adlewyrchu'r ymrwymiad yma,

Mae'r Pwyllgor Safonau yn gallu cadarnhau bod Arweinwyr Grwpiau yn ystod 2022-2023 wedi bod yn cyflawni eu dyletswydd.

Bydd gwaith pellach yn cael ei wneud drwy gydol 2023-2024 i fireinio ymhellach sut mae Arweinwyr Grwpiau yn gallu cyflawni eu dyletswyddau a sut y gall y Pwyllgor Safonau gynorthwyo ymhellach Arweinwyr

**Atodiad 1**

## RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR SAFONAU 2022-2023

**11 GORFFENNAF 2022**

- Ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd
- Cymeradwyo'r adroddiad blynyddol i'w gyflwyno i'r Cyngor llawn
- Hunan asesiad y pwyllgor o'i berfformiad yn 2021/22.
- Cymeradwyo ei Raglen Waith ar Gyfer 2022/23
- Derbyn adroddiad rheolaidd ar honiadau yn erbyn aelodau

**21 TACHWEDD 2022**

- Fforwm Cenedlaethol Pwyllgorau Safonau:
    - Cytuno ar y Cylch Gorchwyl drafft, gan gynnwys cynrychiolaeth.
    - Cymeradwyo'r trefniadau arfaethedig i gefnogi'r Fforwm Cenedlaethol.
- Cymeradwyo Protocol Dyletswyddau Arweinyddion Grwpiau Gwleidyddol a'r Pwyllgor Safonau i'w arwyddo gan Gadeirydd y Pwyllgor a'r Arweinyddion Grwpiau Gwleidyddol.
- Ymgynghoriad y Pwyllgor gyda detholiad o glercod cynghorau tref a chymuned ynglŷn â'r fframwaith safonau:
    - Derbyn yr adroddiad a gofyn i'r Swyddog Monitro a'r Aelod Pwyllgor Cymunedol baratoi cynllun gweithredu sy'n adlewyrchu'r hyn sydd yn yr adroddiad
- Derbyn adroddiad rheolaidd ar honiadau yn erbyn aelodau

**13 CHWEFROR 2023**

- Ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd
- Cymeradwyo Cynllun Gweithredu ar y gefnogaeth y gellir ei gynnig i aelodau a chlercod cynghorau cymuned ar faterion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad
- Derbyn adroddiad ar y Gofrestr Rhoddion a Lletygarwch
- Derbyn adroddiad ar  Fforwm Cenedlaethol Pwyllgorau Safonau
- Ystyried Adroddiad Blynyddol Panel Dyfarnu Cymru 2021/22
- Ystyried Adroddiad Blynyddol yr Ombwdsmon 2021/22
- Derbyn adroddiad rheolaidd ar honiadau yn erbyn aelodau
- Ystyried adroddiad yr Ombwdsmon ar ymchwiliad i gŵyn yn erbyn cynghorydd, a dod i benderfyniad os oedd angen bwrw ymlaen i gynnal gwrandawiad llawn.

**Hysbyswyd y Pwyllgor o'r penderfyniadau canlynol gan yr Ombwdsmon ar honiadau o dorri'r cod ymddygiad yn erbyn cynghorwyr sirol a chynghorwyr cymuned a thref Gwynedd:**

| Honiad o dorri'r Cod Ymddygiad | Penderfyniad yr Ombwdsmon |
|---|---|
| **Cwyn Rhif 202005528**<br><br>Bod cynghorydd tref wedi torri'r Cod:<br><br>• wrth wneud honiadau ffug o wariant anawdurdodedig a chamddefnyddio arian gan y cyn Glerc<br><br>• drwy danseilio a dilorni'r Cyn-Glerc mewn cyfarfodydd, cyhuddo aelodau eraill o ddweud celwydd a chydgynllwynio gyda'r Cyn Glerc mewn gweithgaredd anghyfreithlon, ac wedi targedu unrhyw aelod oedd yn cefnogi'r Cyn Glerc mewn ymgais i'w dychryn ac i ddwyn anfri ar y Cyn Glerc. | Dirwyn yr ymchwiliad i ben<br><br>Dechreuwyd ymchwiliad oherwydd bod y gŵyn yn bodloni dau gam y prawf 2 gam ar sail y wybodaeth a ddarparwyd yn y gŵyn.<br><br>Gan nad oedd yr Achwynydd wedi dychwelyd ei ddatganiad tyst, ac nad oedd y cynghorydd bellach yn aelod nid oedd yr Ombwdsmon o'r farn y byddai er budd y cyhoedd i adnoddau gael eu defnyddio i barhau a chwblhau'r ymchwiliad. |

Tud. 38

| | |
|---|---|
| **Cwyn Rhif 202004473**<br><br>Cwyn bod aelod wedi rhannu  deunydd ar ei gyfrif Facebook a oedd yn taflu amheuaeth ar fodolaeth COVID-19 ac am y brechlyn, a phan ymddangosodd ar sioe deledu i drafod ei farn am COVID-19 a'r brechlyn. | Canfu'r Ombwdsmon fod gan yr Aelod hawl i ryddid mynegiant ac i ddal a mynegi ei farn o dan Erthygl 10 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.<br><br>Roedd tystiolaeth yn awgrymu nad oedd yr Aelod yn cynrychioli 'safbwynt y Cyngor'. Ni roddodd yr Aelod gyfarwyddiadau i aelodau'r cyhoedd yn groes i'r mesurau iechyd cyhoeddus a oedd ar waith ar y pryd. Felly, nid oedd yr Ombwdsmon o'r farn bod yr Aelod wedi methu â chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad. |
| **Cwyn Rhif   202200859**<br><br>Cwyn bod cynghorydd tref wedi torri’r Cod fel a ganlyn:<br><br>1. Y gallai’r aelod fod wedi cyflawni twyll etholiadol gan ei bod wedi brolio am gofrestru ei mab ar y gofrestr etholiadol pan oedd hefyd wedi'i gofrestru mewn ardal arall.<br><br>2. Bod yr aelod yn anurddasol wrth eistedd ar risiau'r orsaf bleidleisio yn rhwystro pobl rhag mynd i mewn heb orfod ceisio mynd heibio iddi.<br><br>3. Bod yr aelod wedi defnyddio ei thudalen Facebook i gynnal ymgyrch casineb yn ei erbyn. | Dim ymchwiliad:<br><br>1. Nid oedd yr achwynydd wedi darparu digon o dystiolaeth i gadarnhau ei gŵyn. Mae pryderon am dwyll etholiadol yn fater i'r Heddlu.<br><br>2. Nid oedd y toriad honedig o'r Cod yn ddigon difrifol i warantu ymchwiliad er budd y cyhoedd.<br><br>3.Nid oedd yr achwynydd wedi darparu tystiolaeth o'r sylwadau Facebook y cyfeiriodd atynt ac felly nid oedd wedi darparu digon o dystiolaeth i gadarnhau ei gŵyn. |

| | |
|---|---|
| **Cwyn Rhif 202205952**<br>Honnwyd bod aelod cyngor tref wedi ymgymryd ag ymgyrch gasineb parhaus ar gyfryngau cymdeithasol yn erbyn yr achwynydd ers 2017. | Dywedodd yr achwynydd bod brawd yr Aelod wedi ei fygwth oherwydd ei fod wedi ysgrifennu at y Cyngor, ac mae hyn wedi ei gyfarch gan yr Heddlu. Roedd yr achwynydd yn dweud bod eraill wedi bod yn dyst i'r ymddygiad, ond nid yw wedi nodi beth oedd wedi ei dystio, nac wedi darparu datganiadau. Felly, ni allaf ystyried, hyd yn oed pe bai wedi'i brofi, a fyddai'r ymddygiad gyfystyr â thorri Cod Ymddygiad. Mae hefyd yn werth nodi bod y tystion honedig yn gysylltiedig â'r cyngor ac yn ymwybodol o broses y Cod Ymddygiad. Mae'n agored i iddynt wneud cwyn os ydynt yn ystyried ei bod yn briodol gwneud hynny. |



| **Aelod y gwnaed y gŵyn yn ei (h)erbyn** | |
|---|---|
| Aelod o gyngor cymuned | 3 |
| Aelod o Gyngor Gwynedd | 1 |
| Aelod o Gyngor Gwynedd a chyngor cymuned | |
| **Natur yr achwynydd** | |
| Cynghorydd | 1 |
| Aelod o'r cyhoedd | 2 |
| Swyddog | 1 |
| **Natur yr honiad** | |
| Ymddygiad cyffredinol | 4 |
| Datgan Buddiant | |
| Ymddygiad cyffredinol a Datgan Buddiant | |

| **Canlyniad** | |
|---|---|
| Dim ymchwiliad | 2 |
| Ymchwiliad – dim tystiolaeth o dorri’r Cod Ymddygiad | 1 |
| Ymchwiliad –dim camau pellach | |
| Ymchwiliad – cyfeiriad at y Pwyllgor Safonau | 1 |
| Ymchwiliad – cyfeiriad at Banel Dyfarnu Cymru | |

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Y Cyngor** |
| **DYDDIAD** | **6 Gorffennaf 2023** |
| **TEITL** | **Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol 2022/23** |
| **PWRPAS** | **Cyflwyno'r adroddiad er sylw Aelodau'r Cyngor** |
| **AWDUR** | **Dylan Owen, Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol** |

## 1. Cefndir

1.1. Ar ddiwedd bob blwyddyn ariannol, mae'n ofynnol i bob Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol baratoi a chyhoeddi adroddiad mewn perthynas â pherfformiad y Gwasanaethau Cymdeithasol o fewn yr awdurdod lleol yn ystod y flwyddyn flaenorol.

1.2. Diben yr adroddiad blynyddol yw nodi taith yr awdurdod lleol tuag at wella wrth ddarparu gwasanaethau i bobl yn eu hardaloedd, y rheiny sy'n derbyn gwybodaeth, cyngor a chymorth, a'r unigolion a'r gofalwyr hynny sy'n derbyn gofal a chymorth. O dan ofynion newydd y Ddeddf Gwasanaeth Cymdeithasol a Llesiant mae angen i'r adroddiad ddangos sut mae awdurdodau lleol wedi hyrwyddo lles a rhoi cyfrif am gyflwyno safonau lles.

1.3. Gofynnir i mi fel Cyfarwyddwr ystyried yr ystod wybodaeth a phrofiadau sy'n effeithio ar allu Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor i ddarparu gwasanaethau dibynadwy, cynaliadwy, o'r safon uchaf, gan fynegi fy marn yn yr adroddiad a'i gyflwyno i'r Cyngor. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at unrhyw wersi a ddysgwyd, ac yn amlinellu'r blaenoriaethau am y flwyddyn i ddod. Mae hefyd yn egluro sut y gwnaethom asesu anghenion pobl, a'u cynnwys yn ganolog wrth siapio ein gwasanaethau a'n darpariaeth gofal. Dilynodd ffurf yr adroddiad ganllawiau cenedlaethol dros y blynyddoedd diwethaf, ond fe welwch ein bod wedi mynd ati i geisio ei wneud yn fwy hylaw a haws i'w ddarllen a'i ddeall eleni.

1.4. Mae'n bleser gallu adrodd fod perfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd yn dda, ar y cyfan, ac hynny yn adlewyrchiad o ymroddiad a gwytnwch ein gweithlu. Ni fu'r blwyddyn a fu yn un hawdd, a pery effeithiau'r pandemig, yr heriau costau byw ac effaith yr amseroedd aros am driniaethau iechyd yn ein cymunedau. Mae'n amlwg o'r perfformiad a adroddir yma bod rheolwyr a staff wedi gwneud ymdrech arwrol i allu dygymod gyda'r gofynion sydd wedi bod arnynt yn ystod y flwyddyn.

1.5. Fel yr amlygir yn yr adroddiad, rydym wedi profi heriau sylweddol yn ogystal, ac yn sicr mae gennym faterion allweddol sydd angen sylw gennym ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol. Mae ein gweithwyr a darparwyr gofal wedi wynebu heriau anferthol drwy gydol y cyfnod dan sylw, yn cynnwys recriwtio a chadw

staff ar y rheng flaen, cynaliadwyedd ariannol, cynnydd yn y galw am wasanaethau ynghyd â sicrhau lleoliadau addas a diogel i drigolion y sir. O ganlyniad, rydym yn gweithio'n galed, ar y cyd â'n partneriaid allweddol, i geisio sicrhau bod gwasanaethau priodol ar gael yn lleol. Mae hyn yn wir am y meysydd plant ac oedolion fel ei gilydd.

1.6. Mae perfformiad y gwasanaethau perthnasol yn cael eu herio yn unol â threfniadau perfformiad mewnol y Cyngor ac mae adroddiadau ar y perfformiad hwn yn cael eu cyflwyno gan yr aelodau Cabinet perthnasol yn rheolaidd. Bydd trosolwg o berfformiad y gwasanaethau am y flwyddyn gyfan hefyd ar gael yn Adroddiad Perfformiad Cyngor Gwynedd ar gyfer 2022/23.

**2. Argymhelliad**

2.1. Gofynnir i'r Cyngor dderbyn yr adroddiad sydd wedi ei gyflwyno gan y Cyfarwyddwyr Statudol ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol yr awdurdod.

**3. Barn y Swyddogion Statudol**

**Y Swyddog Monitro:**

Mae cyflwyno'r adroddiad i'r Cyngor Llawn yn rhoi cyfle i ystyried y gwaith a'r heriau sydd yn wynebu'r "Gwasanaethau Cymdeithasol o bersbectif y Cyfarwyddwr Statudol. Rwy'n fodlon gyda phriodoldeb yr adroddiad.

**Pennaeth Cyllid:**

Credaf fod yr adroddiad blynyddol yn adlewyrchiad teg o weithgareddau'r Gwasanaethau Cymdeithasol am 2022/23, a gallaf gadarnhau cywirdeb yr wybodaeth ariannol sy'n ymddangos yn y rhan "Cyllid" sy'n cychwyn ar dudalen 25. Rwyf yn fodlon na fydd cymeradwyo'r adroddiad blynyddol hwn yn golygu unrhyw ymrwymiad ariannol ychwanegol gan y Cyngor.



# ADRODDIAD BLYNYDDOL CYFARWYDDWR GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2022/23

CYNGOR GWYNEDD



# CYNNWYS


| | Tudalen |
|---|---|
| **Trosolwg o'r flwyddyn a fu...** | 3 |
| **Rhagair y Cyfarwyddwr** | 4 |
| **Sut mae pobl yn ein cefnogi i lunio ein gwasanaethau?** | 5 |
| **Hyrwyddo a gwella lles y rheiny yr ydym yn eu cynorthwyo** *(Safonnau Ansawdd 1-6)* | 6 |
| **Sut rydym yn gwneud ein gwaith?** | 24 |
| **Dolenni a gwybodaeth bellach** | 28 |


*Os ydych chi angen yr adroddiad yma mewn iaith neu fformat arall, ffoniwch ni ar 01766 771000 neu e-bostiwch Cydraddoldeb@gwynedd.llyw.cymru*

*If you require this report is an alternative language or format, please call us on 01766 771000 or e-mail Equality@gwynedd.gov.wales*

Якщо вам потрібен цей звіт в іншому форматі або іншою мовою, зателефонуйте нам за номером 01766 771000 або надішліть електронну пошту Equality@gwynedd.gov.wales

*Jeśli potrzebujesz tego raportu w innym języku lub formacie, zadzwoń do nas pod numer 01766 771000 lub wyślij e-mail do Equality@gwynedd.gov.wales*

如果您需要该报告用其它语言或格式，请致电 01766 771000 或发送电子邮件给我们 ：Equality@gwynedd.gov.wales

إذا أردت هذا التقرير بلغة أو تنسيق (شكل) بديل، فيرجى الاتصال بنا على ٠١٧٦٦ ٧٧١٠٠٠ أو البريد الإلكتروني Equality@gwynedd.gov.wales

**** Er mwyn diogelu preifatrwydd unigolion, rydym wedi newid enwau yn y straeon sy'n ymddangos yn yr adroddiad hwn.***

# TROSOLWG O'R FLWYDDYN A FU ...

**7,175**
O GYFEIRIADAU PLANT
+ 2,500 ers 2019/20

**5,565**
O GYFEIRIADAU IECHYD MEDDWL
+ 2,000 ers 2019/20

**84%**
O GYFEIRIADAU DIOGELU PLANT YR YMATEBWYD IDDYNT O FEWN Y CYFNOD STATUDOL

**1,473**
O OEDOLION WEDI DERBYN CYNGOR A CHYMORTH GAN Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL STATUDOL

**2,470**
O OEDOLION SYDD Â CHYNLLUN GOFAL (31/03/23)

**281** O BLANT MEWN GOFAL
65% o'r rhain yn derbyn gofal mewn lleoliad maeth

**9,478**
O ORIAU GOFAL CARTREF YN CAEL EI DDARPARU YR WYTHNOS (31/03/23)

RYDYM YN DAL I CHWILIO I DDARPARU
**1,163**
O ORIAU GOFAL CARTREF YR WYTHNOS (31/03/23)

**95%**
O GYNADLEDDAU ACHOS LLE BU CLYWED LLAIS/BARN Y PLENTYN (AC EITHRIO PLANT O DAN 5 OED)

**782**
O BOBL HŶN MEWN CARTREF PRESWYL (31/03/23)

**1,663**
YN DERBYN GWASANAETH TELEOFAL (31/03/23)

**208**
YN DERBYN TALIADAU UNIONGYRCHOL YN MIS MAWRTH 2023
13% o'r unigolion sy'n derbyn gwasanaethau gan yr Adran Oedolion, yn ei dderbyn drwy taliadau uniongyrchol

**440**
O YMWELIADAU I SESIYNAU DEMENTIA ACTIF POB MIS (CYFARTALEDD)

**121** O OFALWYR IFANC YN DERBYN CEFNOGAETH

**210**
O OFALWYR WEDI EU HASESU

**91%**
O GYFEIRIADAU DIOGELU OEDOLION YR YMATEBWYD IDDYNT O FEWN SAITH DIWRNOD

**4,558**
O GYFEIRIADAU OEDOLION

**40**
O GWYNION
**159**
O SYLWADAU CANMOLIAETH

**£87M**
CYFANSWM CYLLIDEB NET Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

**9,343**
O YMWELIADAU I DUDALEN CYMORTH COSTAU BYW

# RHAGAIR Y CYFARWYDDWR

Pleser o'r mwyaf gennyf yw cael cyhoeddi adroddiad blynyddol am y tro cyntaf. Ar ddechrau'r flwyddyn ariannol hon Morwena Edwards oedd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ac mae'n diolch yn fawr iddi am ei gwaith trylwyr cyn ymadael yn ystod haf 2022. Bu ei hymroddiad yn esiampl i ni ac i'r gwasanaeth, a bu ei harweiniad cadarn drwy'r pandemig yn ddyfal. Ymunais innau â'r Cyngor ym mis Hydref 2022 ac hoffwn ddiolch i Lois Owens am ei gwaith yn fy nghynorthwyo i lunio'r adroddiad hwn.

Yn ôl disgwyliad Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, mae'n ofynnol ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol i Gyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol gyhoeddi adroddiad ynglŷn â dyletswyddau'r gwasanaethau cymdeithasol o fewn yr awdurdod lleol dros y flwyddyn flaenorol. Felly, dyma'n cyfle i werthuso ein perfformiad a thynnu sylw at wersi sydd i'w dysgu a gwelliannau sydd eu hangen. Aiff yr adroddiad yn ei flaen i roi crynodeb o'r hyn sydd ar y gweill dros y flwyddyn sydd i ddod.

Dilynodd ffurf yr adroddiad ganllawiau cenedlaethol dros y blynyddoedd diwethaf, ond fe welwch ein bod wedi mynd ati i geisio ei wneud yn fwy hylaw a haws i'w ddarllen a'i ddeall eleni. Gwerthfawrogwn eich adborth ar hynny ac unrhyw syniadau ar sut y gellid ei wneud yn fwy hygyrch i bawb i'r dyfodol.



Ni fu'r blynyddoedd a fu yn rhai hawdd i bobl Gwynedd nac i weithlu'r gwasanaethau cymdeithasol. Bu'r pandemig yn heriol tu hwnt i'n gofalwyr, ein cartrefi preswyl, i'r gweithwyr hynny sy'n ymweld â phobl yn eu cartrefi, ac i'r holl weithwyr eraill. Pery effeithiau'r pandemig, wrth gwrs, a gwelwn yr heriau costau byw ac effaith yr amseroedd aros am driniaethau iechyd yn ein cymunedau. Teimlir effeithiau y pethau hyn gan bobl Gwynedd ac, yn sgil hynny, gan ein gweithlu, ein Cynghorwyr, a gan ein gwasanaethau.

Ni allwn ddiolch digon i'n gweithlu a gobeithiwn fod yr adroddiad hwn yn arddangos canlyniadau eu gwaith caled a diflino dros y flwyddyn a fu.

**Dylan Owen**

E-bost: dylanowen@gwynedd.llyw.cymru
Ffôn: 01286 679 387



# Sut mae pobl yn ein cefnogi i lunio ein gwasanaethau?

Ymgysylltu â chanfod "beth sy'n bwysig" i drigolion yw conglfaen ein ffordd o weithio. Ni fyddai'n bosib darparu gwasanaethau cymdeithasol sy'n addas i bwrpas heb roi unigolion wrth wraidd eu gofal, ac mae ymdrechion i gynnwys llais defnyddwyr wrth lywio ein gwaith yn parhau.

Gyda chyfyngiadau COVID-19 yn dod i ben yn ystod y flwyddyn, rydym wedi gallu cynnal mwy o weithgareddau a chysylltiadau wyneb yn wyneb – a braf yw gweld bwrlwm cyfarfodydd yn y neuaddau pentref a'r canolfannau hamdden unwaith eto. Ar y llaw arall, dysgwyd gwersi o'r pandemig ac mae llawer wedi dweud wrthym eu bod yn teimlo yn fwy cyfforddus a diogel yn ymgysylltu â ni yn rhithiol, a'i fod yn fwy cyfleus. Mae gwasanaethau fel **Llwybrau Llesiant**, lle mae unigolion gydag anableddau dysgu yn penderfynu ar weithgareddau'r tîm, rŵan yn cynnal sesiynau ar-lein ac wyneb yn wyneb.

Gan edrych i'r dyfodol byddwn yn parhau i adolygu'r ffordd rydym yn gweithio, ac yn sicrhau bod llais y defnyddiwr yn arwain datblygiadau. Ein bwriad yw cynnal fforymau ar draws ein gwasanaethau fel bod trigolion yn cael y cyfle i ddweud eu dweud; yn cael bod yn bartneriaid llawn yn ein datblygu strategol; ac yn cael arwain ar syniadau newydd a chynllunio gwasanaethau. Mae'n hollbwysig ein bod yn cael ein dal yn atebol am ein gwaith, ond yn bwysicach fyth bod pob rhan o'n gwaith wedi ei gyd-gynhyrchu. Nid ar chwarae bach mae symud i'r cyfeiriad hwn a deallwn y bydd yn cymryd amser i sefydlu'r fforymau a newid ein diwylliant.

**812**
O BOBL YN AELOD O BANEL TRIGOLION GWYNEDD



**113** WEDI MYNYCHU CYNHADLEDD POBL HŶN



**130**
WEDI MYNYCHU FFORYMAU POBL HŶN YN NOLGELLAU, PWLLHELI, PENRHYNDEUDRAETH, BANGOR A CHAERNARFON

**70** WEDI MYNYCHU CYNHADLEDD DEMENTIA



**650** WEDI YMATEB I HOLIADUR NEU MYNYCHU SESIWN GALW MEWN AR GYNLLUN LLESIANT Y BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS

> Adroddodd Arolygaeth Gofal Cymru yn dilyn eu adolygiad o'r gwasanaeth diogelu plant ym mis Mawrth 2023 eu bod, ar y cyfan, wedi gweld
>
> *"ymarfer da o ran fod llais a phrofiadau bywyd plant yn cael eu cymryd i ystyriaeth wrth wneud penderfyniadau am ddiogelwch"*
>
> a'u bod wedi gweld enghreifftiau o gyfathrebu clir gyda rhieni.

***Beth yw ein cynlluniau ar gyfer 2023/24 a thu hwnt?***

1. Llunio cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu ar draws y maes gofal i sicrhau ein bod yn cynnwys ein cymunedau'n effeithiol wrth ddatblygu ein gwasanaethau
2. Cyhoeddi Asesiad Anghenion Oedolion Gwynedd a Chynllun Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Datblygu a chyhoeddi Asesiad Anghenion Plant Gwynedd.
3. Ail gynnull y Grŵp Craidd Cydraddoldeb, er mwyn derbyn barn sefydliadau allanol sy'n cynrychioli pobl â nodweddion cydraddoldeb ar faterion yn y Cyngor.
4. Edrych i ddatblygu fforwm ieuenctid sirol i wneud yn siŵr ein bod yn cynnwys llais pobl ifanc wrth wneud penderfyniadau. Datblygu fforymau pobl hŷn a fforymau gofalwyr ymhellach.

# 1 Gweithio gyda phobl i ddiffinio a chyd-gynhyrchu'r canlyniadau lles personol y maent am eu cyflawni

> *Hoffai'r teulu ddiolch i'r tîm anhygoel o ofalwyr a fu'n gofalu am Mam. Derbyniodd ofal arbennig, caredigrwydd a chyfeillgarwch gennych fel gofalwyr, ac aethoch y 'filltir ychwanegol' dro ar ôl tro.*
>
> *Roedd Mam pob amser yn edrych ymlaen at eich gweld, a roeddech yn codi ei chalon a chael digon o hwyl a chwerthin.*
>
> *Gwnaethoch chi rywbeth 'special' gan wneud gwahaniaeth go iawn i fywyd Mam, a daethoch yn rhan o'r teulu. Ni fyddwn byth yn anghofio hyn.*

ORIAU GOFAL CARTREF YR WYTHNOS:



DARPARU:

**9,478** AWR


DAL YN CHWILIO I DDARPARU:

**1,163** AWR

DATA: 31/03/23

**1,663** O BOBL YN DERBYN GWASANAETH TELEOFAL

**592** PECYN TELEOFAL NEWYDD WEDI EI OSOD



**208** YN DERBYN TALIADAU UNIONGYRCHOL YN MIS MAWRTH 2023

## Sylwadau'r Cyfarwyddwr

Mae'n hollbwysig i unigolion gael rheoli eu gofal – y nhw yw'r arbenigwyr ar eu bywydau. Nid ein lle ni yw dweud wrth "Mrs Jones" beth mae arni ei angen, ein gwaith ydi helpu "Mrs Jones" i wneud penderfyniadau ar sut y gall wneud y pethau sy'n bwysig iddi hi.

Eleni, bu llu o enghreifftiau lle gweithiodd staff yn ddiwyd gydag unigolion, a'u teuluoedd, dros amser er mwyn darparu gofal a chefnogaeth wedi'i deilwra i'w hanghenion. Mae'r gwaith maent yn ei wneud yn trawsnewid bywydau sydd yn aml mewn sefyllfa fregus.

Rydym wedi parhau i gydweithio'n agos gyda'r Bwrdd Iechyd ac mae enghreifftiau da o waith integredig yn rhai o'n **Timau Adnoddau Cymunedol**, y gwasanaeth offer anabledd, ac yn **Nhîm Derwen** sy'n cefnogi plant ag anableddau.

Mae dyletswydd arnaf i sicrhau ein bod yn taclo rhai o'r rhwystrau strategol a'r heriau difrifol a ddaeth i'r amlwg dros y gaeaf wrth gydweithio gyda phartneriaid er budd ein trigolion. Gyda Chadeirydd newydd yn arwain y Bwrdd Iechyd ers mis Chwefror 2023, mae'n gyfle perffaith i ail-edrych ar bethau a gwneud yn siŵr ein bod yn rhoi'r trefniadau priodol yn eu lle i sicrhau cyfathrebu agored a chydweithio dros y flwyddyn nesaf.

I'r dyfodol, bwriadwn roi llawer mwy o hyblygrwydd i drigolion ddewis y gofal sy'n addas iddyn nhw. Byddwn yn datblygu system symlach ar gyfer taliadau uniongyrchol fel ein bod yn hyderus i'w cynnig ymhob sefyllfa, a byddwn yn defnyddio technoleg teleofal arloesol wrth gefnogi unigolion a gofalwyr.

# Stori Elis

Daeth Elis, unigolyn 87 oed, i'n sylw trwy ein cyfarfodydd rheolaidd gydag ysbyty cyffredinol ac yna'r ysbyty cymunedol.

Roedd wedi cael anaf drwg yn dilyn damwain ar ei fferm, ac yn ystod ei gyfnod yn yr ysbyty amlygodd profion fod salwch difrifol arno yn ogystal. Adref, yn ei gartref ei hun ac yng nghwmni ei gi defaid oedrannus yr oedd eisiau bod, a gwnaeth yn glir na fyddai'n ystyried byw yn unman arall.

Bu'r gweithiwr cymdeithasol a'r therapydd galwedigaethol yn cydweithio efo'r ysbyty a'r tîm gofal lliniarol i gael offer i wneud pethau yn haws yn ei gartref. Roedd mab Elis yn byw ymhell ac yn methu cynnig gofal o ddydd i ddydd, ond gallai helpu i weinyddu'r pecyn Taliadau Uniongyrchol. Trefnodd y gweithiwr i Elis dderbyn taliadau uniongyrchol a chysylltodd efo cwmni gofal oedd yn fodlon darparu'r gofal.

Aeth Elis adref o'r ysbyty yn ôl ei ddymuniad i gwmni ei gi. Parhaodd y gweithiwr i ymweld ag ef i sicrhau bod y gofal yn cyfarch ei anghenion, ac fe gafodd Elis dreulio blwyddyn olaf ei fywyd yn ei gartref – rhywbeth oedd yn golygu cymaint iddo.



## Beth oedd ein bwriadau yn ôl yr adroddiad diwethaf, a sut llwyddon i gyrraedd hyn?

**Cryfhau'r gefnogaeth therapi galwedigaethol sydd ar gael i bobl ac ail-edrych ar y rôl gallai technoleg a teleofal ei chwarae er mwyn hwyluso gofal i drigolion...**

Llwyddwyd i lenwi rhai o swyddi gwag **therapi galwedigaethol**, gan gynnwys hyfforddai fydd yn cymhwyso ym mis Rhagfyr 2023. Penodwyd ymarferwyr gwaith cymdeithasol dros dro i gefnogi asesiadau llai cymhleth yn y cyfamser.

Serch yr ymdrechion, mae'r galw ar y gwasanaeth dal yn uchel, ac mae rhai oedolion yn disgwyl am asesiad am dros dri mis gan fod rhaid blaenoriaethu ar sail risg. Bwriadwn edrych ar ddefnyddio gwefan AskSARA, sy'n cynnig hunanasesiad ar-lein gan awgrymu'r offer all helpu i wneud bywyd bob dydd yn haws.

Mae rheolwr prosiect wedi ei benodi i arwain ar drawsffurfio'r gwasanaeth teleofal ac i hwyluso trosglwyddiad yr offer analog i ddigidol erbyn 2025. Y gobaith yw treialu offer newydd yn ystod 2023/24.

**Sefydlu'r model Gofal Cartref newydd yn y sir...**

Fe barhaodd y broses o drosglwyddo i'r model Gofal Cartref newydd, er hyn fe wnaeth anawsterau recriwtio lesteirio'r ymdrechion mewn ambell i ardal megis Llanberis ac Ardudwy.

Roedd hanner y cwynion (11) a dderbyniwyd am yr **Adran Oedolion** yn 2022/23 yn ymwneud â diffyg oriau ar gael i gychwyn pecynnau gofal cartref newydd, neu i gynyddu oriau pecynnau gofal. Bu gostyngiad yn ystod chwarter olaf y flwyddyn (1 gŵyn), a byddwn yn monitro hyn dros y 12 mis nesaf.

Mae'r gwasanaeth wedi profi budd mawr o weithio o fewn cymunedau ac mae cryfhau cysylltiadau â grwpiau cymunedol a'r trydydd sector yn lleol yn flaenoriaeth i'r dyfodol.

**Cyd-weithio efo Canolfan Groeso i ffoaduriaid sy'n ffoi o Wcráin i Wynedd...**

Gweithiodd swyddogion gyda thrigolion ac elusennau i gynnig llety i bron i **300** o ffoaduriaid Wcráin ar hyd a lled y sir.

Derbyniodd pob unigolyn ymweliad lles, cyswllt gan weithiwr cefnogol a chawsant gynnig cefnogaeth trawma, cefnogaeth adsefydlu ac iechyd meddwl er mwyn ymateb i'w hanghenion personol. Mewn achosion mwy cymhleth a dwys, mae'r gweithiwr cefnogol yn tynnu ar gefnogaeth bellach fel bo'r angen, er enghraifft, therapydd galwedigaethol neu nyrs gymuned.

***Beth yw ein cynlluniau ar gyfer 2023/24 a thu hwnt?***

1. Cefnogi'n trigolion drwy'r broses o drawsnewid digidol erbyn 2025 a sicrhau bod teleofal a thechnoleg yn cael ei ddefnyddio i'w lawn botensial.
2. Datblygu holiadur barn electronig i blant sy'n derbyn gwasanaeth gan Tîm Derwen.
3. Ailedrych ar y ffordd rydym yn cefnogi'r broses darparu gofal drwy daliadau uniongyrchol er enghraifft, drwy ystyried dulliau fel y "Waled Rhithiol".
4. Gwreiddio'r model gofal cartref newydd gan sicrhau bod darparwyr mewnol ac allanol yn cydweithio'n effeithiol â'r cymunedau'n ehangach.
5. Parhau i arfogi'r timau integredig (timau sy'n cynnwys staff gofal a staff iechyd) drwy edrych ar hyfforddiant priodol a dileu unrhyw rwystrau technolegol.





# 2 Gweithio gyda phobl a phartneriaid i ddiogelu a hyrwyddo iechyd corfforol, meddyliol a lles emosiynol pobl

**201** O ASESIADAU GOFALWYR WEDI EU CWBLHAU

CYFRANIAD I GRONFA CYNLLUN BWYD CYMUNEDOL: **£104k**

**150** AELOD O STAFF WEDI BOD AR YR HYFFORDDIANT YMWYBYDDIAETH AWTISTIAETH

**121** O OFALWYR IFANC WEDI DERBYN CEFNOGAETH

GWERTH Y TALEBAU TANWYDD I GARTREFI: **£76k**

> *Mor falch neshi ddod yma heddiw. Oeddwn ddim yn gwybod be i ddisgwyl ond dwi'n teimlo lot brafiach yn gadael a 'di gael bob dim off fy chest. Diolch am ddeallt a g'neud y situation mor hawdd i fi.*
>
> - **Mynychwr digwyddiad "Help Gyda Costau Byw"**

## Sylwadau'r Cyfarwyddwr

Gwaith caled a chlodwiw yw gofalu'n ddi-dâl, er na roddir iddynt y gydnabyddiaeth haeddiannol. Anodd yw gofalu am anwylyd bob awr o bob dydd ac angenrheidiol yw mynediad at gefnogaeth emosiynol ac ymarferol. Cynigia fforymau fel Rhwydwaith Gofalwyr Gwynedd, Grŵp Gofalwyr Dementia Actif a'r Grŵp Gofalwyr Ifanc glust i wrando a chyfle i sgwrsio â gofalwyr di-dâl eraill.

Rwy'n falch bod y **Gwasanaeth Anabledd Dysgu** yn gwneud defnydd da o'n darpariaethau ysbaid ac egwyl fer, a thrwy hynny yn llwyddo i gynnig cyfnodau seibiant i ofalwyr a chynnig profiadau gwerthfawr i unigolion gymdeithasu a datblygu sgiliau ar yr un pryd. Defnyddia rhai unigolion oed trosglwyddo (18 oed) gyfnodau ysbaid i baratoi at fyw'n annibynnol yn llwyddiannus.

Yn anffodus, fodd bynnag, mae rhai gwasanaethau cefnogi yn wynebu heriau capasiti oherwydd eu bod yn ei chael hi'n anodd recriwtio, er enghraifft, **Tîm Derwen**, sy'n cynnig cefnogaeth ac egwyl fer i deuluoedd plant anabl – mae'r tîm wedi gorfod hysbysebu bedair gwaith am swydd gweithiwr cymdeithasol. Ceir heriau cyffelyb yn y maes gofal cartref lle mae demograffeg Gwynedd yn dangos cynnydd mewn galw wrth i'r boblogaeth heneiddio a llai o bobl oedran gwaith i ddarparu'r gofal.

Dengys canlyniadau Cyfrifiad 2021 fod bron i 10,000 o ofalwyr di-dâl yng Ngwynedd, ond gwyddwn nad ydym yn cyrraedd y mwyafrif llethol o'r unigolion hyn. Y trueni yw bod rhai gofalwyr yn profi straen a dirywiad yn eu hiechyd eu hunain, ac felly mae'n hollbwysig fod gennym y gwasanaethau i'w cefnogi yn eu lle. Mae'n hanfodol ein bod yn cynyddu ein cymorth i ofalwyr di-dâl.

# Stori Cai

Mae Cai yn 13 oed ac yn helpu i ofalu am ei frawd a'i chwaer anabl. Mae Cai yn mynychu sesiynau Gofalwyr Ifanc sy'n cael eu cynnal gan Gweithredu dros Blant, ac mae wedi gwerthfawrogi'r cyfle i gyfarfod gofalwyr ifanc eraill. Dyma Cai yn egluro'r budd mae wedi ei brofi ers cychwyn defnyddio'r App AiDi a cherdyn adnabod gofalwyr ifanc:

*"Mae (Gofalwyr Ifanc) wedi rhoi cymorth i mi i'm helpu efo fy holl ddyletswyddau gofalu ifanc a rhai agweddau o fod yn ofalwr ifanc. O'r blaen roeddwn yn teimlo fel fy mod yn warchodwr oedd ar gael trwy'r amser ond rŵan mae'n bendant wedi rhoi mwy o eglurder i mi pam fy mod i'n ofalwr.*

*Mae'r (cerdyn adnabod) yn golygu pan dwi'n hwyr i'r ysgol oherwydd dyletswyddau Gofalu Ifanc, yna yn lle ei fod yn rhywbeth mawr lle mae rhaid i mi ddweud wrth athrawon neu aros ar ôl gwersi i esbonio iddyn nhw ... y cyfan sy'n rhaid i mi ei wneud rŵan yw tynnu'r cerdyn allan yn gyflym, ei droi i las a bydd yr athro yn deall. Ni fydd yn dweud dim byd fel "pam wyt ti'n hwyr?"*

*Weithiau mae esbonio hyd yn oed i athro sy'n gwybod pam rydych chi'n hwyr yn codi embaras ac mae'r cerdyn adnabod yn tynnu llawer o bwysau oddi ar eich ysgwyddau. Mae (bod yn ofalwr ifanc) yn anodd ond fe ddaw amser pan fydd y bobl o'ch cwmpas a'r bobl rydych eu hangen fwyaf yno i chi."*



## Beth oedd ein bwriadau yn ôl yr adroddiad diwethaf, a sut llwyddon i gyrraedd hyn?

**Darparu rhaglen o gefnogaeth fel bod trigolion yn gallu ymdopi â'r argyfwng costau byw...**

Penodwyd cydlynydd a swyddog trechu tlodi yn ystod haf 2022, ynghŷd â dau swyddog tlodi tanwydd gan yr Adran Tai ac Eiddo.

Canolbwyntion nhw ar gefnogi trigolion drwy roi cyngor ariannol, codi ymwybyddiaeth o fudd-daliadau a gostyngiadau amrywiol, a rhoi mynediad i ddarpariaeth bwyd brys. Crëwyd tudalen Cymorth Costau Byw ar wefan y Cyngor er mwyn amlinellu'r help sydd ar gael ac o le i gael gwybodaeth arbenigol.

Gyda Cyngor ar Bopeth, Nyth ac asiantaethau tai, trefnwyd sioeau teithiol "Help gyda chostau byw" mewn lleoliadau amrywiol, gan gynnwys canolfannau hamdden, derbynfa ysbytai, stadau tai, neuaddau pentref a llyfrgelloedd. Profodd adborth cadarnhaol gan y mynychwyr pa mor werthfawr oedd y sesiynau.

**Adolygu'r ffordd rydym yn darparu Gwasanaeth Iechyd Meddwl i drigolion Gwynedd...**

Eleni, derbyniwyd dros **5,000** o gyfeiriadau i'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl sydd oddeutu **2,000** o gyfeiriadau yn fwy na'r cyfnod arferol cyn COVID-19. Er ei fod yn wasanaeth integredig gyda'r Bwrdd Iechyd, bu rhwystrau sylweddol yn llesteirio ymdrechion i gydweithio, gan beri risgiau sylweddol i fywydau unigolion.

Edrychwyd ar opsiynau posib o ail-ddylunio'r modd mae'r Cyngor yn cynnig cefnogaeth iechyd meddwl a bydd adroddiad yn mynd ger bron y Cabinet yn 2023/24 er mwyn penderfynu ar y ffordd ymlaen.

**Edrych ar y modd rydym yn gweithredu ein Cynllun Awtistiaeth a chodi ymwybyddiaeth ymysg ein gweithlu a thu hwnt...**

Cyflwynwyd hyfforddiant ymwybyddiaeth Awtistiaeth i staff yr **Adran Plant** ac **Adran Oedolion.** Cynhaliwyd sesiynau rhyngweithiol ar Fws Awtistiaeth, gan roi cyfle i bobl brofi rhai o'r anawsterau prosesu synhwyraidd a wynebir gan unigolion sydd ar y sbectrwm.

Bu heriau recriwtio, ond rydym bellach wedi penodi Arweinydd Ymarfer Awtistiaeth a bydd yn dechrau ym mis Mai.

Yn y cyfamser, mae gwefan y Cyngor wedi ei diweddaru i gynnwys gwybodaeth am awtistiaeth er mwyn amlygu'r gefnogaeth leol sydd ar gael i unigolion a theuluoedd.

***Beth yw ein cynlluniau ar gyfer 2023/24 a thu hwnt?***

1. Mabwysiadu Cynllun Lliniaru ac Atal Tlodi (sefydlu Grŵp Tlodi Gwynedd, Rhwydwaith Bwyd a Siarter Bwyd) a gwerthuso'r rhwydwaith presennol o Hybiau Helpu Pobl ac ehangu i ardaloedd pellach.
2. Gwneud defnydd llawn o'n gwasanaethau gofal dydd ac ysbaid, ac edrych ar opsiynau posib er mwyn ailfodelu'r ddarpariaeth yn ardaloedd Ffestiniog ac Eifionydd.
3. Arwain ar Gynllun Gofalwyr (Oedolion a Phlant) i sicrhau ein bod yn adnabod, cydnabod a chefnogi'r gwaith amhrisiadwy mae gofalwyr di-dâl ar draws Gwynedd yn ei wneud.
4. Gweithredu'r Cynllun Awtistiaeth er mwyn ei gwneud hi'n haws i unigolion awtistig a'u teuluoedd drosglwyddo rhwng gwahanol wasanaethau.
5. Cynnal adolygiad o'n model darparu gwasanaethau iechyd meddwl i sicrhau ein bod yn cyfarch ein cyfrifoldebau o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.



# 3 Diogelu ac amddiffyn pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod neu niwed

## Sylwadau'r Cyfarwyddwr

Blaenoriaeth bwysicaf Cyngor Gwynedd yw sicrhau diogelwch pobl. Gwyddom fod rhai yn wynebu risg uwch o niwed, esgeulustod neu gamdriniaeth, ac mae trefn gadarn yn ei lle er mwyn adnabod y perygl, a gweithredu i'w hamddiffyn.

Yn dilyn cyfnod COVID-19, dychwelwyd i gynnal Cynadleddau Amddiffyn Plant wyneb yn wyneb, i sicrhau gwneud penderfyniadau diogelu priodol ac i roi'r profiad gorau posib i blant a rhieni.

Ymfalchïwn yng ngwaith y **Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid** sy'n gweithio'n ddwys gyda phlant a phobl ifanc sydd wedi troseddu i'w hatal rhag aildroseddu, gan na fu unrhyw berson ifanc o Wynedd mewn carchar neu dan glo ers 2020.

Derbyniodd y **Tîm Cyfeiriadau Plant** dros **7,000** o gyfeiriadau eleni – **cynnydd o tua 2,500** ers y cyfnod cyn COVID-19. Gwelodd y **Gwasanaeth Iechyd Meddwl** gynnydd cyffelyb a gwn mai gwaith gwych ein timau a'n galluogodd i reoli risgiau'n amserol yn y mwyafrif helaeth o achosion.

Ymfalchïwn yn y gwaith hwn, tra'n gwybod hefyd nad yw'n gynaliadwy, a phryderaf am y pwysau a roddir ar ein gweithlu.

Bu gwaith i glirio'r ôl-groniad asesiadau Diogelu rhag Colli Rhyddid (DoLS) tra oedd y Llywodraeth yn edrych ar ddiwygio'r drefn bresennol, ond gwyddom erbyn hyn na chyflwynir newid a bydd angen ystyried yr her o reoli'r ceisiadau DoLS ymhellach. Gweithdrefn statudol yw DoLS sy'n amddiffyn unigolion sydd yn methu gwneud penderfyniadau am eu gofal a'u rhyddid (er enghraifft, unigolion â dementia) mewn cartref preswyl neu ysbyty. Heb asesiad, mae risg bod unigolion yn cael eu cadw yn gaeth yn erbyn eu hewyllys.



**91%**
O GYFEIRIADAU DIOGELU OEDOLION YR YMATEBWYD IDDYNT O FEWN Y SAITH DIWRNOD STATUDOL

**97%**
O GYFEIRIADAU DIOGELU OEDOLION WEDI EU CWBLHAU YN YSTOD Y FLWYDDYN LLE MAE'R RISG WEDI EI REOLI





**84%**
O ADOLYGIADAU AMDDIFFYN PLANT WEDI EU CYNNAL O FEWN YR AMSERLEN STATUDOL YN YSTOD Y FLWYDDYN

**98%**
O'R ASESIADAU RISG A GYFLWYNWYD I GYNADLEDDAU ACHOS A YSTYRIR YN RHAI A OEDD YN DANGOS ANSAWDD WRTH WNEUD PENDERFYNIADAU



**95%**
O GYNADLEDDAU ACHOS LLE CLYWYD LLAIS/BARN Y PLENTYN (AC EITHRIO PLANT O DAN 5 OED)

> *Mae'r awdurdod lleol yn ymateb yn dda i bryderon diogelu. Gwelsom dystiolaeth o weithwyr proffesiynol yn y tîm diogelu yn gweithio'n effeithiol gyda phartneriaid o'r bwrdd iechyd lleol a'r heddlu, yn ogystal â thimau ehangach yr awdurdod lleol, i amddiffyn oedolion a phlant sydd mewn perygl. Mae fforymau ehangach ar waith hefyd ar gyfer ystyried risgiau mewn achosion lle nad yw'r trothwy ar gyfer diogelu wedi'i gyrraedd.*
>
> \- **Adroddiad Archwilio Gofal Cymru, Medi 2022**

# Stori Lowri

Daeth Lowri i sylw'r Gwasanaeth Diogelu Plant pan oedd hi yn yr ysbyty ar fin rhoi genedigaeth. Nid oedd Lowri wedi dilyn y llwybrau cyn-geni arferol a heb gyflwyno i'r Gwasanaethau Mamolaeth tan yn hwyr iawn, ac fe amlygwyd pryderon diogelu tra oedd hi ar y ward geni.

Roedd y pryder mwyaf yn ymwneud â'i hymddygiad, a thueddiad Lowri i ddweud celwydd a gwneud cyfres o ddatganiadau a brofwyd yn ddi-sail. Honnodd bod ei chyn-bartner yn ei stelcian; dywedodd gelwydd wrth y gwasanaethau cam-drin domestig tra oedd hi'n byw mewn lleoliad diogel; ac o ran ei babi newydd, fe enwodd sawl tad gwahanol. Daeth hefyd i'r amlwg bod ganddi ddau o blant hŷn oedd bellach yn byw gydag aelodau eraill o'r teulu.

Roedd gan Lowri sawl cryfder. Nid oedd unrhyw bryder cyffredinol am ei gallu i roi gofal sylfaenol o ddydd i ddydd, fe ddangosodd ofal emosiynol da tuag at ei phlentyn ac roedd ei phartner newydd hefyd yn ddylanwad cadarnhaol.

Drwy'r fframwaith arloesol "**Amddiffyn Plant yn Effeithiol**" (a ddatblygwyd gan ymarferwyr amddiffyn plant profiadol Cyngor Gwynedd) canolbwyntiwyd ar ei chryfderau, a gosodwyd 'camau tuag at newid' pendant fel bod Lowri a phawb ynghlwm â'r achos yn gwybod pa bethau oedd angen mynd i'r afael â nhw. Roedd modd i swyddogion roi'r gefnogaeth addas i'r teulu er mwyn eu symud o gategori gofal '*nad yw'n ddigon da*', i gategori gofal sy'n '*ddigon da*'.

Bydd y sefyllfa yn parhau i gael ei monitro drwy Gynadleddau Achos rheolaidd, ac mae Lowri a thad biolegol y plentyn yn cydweithredu'n dda â phrosesau asesu ac yn dangos dyfalbarhad i aros ar y trywydd iawn.



## Beth oedd ein bwriadau yn ôl yr adroddiad diwethaf, a sut llwyddon i gyrraedd hyn?

**Rhoi rhaglen hyfforddiant Tîm Emrallt ar waith er mwyn adnabod ac ymateb yn gynnar i blant a phobl ifanc sy'n dangos ymddygiad rhywiol niweidiol a phroblemus ...**

Mynychodd **993** o swyddogion ar draws y sector iechyd, addysg a gofal cymdeithasol hyfforddiant a hwyluswyd gan **Dîm Emrallt**, sydd wedi rhagori ar y disgwyliadau. Mae'r rhaglen hyfforddi yn cynnwys sawl haen, o ddiffinio ac adnabod ymddygiad rhywiol niweidiol i fynd i'r afael ag ymddygiad rhywiol niweidiol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd. Mae'r tîm hefyd yn cynnig pecynnau pwrpasol er mwyn uwch-sgilio rhai gweithwyr mewn meysydd penodol.

Gyda thwf mewn defnydd o dechnoleg fe welwyd cynnydd mewn ymholiadau yn ymwneud ag ymddygiadau fel '*sexting*' a cham-drin rhywiol ar-lein. Bydd y tîm felly yn canolbwyntio ar adeiladu ar adnoddau ymyrraeth ymddygiad rhywiol niweidiol ar gyfer rhieni a gofalwyr.

**Gweithredu Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid 2022/23 ...**

Mae cyfraddau troseddwyr newydd a chyfraddau ail-droseddu yn is na chymariaethau rhanbarthol a chenedlaethol ac nid oes unrhyw berson ifanc o Wynedd wedi bod dan glo ers 2020.

Yn dilyn cyfnod COVID-19, mae'r gwasanaeth wedi ei chael hi'n anodd sicrhau bod pobl ifanc a gefnogir yn mynychu hyfforddiant, addysg neu gyfleoedd cyflogaeth. Ar y llaw arall, mae'r unigolion yn elwa'n fawr o'r berthynas agos â'r **Adran Tai ac Eiddo** ac yn derbyn cymorth llety addas ac amserol ac mae ymyrraeth a thriniaeth camddefnyddio sylweddau hefyd yn gweithio'n dda.

**Annog mwy o staff i gwblhau hyfforddiant yn y maes Trais yn y Cartref ...**

Erbyn hyn mae cwblhau e-fodiwl 'Trais yn y Cartref' yn fandadol ac mae gwaith yn mynd rhagddo i'w gynnwys fel rhan o gyflwyno staff newydd. Mae'r hyfforddiant 'Ask and Act' hefyd yn cael ei hyrwyddo er mwyn rhoi hyder i staff i helpu unigolion sy'n profi trais, cam-drin domestig neu drais rhywiol.

Ym mis Mai 2022, derbyniodd y Cyngor achrediad 'Rhuban Gwyn' oedd yn cydnabod yr ymdrech o fod yn ymgysylltu â dynion a bechgyn, newid diwylliant a chodi ymwybyddiaeth am atal trais yn erbyn merched. Mae angen parhau i ledaenu'r neges mai digon yw digon, a gweithia swyddogion ar gynllun gweithredu tair blynedd sefydliad y Rhuban Gwyn.

***Beth yw ein cynlluniau ar gyfer 2023/24 a thu hwnt?***

1. Cryfhau ein gwasanaethau sicrwydd ansawdd i sicrhau cefnogaeth ddigonol i ddarparwyr gofal i'w helpu i gynnal gwasanaeth o safon i drigolion Gwynedd
2. Adolygu ein trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid (DoLS).






# 4 Annog a Darparu cefnogaeth i bobl ddysgu a chyfranogi mewn cymdeithas

**440** O YMWELIADAU I SESIYNAU DEMENTIA ACTIF WYNEB YN WYNEB AR DRAWS Y SIR BOB MIS (CYFARTALEDD)



**98** O BOBL IFANC SYDD DDIM MEWN ADDYSG, HYFFORDDIANT NA CHYFLOGAETH WEDI DERBYN CYMORTH YN YSTOD Y FLWYDDYN



**20** O FEINCIAU CYFEILLGARWCH ER MWYN ANNOG POBL I SGWRSIO I HERIO UNIGRWYDD



**135** O BOBL IFANC A **404** O BOBL HŶN WEDI CYMRYD RHAN MEWN PROSIECT PONTIO'R CENEDLAETHAU



> *Da chi wedi bod yn dda iawn yn cefnogi fi ac roedd y cyngor ges i yn wych ac roeddech yn wych hefyd wrth helpu i mi agor cyfrif bang. Diolch am y cwmni hefyd.*
> **- Person ifanc sy'n derbyn cefnogaeth gan y Gwasanaeth Ieuenctid**

## Sylwadau'r Cyfarwyddwr

Mae  cyswllt â theulu a ffrindiau a'r gallu i chwarae rôl mewn cymdeithas yn allweddol i lesiant unigolion. Gall diffyg perthnasau a chysylltiadau arwain at deimlo'n ynysig, ac adroddir y gall effaith unigrwydd cymdeithasol fod mor niweidiol ag ysmygu 15 o sigarennau y dydd!

Yng Ngwynedd, mae timau sy'n gweithio'n ddiwyd i alluogi unigolion i gymdeithasu ac i gyfrannu. Yn ystod y flwyddyn dychwelodd y rhan fwyaf o'n gweithgareddau i fod wyneb yn wyneb, gyda rhywfaint o ddarpariaeth rithiol, ac mae ein cysylltwyr cymunedol wedi cefnogi a gafael yn llaw'r unigolion oedd ychydig yn nerfus am ailymuno â chymdeithas yn dilyn y pandemig.

Rydym am weithio â chymunedau er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn hygyrch a bod mynediad rhwydd fel bod **pawb** yn gallu cyfranogi mewn cymdeithas. Cyfeiriaf at ddymuniad Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru a Llywodraeth Cymru i bob awdurdod lleol yng Nghymru weithio tuag at dderbyn achrediad fel cymuned oed gyfeillgar erbyn 2025. Datblygwyd **Cynllun Gwynedd Oed Gyfeillgar** a bydd yn rhan bwysig o'n gwaith i'r dyfodol.

Gwyddom fod yr atebion i'r heriau a wynebir gan bobl hŷn yn ehangach na dylanwad y gwasanaethau cymdeithasol. Gweithiwn felly, yn drawsadrannol, i hwyluso materion fel palmentydd hygyrch, argaeledd toiledau cyhoeddus, a meinciau neu lefydd i orffwys mewn trefi a phentrefi. Byddai'r math yma o newidiadau nid yn unig o fudd i'r genhedlaeth hŷn, ond i'n cymunedau cyfan – boed yn blant, yn deuluoedd, yn unigolion anabl neu rywrai sy'n byw â chyflwr iechyd.

# Stori Carol a Sera

Mae Carol yn 92 oed ac yn byw gyda Dementia Cymysg (fasgwlaidd ac Alzheimer's) ers saith mlynedd. Bu'n nyrs mewn ysbyty ac yna mewn cartref nyrsio nes iddi ymddeol, ac ers hynny bu'n aelod brwd o Sefydliad y Merched a bu'n mwynhau gwau a gwnïo.

Yn dilyn marwolaeth ei gŵr ychydig cyn y pandemig, symudodd Carol i fyw at ei merch, Sera. Roedd Carol yn teimlo'n ynysig ac yn methu cwmni ac ymwneud â'r gymuned leol ac roedd Sera hefyd yn teimlo ei bod angen cymorth yn ei rôl fel gofalwr di-dâl. Ar ôl gweld hysbyseb **Dementia Actif** yn y ganolfan hamdden fe wnaeth Sera gyswllt â'r tîm.

Mae sesiynau **Dementia Actif** wedi rhoi cyfle i'r ddwy ryngweithio a chymdeithasu â phobl eraill. Maent wedi mwynhau cymryd rhan mewn gwahanol weithgareddau gan gynnwys taith trên a dangosiad sinema, parti gardd, te prynhawn (gyda grŵp gofalwyr), cynghrair boccia, a chynhadledd leol ym Mhlas Tan Y Bwlch.

Pwysigrwydd y gweithgareddau i Carol a Sera yw eu bod yn helpu i roi strwythur i'w hwythnos, gan sicrhau eu bod yn cael y cyfle i fynd allan o'r tŷ ac i gwrdd â phobl newydd, sy'n sicrhau bod ganddynt brofiadau ffres i siarad amdanynt. Ers cychwyn mynychu'r sesiynau mae Sera wedi sylwi bod hwyliau gwell ar ei mam a'i bod yn cysgu'n llawer gwell.

*"Mae ein hymwneud â Dementia Actif wedi bod o fudd i'r ddwy ohonom. Mae fy mam wedi elwa'n gorfforol trwy gymryd rhan yn yr ymarferion cryfder a chydbwysedd ac yn feddyliol trwy agwedd gymdeithasol y sesiynau. Rwyf i wedi elwa ar y rhwydwaith cymorth a gynigir ac wedi gwneud ffrindiau newydd."*



## Beth oedd ein bwriadau yn ôl yr adroddiad diwethaf, a sut llwyddon i gyrraedd hyn?

**Cefnogi pobl ifanc sydd ddim mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth (NEET) ...**

Darparwyd cefnogaeth un-i-un benodol i rai pobl ifanc rhwng 16-25 oed drwy'r **Gwasanaeth Ieuenctid**. Bu gweithwyr cymorth arweiniol yn helpu unigolion i adnabod eu cryfderau a'r rhwystrau sy'n eu hatal rhag symud ymlaen ar eu llwybr at gyflogaeth.

Cysylltwyd y bobl ifanc ag addysg rhan neu lawn amser, neu ymlaen at raglen gyflogaeth Gwaith Gwynedd. Yn ogystal, fe gynhaliwyd gwaith grŵp fel modd o ddatblygu y sgiliau personol, cymdeithasol ac emosiynol sy'n hanfodol i fyd hyfforddiant neu waith.

**Parhau i weithredu rhaglen Pontio'r Cenedlaethau ...**

Aeth y rhaglen **Pontio'r Cenedlaethau** o nerth i nerth yn ystod y flwyddyn, gyda rhagor o brosiectau wedi eu rhoi ar waith er mwyn creu a meithrin cysylltiadau newydd rhwng plant a phobl o bob oedran.

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd gweithgareddau oedd yn cynnwys **Caffi Creu** ble daeth pobl ifanc rhwng 16 a 25 mlwydd oed o GISDA at ei gilydd hefo pobl hŷn yn ardal Caernarfon i rannu sgiliau gwnïo a garddio; sesiwn paned a sgwrs **Bala 'Ddoe a Heddiw'** gyda'r artist Mari Gwent ar gyfer disgyblion Ysgol Godre'r Berwyn a Chanolfan Henblas a diwrnod amgylcheddol ar y cyd ag Adra ym Maesgeirchen ym Mangor.

Parhaodd y nifer o feinciau cyfeillgarwch ar draws Gwynedd i gynyddu, a braf yw gweld y cydweithio gwych sy'n digwydd, er enghraifft ym Mhlas Ogwen. Mae pontio'r cenedlaethau yn fuddiol i bawb sydd yn cymryd rhan a da yw gweld y perthnasau yn blaguro yn ystod y prosiectau.

**Darparu cefnogaeth er mwyn i breswylwyr cartrefi gofal fagu sgiliau i fynd ar-lein...**

Yn ystod 2022/23 llwyddwyd i ymweld â phob cartref gofal y Cyngor (oni bai am un oedd yn delio gydag achosion COVID-19) er mwyn darparu rhagor o ddyfeisiau megis "Alexa" a chynnig hyfforddiant i breswylwyr ar sut i'w defnyddio.

Mae cyfnod COVID-19 wedi dangos pwysigrwydd technoleg fel modd i bobl mwyaf bregus y sir gadw mewn cysylltiad gyda'u teuluoedd ac mae gwaith wedi cychwyn ar uwchraddio darpariaeth band eang yn y cartrefi. Mi fydd y gwaith i ymestyn technoleg yn y cartrefi yn rhaglen barhaus.

Wrth gwrs, mae technoleg hefyd yn bwysig i staff ac ar ôl cynnal asesiad gyda rheolwyr y cartrefi, bydd y gwaith o ddyrannu gliniaduron fel bod modd cael mynediad at hyfforddiant ar-lein drwy Teams neu Zoom ac i dderbyn slipiau cyflog ar-lein yn cychwyn yn fuan yn 2023/24.

***Beth yw ein cynlluniau ar gyfer 2023/24 a thu hwnt?***

1. Anelu at ennill achrediad 'cymuned oed gyfeillgar' gan Sefydliad Iechyd y Byd er mwyn sicrhau bod trigolion o bob oed yn medru cael bywyd da yn eu cymuned leol.
2. Cyhoeddi rhaglen o weithgareddau a chyfleoedd cymdeithasol ar gyfer ystod eang o unigolion a gofalwyr ar draws ein gwasanaethau gofal.
3. Cychwyn ar y gwaith adeiladu i addasu Canolfan Dolfeurig yn Nolgellau er mwyn ychwanegu at y rhwydwaith o hybiau cymunedol i gefnogi unigolion ag anableddau dysgu.





# 5 Darparu cefnogaeth i bobl er mwyn iddynt ddatblygu’n ddiogel a chynnal perthnasau iach yn y cartref gyda’u teulu ac ar lefel bersonol

*Isho gyru negas i chdi a Tîm Drws y Nant os tin gweld nw i ddeud diolch hiwj am y dau flwyddun dwytha ma a isho deu sori i bawb am sud oni oblaen ond dwi di newid a falch iawn bod fi wedi a ma huna drw help pawb hefo therepy ag roid y chance i fi a isho diolch i chdi am bob dim … ti di bod yn ffer hefo fi drwdda fo a dwin deud hun mewn ffor mwua neis erioed wan dwin gobeithio dwim n mund i weld social buth eto ond diolchi chi mor gymaint x*

**- Defnyddiwr Tîm Trothwy Gofal, Tîm Plant Arfon 2, Gwasanaeth Cefnogol a Tîm**

## Sylwadau’r Cyfarwyddwr

Cadarnhaodd adolygiad Arolygaeth Gofal Cymru nad oes plant yn mynd i ofal yn ddiangen yng Ngwynedd a phan mae teuluoedd yn wynebu cyfnodau heriol mae gennym wasanaethau sy’n cynnig cefnogaeth amserol a phriodol fel bod y plant hynny’n gallu aros gyda’u rhieni, a ffynnu yn iach a diogel.

Cynigia’r Cyngor wahanol haenau o gefnogaeth i deuluoedd – yn amrywio o’r **Tîm o Amgylch y Teulu** sy’n cydweithio â theuluoedd i ymyrryd yn gynnar pan fo problemau’n dod i’r amlwg (sy’n digwydd yn wirfoddol gyda chaniatâd) i gefnogaeth fwy dwys gan y **Gwasanaethau Trobwynt** sy’n cynnig ystod o ymyraethau i blant sydd ar fin dod i ofal.

Gwnawn ein gorau i gefnogi rhieni mewn amseroedd anodd a derbyniwn adborth cyson sy’n dweud hynny. Ceir rhai achosion lle gallwn wneud mwy i esbonio’n gwaith i deuluoedd. Prif achos cwyno at yr **Adran Plant** oedd diffyg cyfathrebu clir. Bwriadwn wella ar hynny.

Weithiau, mae’n orfodol fod plentyn yn dod i’n gofal oherwydd bod perygl iddynt petaent yn aros gartref. Pan digwydd hyn ein cyfrifoldebau fel rhieni corfforaethol yw sicrhau’r cyfleoedd gorau iddynt mewn bywyd – yn union fel y byddem yn ei wneud gyda’n plant ein hunain.

Gweithiwn yn galed i sicrhau cartrefi addas a chartrefol i bob plentyn sydd yn ein gofal.
Yn ystod 2023/24 byddwn yn datblygu darpariaeth breswyl i blant mewn gofal mewn cartrefi grŵp bychan o fewn y sir, fel ein bod yn gallu cefnogi plant sydd ag anghenion dwys yn ein cymunedau.

**281**
O BLANT YN DERBYN GOFAL (31.03.23)

**5%**
O BLANT SY'N DERBYN GOFAL 31.03.23 SYDD WEDI CAEL TRI LLEOLIAD NEU FWY YN YSTOD Y FLWYDDYN

**8%** O BLANT A DDYCHWELODD ADREF O OFAL YN YSTOD Y FLWYDDYN



**106**
O DEULUOEDD WEDI DERBYN CEFNOGAETH GAN GYDLYNYDD TÎM O AMGYLCH Y TEULU

**90%**
O ADOLYGIADAU PLANT SY’N DERBYN GOFAL WEDI EU CYNNAL O FEWN YR AMSERLEN STATUDOL YN YSTOD Y FLWYDDYN

**100%**
O BLANT SY’N GYMWYS WEDI CAEL CYNGHORYDD PERSONOL WEDI’I DDYRANNU IDDYNT

# Stori Joe

Cafodd Joe, 15 oed, ei gyfeirio at y **Gwasanaeth Ailgartrefu ac Atal** (RAP) ar ôl i'w leoliad maeth dorri lawr am ei fod wedi ceisio gorfodi cariad ei frawd i ddod â'i bywyd ei hun i ben ac wedi defnyddio platfform ar-lein i annog eraill i achosi niwed iddyn nhw eu hunain.

Roedd Gweithiwr Cymdeithasol Joe yn awyddus iddo dderbyn cymorth therapiwtig un-i-un gan ei bod yn pryderu y gallai, heb gymorth, barhau i brofi methiannau pellach mewn lleoliadau oherwydd diffyg dealltwriaeth ynghylch ei ymddygiad amhriodol tuag at ei gyfoedion.

Trefnwyd nifer o sesiynau rhagarweiniol lle cyflwynwyd Joe i therapydd, a gydag amser fe ddaeth yn gyfforddus i siarad am ddigwyddiadau a oedd yn anodd iddo eu cofio. Defnyddiwyd technegau arbenigol ar gyfer plant â symptomau o drawma cymhleth a llwyddodd Joe i fynd i'r afael â'i deimladau ac emosiynau. Trefnwyd sesiynau dal i fyny wythnosol gyda'r Gweithiwr Cymdeithasol ac roedd rhieni maeth newydd Joe hefyd yn elwa o wybod bod cymorth '*dim ond galwad ffôn i ffwrdd.*'

Ar ôl cyfnod mewn gofal maeth, cafodd Joe fynd yn ôl i fyw adref gyda'i fam enedigol, sydd hefyd wedi derbyn cymorth emosiynol ac ymarferol gan yr **Adran Blant**. Cafodd waith rhan-amser, a dywed ei fod yn rhywbeth na fyddai '*wedi gallu ei gyflawni pe na bai wedi cael mynediad at gymorth lles'*. Mae hefyd wedi gwneud ffrindiau newydd, sydd, meddai, wedi ei helpu i deimlo ei fod yn cael ei '*dderbyn*'. Mae Joe bellach yn bwriadu cwblhau cwrs coleg, ac mae'n dweud ei fod yn teimlo'n *'hapusach o lawer*'.

**Mae'r Gwasanaeth Ailgartrefu ac Atal (RAP) yn darparu cefnogaeth therapiwtig uniongyrchol i Ofalwyr Maeth a Mabwysiadwyr sy'n rheoli ymddygiadau cymhleth iawn a theuluoedd sydd ar bwynt chwalu oherwydd gwrthdaro. Yr amcan yw lleihau nifer y plant sydd mewn gofal, lleihau'r angen am leoli plant y tu allan i'r sir ac i gefnogi datblygiad darpariaeth gofal lleol o ansawdd uchel ar gyfer plant Gwynedd.*



## Beth oedd ein bwriadau yn ôl yr adroddiad diwethaf, a sut llwyddon i gyrraedd hyn?

**Gweithredu newidiadau yn sgil adolygiad "Ffordd Gwynedd" yr Adran Plant ac Adran Addysg...**

Bu cryn waith ar y cydweithio rhwng yr adrannau ar ddechrau'r flwyddyn a datblygwyd cyd-ddealltwriaeth mewn sawl maes. Bu peth oedi yn yr adolygiad yn sgil ymadawiad y cyn-gyfarwyddwraig a bwriedir ailgychwyn ar y gwaith yn ystod y flwyddyn nesaf.

**Ymestyn y ddarpariaeth Dechrau'n Deg...**

Mae Dechrau'n Deg yn rhaglen a ariennir gan Lywodraeth Cymru er mwyn cefnogi teuluoedd mewn rhai ardaloedd difreintiedig gyda magu plant a rhiantu, datblygiad iaith a lleferydd plant, a chefnogaeth iechyd a gofal.

Mae'r broses o ehangu **Dechrau'n Deg** yn digwydd yn raddol. Mae'r **Gwasanaeth Blynyddoedd Cynnar** wedi rhoi Cam 1 ar waith ers mis Medi 2022 mewn rhannau ychwanegol o Dregarth a Bethesda a Blaenau Ffestiniog, gyda 73 plentyn ychwanegol yn elwa. Bydd Cam 2 yr ehangu yn cychwyn ym mis Ebrill ac yn cynnwys ymestyn y cynnig gofal plant i ragor o ardaloedd yng Nghaernarfon, Dyffryn Nantlle, Pwllheli, Porthmadog, Abermaw, Y Bala a Bro Ffestiniog.

Mae'r rhaglen wedi amlygu'r angen i edrych ar gynaladwyedd y sector gofal plant a bydd gwaith adolygu'r ddarpariaeth ar draws y sir yma yn mynd yn ei flaen yn ystod y cyfnod nesaf.

**Gweithredu Strategaeth "Dim Drws Anghywir"...**

Yng ngwanwyn 2022, bu i'r Cabinet dderbyn y strategaeth ranbarthol 'Dim Drws Anghywir' oedd yn ymateb i adroddiad gan Gomisiynydd Plant Cymru yn galw am drawsnewid y ffordd y mae gwasanaethau yn gweithio gyda'i gilydd i gefnogi plant a phobl ifanc sydd angen cefnogaeth fel nad ydynt yn syrthio rhwng dwy stôl, yn aros ar restrau aros am gyfnodau hirfaith ac yna'n cael gwybod eu bod ar y rhestr anghywir.

Mae'r Strategaeth yn cyd-fynd ag egwyddorion yr **Adran Plant** ac yn rhan o'n trefniadau ar gyfer datblygu'r ffordd y mae'r gwasanaeth yn cryfhau'r trefniadau drws ffrynt, y mynediad at wasanaethau, a'r agwedd o gynnig ymyraethau cynnar ac ataliol i osgoi problemau rhag gwaethygu. Gwelir fod **Hwb Teulu Gwynedd** a'r **Tîm o Amgylch y Teulu** a sefydlwyd rai blynyddoedd yn ôl yn enghreifftiau da o hyn.

Dros y pum mlynedd nesaf gweithiwn o fewn y Strategaeth i gryfhau ein gallu i ymestyn ein gwasanaethau i fod yn fwy integredig gyda'n partneriaid.

***Beth yw ein cynlluniau ar gyfer 2023/24 a thu hwnt?***

1. Datblygu darpariaeth breswyl i blant mewn gofal mewn cartrefi grŵp bychan.





# 6 Gweithio gyda phobl a'u cefnogi i gyflawni gwell lles economaidd, cael bywyd cymdeithasol a byw mewn llety addas sy'n bodloni eu hanghenion

**168**



TŶ WEDI EI ADDASU AR GYFER UNIGOLION AG ANABLEDDAU CORFFOROL



**843**

O FÂN ADDASIADAU, MEGIS GOSOD CANLLAWIAU, RAMPIAU SYMUDOL AC ADDASIADAU BYCHAIN ERAILL



**£1.3M**

O FUDDSODDIAD AR GYNLLUNIAU MEGIS CREU YSTAFELLOEDD YMOLCHI HYGYRCH, GOSOD RAMPIAU Y TU ALLAN I'R TŶ, CODI ESTYNIADAU

**28** O OEDOLION GYDAG ANABLEDDAU DYSGU MEWN GWAITH CYFLOGEDIG



**12** O UNIGOLION GYDAG ANABLEDD DYSGU LLE MAE EU ANGHENION LLETYA WEDI DIWALLU

DARPARWYD LLETY DROS DRO AR GYFER **542** O DEULUOEDD / UNIGOLION DIGARTREF

> *Gofynnais i therapydd galwedigaethol ddod i asesu fy ngŵr, sydd mewn oed ac wedi cael strôc. O fewn ychydig wythnosau roedd wedi cael ymweliad ac roedd cais wedi ei wneud i godi lefel step y drws ffrynt a gosod canllawiau newydd a reiliau er mwyn galluogi fy ngŵr i deimlo'n fwy diogel yn symud o gwmpas ac iddo gael ychydig o annibyniaeth yn ôl. Eto, o fewn mis roedd y gwaith wedi ei wneud. Dynion ifanc cwrtais ddaru drafod pob cam o'r gwaith efo ni. Diolch yn fawr, mae hyn yn cael ei wir werthfawrogi yn yr amseroedd anodd yma.*

## Sylwadau'r Cyfarwyddwr

Ceir urddas drwy waith. Galluoga'n **Tîm Darparu a Datblygol Anabledd Dysgu** i unigolion dderbyn hyfforddiant a chefnogaeth i ganfod gwaith addas ac i gael eu cyflogi yn ein cymunedau. Defnyddir lleoliadau megis Cegin Arfon a Galwch Acw i annog unigolion ac i roi hwb a hyder iddynt mewn cymdeithas.

I hyrwyddo a galluogi byw'n annibynnol mae llety addas yn hanfodol. Nodwyd ein bwriad i ddatblygu cartrefi gofal bychan i blant ym mhennod Safon Ansawdd 5, a gwyddwn fod anghenion lletya yn newid wrth i unigolion fagu teulu, mynd yn hŷn neu brofi dirywiad yn eu hiechyd. Ni ddylai pobl orfod newid cartrefi dim ond oherwydd eu bod yn heneiddio, a dylai pawb gael y dewis i aros lle maen nhw, pan mae hyn yn bosibl. Darpara ein **Huned Addasiadau i Dai** addasiadau prydlon i hyrwyddo hyn.

Anochel yw angen rhai am gefnogaeth lletya mwy dwys. Eleni, siomedig yw adrodd y bu oedi yn ein gallu i ehangu'n darpariaeth Tai Gofal Ychwanegol ac mae hynny wedi arwain at heriau ychwanegol i rai unigolion bregus. Fy mwriad yw amlygu ein rhwystrau gyda'r datblygwyr ar frys.

Pwysig hefyd yw ymestyn ein darpariaeth tai â chymorth ar gyfer unigolion ag anableddau dysgu. Mae'r **Gwasanaeth Anabledd Dysgu** yn cynllunio yn hirdymor er mwyn adnabod angen lletya yr unigolion maent yn eu cefnogi, ac mae prosiectau ar y gweill i adnewyddu tai ac adeiladu o'r newydd i ddarparu llety addas i helpu unigolion i fyw yn fwy annibynnol.

# Stori Gwenno

*Mae Gwenno wedi derbyn cefnogaeth gan y Gwasanaeth Anabledd Dysgu, a bellach mewn cartref diogel ac yn cael ei chyflogi ...*

Symudodd Gwenno i fyw i dŷ â chymorth tua 10 mis yn ôl. Fel rhan o'i llwybr at fyw yn fwy annibynnol, mae Gwenno wedi llwyddo i gael gwaith mewn golchdy prysur ac yn gweithio chwe awr dros dri diwrnod, gyda staff o'r tŷ yn ei chefnogi yno.

Mae Gwenno yn derbyn £11.00 yr awr am weithio yn y golchdy ac mae'r cyflogwr yn caniatáu iddi weithio yn ystod y cyfnodau distaw fel nad oes pwysau arni i gyrraedd targedau yn yr un modd â gweithwyr mewn cyfnodau prysur. Ar ddechrau'r cyfnod, roedd y staff yn ei helpu yn yr ystafell waith ond, fel mae ei hyder wedi cynyddu, maent wedi gadael yr ystafell am gyfnodau byr. Y gobaith yw y bydd Gwenno yn hapus a chyfforddus i gael ei gadael yno ar ei phen ei hun yn y dyfodol.

Mae'r newid yn Gwenno yn amlwg; mae ganddi synnwyr o hunaniaeth, yn teimlo ei bod yn rhan o rywbeth, ac mae ei hunan barch a'i hunan hyder wedi cynyddu. Mae'r cyflogwr ei hun yn teimlo ei fod wedi cael profiad positif o gyflogi unigolyn efo anabledd dysgu ac mae ei gwaith yr un mor bwysig ag unrhyw weithiwr arall yno.



## Beth oedd ein bwriadau yn ôl yr adroddiad diwethaf, a sut llwyddon i gyrraedd hyn?

**Datblygu Unedau ychwanegol er mwyn mynd i'r afael â digartrefedd yng Ngwynedd ...**

Mae achosion digartrefedd yng Ngwynedd wedi bod ar gynnydd dros y blynyddoedd diwethaf, sy'n golygu bod defnydd y Cyngor o lety dros dro hefyd wedi codi. Ochr yn ochr â hyn, mae diffyg stoc tai cyffredinol yn y sir sy'n atal unigolion digartref rhag canfod cartref parhaol.

Hyd yma, mae gwaith wedi ei gwblhau ar Tŷ Adferiad, sef llety â chymorth arbenigol i ferched ym Mhorthmadog, ac uwchraddio Hostel Noddfa yn Neiniolen er mwyn gwneud y llety'n fwy addas ar gyfer unigolion a theuluoedd digartref.

Mae gwaith ar y gweill ar sawl safle pellach gan gynnwys Glan Wnion, Dolgellau (5 uned), Ffordd y Coleg, Bangor (3 uned), Ffordd yr Ala, Pwllheli (2 uned) a Stryd Fawr Bangor (12 uned).

**Darpariaeth Cartref Nyrsio ym Mhenyberth ...**

Ers i hen Gartref Nyrsio Penrhos gau ddiwedd 2020 nid oes darpariaeth o welyau nyrsio yn ardal Llŷn. O ganlyniad, mae rhai trigolion yn cael eu lleoli yn bell o'u teulu a'u cartref. Yn ddiweddar, daeth yn gyfreithiol bosib i gynghorau sir ddarparu gofal nyrsio eu hunain.

Yn mis Mawrth 2023, fe gymeradwyodd y Cabinet achos busnes strategol ar gyfer datblygu Penyberth, Penrhos fel safle i ddarparu gofal nyrsio. Dyma gynllun sy'n torri tir newydd ac yn gam tuag at wireddu'r uchelgais o ddarparu gofal a chefnogaeth o safon uchel yn y lle iawn ar yr amser iawn.

Bydd yr **Adran Oedolion** (mewn partneriaeth â'r Bwrdd Iechyd) yn bwrw ymlaen i wneud cais am arian Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r safle.

***Beth yw ein cynlluniau ar gyfer 2023/24 a thu hwnt?***

1. Agor y ddarpariaeth Tai Gofal Ychwanegol ym Mhwllheli, a pharhau gyda'r gwaith o adnabod cyfleon am ddatblygiadau tebyg mewn rhannau eraill o'r sir gyda blaenoriaeth i ardaloedd Dolgellau a Chaernarfon.
2. Ychwanegu at yr opsiynau llety addas ar gyfer unigolion ag Anableddau Dysgu i annog byw yn annibynnol yn hytrach nag ariannu lleoliadau all-sirol, gan edrych yn benodol ar ddatblygu safle Frondeg, Caernarfon.
3. Parhau i edrych am opsiynau i ehangu'r ddarpariaeth dementia yn ein cartrefi ymhellach
4. Datblygu a gweithredu ar achos busnes safle Penyberth er mwyn datblygu gwelyau nyrsio ar y cyd â'r Bwrdd Iechyd, yn ogystal ag ystod eang o ddarpariaeth llety â gofal.
5. Peilota cynllun newydd o'r enw 'Rhannu Cartref' sy'n deillio o'r cynllun cenedlaethol 'Homeshare UK'.







# Sut rydym yn gwneud ein gwaith?

## Ein Gweithlu

Gall ddarparu gofal, gwaith cymdeithasol, therapi galwedigaethol, a threfnu gwasanaethau cymdeithasol fod yn heriol ac anodd i'n gweithlu.  Serch hynny, ceir cryn foddhad o wneud y fath waith ac o wybod ei bod yn bosibl i bobl wella eu sefyllfa drwy'r galluogi a wneir. Mae Gwynedd yn ffodus iawn o gael gweithlu rhagorol, ymroddedig a gofalgar ac mae ein diolch iddynt.

Lleihaodd y nifer o swyddi gwag yn yr **Adran Oedolion** o fis Medi 2022 (12% = 113 swydd) i **91** swydd wag ar ddiwedd Ionawr 2023, **65** ohonynt yn swyddi gofal neu waith cefnogol. Er y gwelliant, pery heriau sylweddol ynglŷn â recriwtio a chadw'r gweithlu.

Ar ddiwedd Ionawr 2023 hefyd roedd **16** o swyddi'n wag yn yr **Adran Plant**. Rhwng y ddwy adran roedd naw swydd gwaith cymdeithasol yn wag. O'r herwydd, cyfyd sawl her a risg gan roi pwysau ychwanegol drwy orfodi blaenoriaethu gwaith dydd i ddydd heb roi digon o amser i arloesi a datblygu.



SWYDDI GWAG (IONAWR 2023):

**91** YN YR ADRAN OEDOLION

**16** YN YR ADRAN PLANT

Gwyddom fod yr heriau am gynyddu wrth i'r rhagfynegiadau demograffeg awgrymu y bydd llai o bobl oedran gwaith yng Ngwynedd tra bydd mwy o bobl hŷn ag anghenion gofal yma.

Er mwyn gwella'r sefyllfa cynhaliwyd ymgyrchoedd recriwtio rheolaidd ar draws y sir. Amrywiol yw'r canlyniadau. Cefnoga'r Cyngor hyfforddeion gwaith cymdeithasol a therapi galwedigaethol mewn partneriaeth â Phrifysgol Bangor, y Brifysgol Agored a Phrifysgol Glyndŵr Wrecsam.

Lansiwyd fideo arbennig a grymus i hyrwyddo gwaith gofalu yng Ngwynedd er mwyn hybu'r ymdrechion recriwtio.  Ar yr un pryd gwnaed gwaith i adolygu swydd ddisgrifiadau a chyflogau gweithwyr gofal a gyflogir gan y Cyngor gan fwriadu ei roi ar waith yn 2023/24.  Yn yr un modd dechreuwyd grŵp gorchwyl a gorffen i ystyried lefelau cyflog gweithwyr cymdeithasol a therapyddion galwedigaethol a bwriedir iddo gyflwyno argymhellion yn 2023/24.



## Yr iaith Gymraeg

Angen yw gwasanaeth mewn iaith gyntaf, ac nid dewis. Mae'n hanfodol ein bod yn sicrhau darpariaeth ddwyieithog i'n trigolion.

Nid hawdd yw sicrhau bod ein gweithlu'n ddwyieithog pan ei bod yn anodd recriwtio gweithwyr cymwys.  Felly mae'n bwysig ein bod yn sefydlu gweithdrefnau priodol i hwyluso'r Cynnig Rhagweithiol. Disgwyliwn i'n gwasanaethau ddarparu'r Cynnig Rhagweithiol, sef darparu gwasanaeth yn Gymraeg heb i rywun orfod gofyn amdano, ar bob achlysur. Yng Ngwynedd, mae ein grŵp mewnol **Mwy na Geiriau** yn cyfarfod yn fisol i weithio tuag at gyflawni'r nod yma. Rydym yn paratoi mesurau perfformiad ar y Cynnig Rhagweithiol a gobeithiwn allu adrodd arnynt yn adroddiad y flwyddyn nesaf.

Mae defnyddio ein dylanwad yn bwysig. Roedd y cyn-gyfarwyddwraig yn arwain ar **Mwy Na Geiriau** yn genedlaethol ac yn rhanbarthol gan alluogi cynnydd sylweddol mewn darpariaeth ar draws gwlad. Enghraifft arall yw ein bod wedi gwrthod croesawu arolygwyr **Cyfiawnder Ieuenctid** gan nad oeddent yn gallu sicrhau arolygwyr dwyieithog, a'u bod wedi cytuno i oedi eu harolwg nes bod hynny'n bosibl.

Mae cefnogaeth barhaus ar gael i aelodau staff ddysgu Cymraeg drwy wahanol ddulliau a chyrsiau at bob lefel o allu a hyfedredd. Bu i **24** aelod o staff o'r **Adran Oedolion** a'r **Adran Plant** elwa o'r adnodd dysgu Cymraeg yn ystod y flwyddyn.

> *Mi wnes i dechrau weithio i Gyngor Gwynedd yn 2020 ar ddechrau'r pandemig. Ro'n i symud i'r ardal yn ddiweddar ac ro'n i'n therapydd galwedigaethol wrth fy modd efo dros 30 mlynedd mewn Gofal Cymdeithasol…(mae'r) Cyngor wedi talu i mi fynychu cwrs dechreuwyr Cymraeg wyneb yn wyneb ar unwaith yr wythnos. Mae cefnogaeth wych hefyd gyda Sesiwn Sgwrsio wythnosol a sesiynau anffurfiol efo tiwtor a dysgwyr eraill. Dw i wedi bod yn lwcus i fynd i Nant Gwrtheyrn am wythnos o Gymraeg dwys ac yn bwriadu cael wythnos arall yno ar lefel ganolradd. Edrychaf ymlaen  fynd i'r Ysgol Haf yn y Bala fis nesaf a magu mwy o gyfle a hyder i siarad Cymraeg.*
>
> **- Rachel Richardson-Wright, therapydd galwedigaethol**

## Cyllid

Ni fu'n flwyddyn hawdd yn ariannol i'r gwasanaethau cymdeithasol a disgwylir i'r argyfwng costau byw a chwyddiant roi pwysau sylweddol ar ein darparwyr gofal a chostau'r gwasanaeth.

Ym mlwyddyn 2022/23 roedd cyllideb net yr **Adran Plant** yn **£21 miliwn** a bu gorwariant o **£76,000**.






Mae hon yn sefyllfa ariannol iachach i'r **Adran Plant** nag a fu ers rhai blynyddoedd a phrif reswm y gorwariant oedd pecynnau gofal newydd a dwys.

CYLLIDEB 2022/23:

ADRAN PLANT

**£21M**

ADRAN OEDOLION

**£66M**

Cyllideb net yr **Adran Oedolion** am y flwyddyn oedd **£66 miliwn**, ond bu pwysau ychwanegol ar y gwasanaeth yn gyfwerth â **£3.9 miliwn.** Y prif bwysau ariannol oedd costau ychwanegol cartrefi nyrsio allanol, costau'r gwasanaeth anabledd dysgu, a chostau darparu gofal yn y gymuned a mewn cartrefi preswyl. Rhan arall o'r gorwariant oedd na lwyddwyd i wireddu gwerth **£921,000** o arbedion adrannol. Defnyddiodd yr adran y cronfeydd nad oedd wedi eu hymrwymo, gyfwerth a **£1miliwn**.

Gwnaed defnydd helaeth o grantiau cenedlaethol gan y ddwy adran, yn enwedig y Grant Gweithlu Gofal Cymdeithasol gan Lywodraeth Cymru a'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol, er mwyn datblygu'n gwasanaethau mewn modd arloesol ac mewn partneriaethau. Derbyniwyd arian cyfalaf hefyd o'r gronfa hon ar gyfer addasu swyddfeydd timau integredig. Darparodd Llywodraeth Cymru hefyd arian cyfalaf gwerth **£177,000** ychwanegol ar gyfer y cynllun **Dechrau'n Deg** a **Gofal Plant.**

Oherwydd sefyllfa ariannol gwasanaethau cyhoeddus rhagwelir pwysau sylweddol eto ar gyfer 2023/24 ac eisoes cytunwyd ar leihad mewn nifer fawr o gyllidebau ar draws y ddwy adran. Daw heriau gyda hynny a bwriedir adolygu sefyllfa ariannol yr **Adran Oedolion** yn ei gyfanrwydd yn ystod y flwyddyn a ddaw.

## Arweinyddiaeth Wleidyddol a Chorfforaethol, Llywodraethu ac Atebolrwydd

Saif trefniadau llywodraethu cadarn i gefnogi rheolaeth effeithiol o'r gwasanaethau cymdeithasol. Yn ogystal â chyflwyno adroddiadau i Bwyllgorau Craffu, i'r Cabinet ac i'r Cyngor Llawn, defnyddiwn strwythur herio perfformiad adrannol bob yn ail mis.

Cynhelir sgyrsiau un-i-un rheolaidd rhwng y Penaethiaid Adran Plant ac Oedolion a minnau, yn ogystal â chyfarfod 'Tîm Arwain Gofal' pob dau fis i drin a thrafod unrhyw faterion polisi cenedlaethol, rhwystrau, risgiau a dathlu llwyddiannau.

Ar ôl etholiadau mis Mai 2022, fe benodwyd y Cynghorydd Dilwyn Morgan fel Aelod Cabinet ar gyfer Oedolion, Iechyd a Llesiant, a'r Cynghorydd Elin Walker fel Aelod Cabinet ar gyfer Plant a Chefnogi







Teuluoedd. Dirprwy Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Nia Jeffreys, sy'n arwain ar Gefnogi Pobl, gan sicrhau parhad y rhaglen fel blaenoriaeth uchel ar draws holl adrannau'r Cyngor.

Ym mis Medi 2022, fe gynhaliodd Arolygiaeth Gofal Cymru Arolygiad Gwerthuso Perfformiad ar ein gwasanaethau oedolion, ac nid oedd yn syndod fod heriau staffio, galw uwch am wasanaethau, rhestrau aros iechyd meddwl a niwro-ddatblygiad wedi eu nodi fel rhai o'r prif risgiau. Defnyddiwyd yr adborth a'r argymhellion a dderbyniwyd i ddatblygu ein rhaglen waith. Yn ystod mis Mawrth 2023, fe gynhaliwyd Adolygiad Cyflym Amddiffyn Plant ac roedd yr adborth yn hynod gadarnhaol ac yn dangos ansawdd y gwaith a wneir.

Yn anffodus, mae rhai achosion yn codi pan fydd pethau'n mynd o'i le ac nad ydym yn darparu gwasanaeth o'r safon uchel ddisgwyliedig. Mae trefn gwynion statudol yn ei lle er mwyn sicrhau ein bod yn derbyn adborth, ac yn ymateb i unrhyw bryderon fel nad ydym yn ail-adrodd camgymeriadau. Cyfeiriwyd eisoes at brif dueddiadau cwynion y flwyddyn yma yn yr adroddiad, a bydd crynodeb swyddogol yn ymddangos ger bron y Pwyllgor Craffu Gofal ym mis Medi 2023. Bwriedir gosod ein hadroddiad cwynion a sylwadau ar y we yn y dyfodol fel eu bod ar gael i'r cyhoedd eu darllen.

## Partneriaeth

Ni all gwasanaethau cymdeithasol fod yn effeithiol heb weithio yn agos gyda phartneriaid yn y gwasanaethau cyhoeddus, y trydydd sector, grwpiau cymunedol, busnesau a darparwyr gofal.

Cryfhaodd ein cydweithio mewnol gyda'r **Adran Addysg** yn y Cyngor yn ystod y cyfnod a cadarnhaol oedd gweld nodi gwaith da ar y cyd gyda **Heddlu Gogledd Cymru** gan Arolygaeth Gofal Cymru. Tra bod heriau o bryd i'w gilydd, ar y cyfan deil perthynas iach a chryf gyda'n partneriaid yn lleol.

O fewn y Cyngor datblygodd y cydweithio rhwng y gwasanaethau cymdeithasol a'r **Adran Tai ac Eiddo** a bwriedir cryfhau hynny ymhellach dros y flwyddyn sydd i ddod drwy weithio ar brosiectau penodol ac wrth ddatblygu asesiad o'r anghenio tai â gofal am yr 20 mlynedd nesaf.

Datblygiad cadarnhaol yn ystod y flwyddyn ydi'r **Hybiau Cefnogi Pobl** a sefydlwyd mewn sawl ardal. Dyma ymdrech i gefnogi grwpiau cymunedol i sicrhau bod cymorth ar gael i bobl yn lleol mewn modd cydlynol. Mae cynnal gwasanaethau ataliol a chymunedol fel hyn yn gwbl hanfodol er mwyn diogelu iechyd a llesiant ein trigolion a lleihau'r galw ar ein gwasanaethau statudol.

Daw nerth ychwanegol i'n gwaith drwy gydweithio gyda **Mantell Gwynedd** a'r trydydd sector. Cyfranna'r **Grŵp Cyswllt Trydydd Sector** at gydweithio effeithiol a chynhelir cyfarfodydd rheolaidd i rannu arferion da ac edrych ar ffyrdd i gronni adnoddau. Fel cyfarwyddwr newydd fy mwriad yn ystod 2023/24 yw ymweld â rhai o'r sefydliadau trydydd sector er mwyn cael gwell blas ar y gwaith sy'n mynd yn ei flaen o ddydd i ddydd a rhai o'r heriau sy'n eu wynebu.

Ar lefel strategol rydym yn aelod o sawl fforwm rhanbarthol. Ein Haelod Cabinet ar gyfer Oedolion, Iechyd a Llesiant, y Cynghorydd Dilwyn Morgan yw cadeirydd **Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru,** sy'n dod â byrddau iechyd, awdurdodau lleol a'r trydydd sector at ei gilydd i gynllunio'n strategol ar ofal a chymorth pobl yr ardal. Ym mis Mawrth 2023 cyhoeddwyd Cynllun Rhanbarthol y Gogledd 2023-28 a bydd hwn yn llywio gwaith y Bartneriaeth dros y blynyddoedd nesaf.

Er mwyn sicrhau deilliannau cadarnhaol i bobl Gwynedd mae partneriaeth glos gyda **Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr** yn hollbwysig. Bwriedir aildanio'r cydweithio ar ein **Timau Adnoddau Cymunedol** integredig i gydweithio gyda chlystyrau gofal cynradd dros y flwyddyn sydd i ddod.

# DOLENNI A GWYBODAETH BELLACH

Mae'r adran olaf hon yn rhestru lleoedd i gael mwy o wybodaeth am rai o'r pethau y sonnir amdanyn nhw yn yr adroddiad hwn.

- Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-38
- Adroddiad Perfformiad Cyngor Gwynedd (2022/23 i ddilyn yn yr hydref)
- Trefn gwynion a chanmoliaeth
- Polisi Iaith
- Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn
- Pwyllgor Craffu Gofal
- Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru
- Asesiad o Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru
- Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn
- Arolygaeth Gofal Cymru
- Dewis Cymru

Eitem 9

# CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod o Gyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **6 Gorffennaf 2023** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Adroddiad Blynyddol Craffu 2022-23** |
| **Aelod:** | **Y Cynghorydd Beth Lawton, Cadeirydd y Fforwm Craffu** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Ian Jones, Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth (Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol)** |

**Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

Derbyn yr adroddiad.

**CEFNDIR A RHESYMEG**

1. Yn unol â'r cyfansoddiad, fe gyflwynir adroddiad i gyfarfod o'r Cyngor yn ymhelaethu ar y gwaith craffu a wnaed yn ystod y flwyddyn.

2. Mae'r adroddiad sydd yn rhoi trosolwg o'r gwaith craffu a wnaed yn ystod 2022-23, wedi ei rannu o dan y penawdau yma:
    - Pwyllgorau Craffu
    - Gweithdai Craffu
    - Fforwm Craffu
    - Eitemau Craffu
    - Blaengraffu
    - Ymchwiliad Craffu
    - Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
    - Herio Perfformiad
    - Ffeithiau am Graffu yng Ngwynedd yn 2022/23

3. Gyda phwyslais cynyddol yn cael ei roi ar asesu effaith gwaith craffu, canolbwyntiwyd ar yr eitemau craffu lle ychwanegwyd gwerth drwy'r gwaith craffu. Mae rhestr o'r holl eitemau a graffwyd mewn cyfarfodydd ffurfiol yn ystod y flwyddyn wedi ei gynnwys fel atodiad i'r adroddiad blynyddol.

4. Crëwyd fersiwn cryno o'r adroddiad gyda'r bwriad iddo gyflwyno gwaith craffu 2022-23, mewn modd hawdd i'w ddarllen a chryno.

**ATODIADAU:**

Atodiad 1 – Adroddiad Blynyddol Craffu 2022-23
Atodiad 2 – Fersiwn Cryno

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

Trafodwyd cynnwys posib yr Adroddiad Blynyddol yng nghyfarfod y Fforwm Craffu ar 15 Mai 2023. Rhannwyd yr adroddiad drafft gydag aelodau'r Fforwm Craffu i dderbyn eu sylwadau.

## SYLWADAU'R SWYDDOGION STATUDOL

**Swyddog Monitro:**

Mae'r pwyllgorau trosolwg a chraffu yn rhan greiddiol o drefniadau llywodraethu'r Cyngor. Mae'r adroddiad yn adlewyrchu ystod y gwaith mae'r pwyllgorau yn ei gyflawni a hefyd yn cadw trosolwg o waith y Cabinet. Rwy'n fodlon fod yr hyn a gyflwynir yn dangos fod y rôl yma yn cael ei chyfarch yn briodol.

**Swyddog Cyllid Statudol:**

Credaf fod yr adroddiad yma yn adlewyrchiad teg o'r gwaith craffu eang a manwl a gyflawnwyd yn ystod 2022/23. O safbwynt materion cyllid, gallaf gadarnhau fod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi rhoi sylw i graffu materion ariannol yn ystod y flwyddyn fel rhan o'r gweithdrefnau sefydlu cyllideb a monitro gwariant.

Nid yw'r adroddiad yn creu ymrwymiad gwariant ychwanegol.

# ADRODDIAD BLYNYDDOL CRAFFU 2022/23



# Rhagair


Bu'n flwyddyn brysur, gydag aelodau profiadol yn dychwelyd yn dilyn Etholiad Mai 2022 ynghyd â nifer o aelodau newydd yn cael eu hethol. Cymerwyd y cyfle yng ngweithdai blynyddol y Pwyllgorau Craffu i aelodau'r pwyllgorau unigol i ymgyfarwyddo gyda rôl craffu a sut gall aelodau craffu ychwanegu gwerth.

Mae'r adroddiad yma yn crynhoi'r gwaith craffu a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn, gan ganolbwyntio ar y prif waith craffu ac ymhelaethu ar eitemau a graffwyd mewn cyfarfodydd ffurfiol o'r Pwyllgorau Craffu.

Gellir gweld rhestr o'r holl eitemau a graffwyd mewn cyfarfodydd ffurfiol yn ystod y flwyddyn mewn atodiad i'r adroddiad yma.

Cynhaliodd Archwilio Cymru adolygiad o effeithiolrwydd craffu yn ystod Chwefror 2023 - Ebrill 2023. Bu iddynt edrych ar ein trefniadau craffu gyda'r adolygiad yn gofyn y cwestiwn: 'A oes gan y Cyngor drefniadau effeithiol ar gyfer craffu mewn pwyllgorau cyhoeddus?'. Rydym yn disgwyl yn eiddgar am ganfyddiadau'r adolygiad a byddwn yn eu defnyddio i wella ein swyddogaeth craffu.

Mae craffu fwyaf effeithiol pan fo aelodau yn gweithio fel tîm. Hoffwn ddiolch i fy nghyd-gadeiryddion ac is-gadeiryddion a'r holl aelodau craffu am eu gwaith a'u hymroddiad yn ystod y flwyddyn. Mae ein diolch yn fawr hefyd i drigolion Gwynedd, Aelodau Cabinet, asiantaethau eraill a swyddogion perthnasol sy'n ein cefnogi i geisio sicrhau cyrraedd ein nod.



Cynghorydd Beth Lawton,

Cadeirydd y Fforwm Craffu

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Pwyllgorau Craffu | 3 |
| Gweithdai Craffu | 4 |
| Fforwm Craffu | 5 - 6 |
| Eitemau Craffu | 7 - 11 |
| Blaengraffu | 12 |
| Ymchwiliad Craffu | 13 |
| Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 | 13 |
| Herio Perfformiad | 14 |
| Ffeithiau am Graffu yng Ngwynedd yn 2022/23 | 15 |

Atodiad

| | |
|---|---|
| Rhestr o'r holl eitemau a graffwyd mewn cyfarfodydd ffurfiol yn ystod y flwyddyn | 16 - 17 |

# Pwyllgorau Craffu

Mae tri phwyllgor craffu yng Ngwynedd:

- Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi
- Pwyllgor Craffu Cymunedau
- Pwyllgor Craffu Gofal

Yn dilyn adolygiad o'r trefniadau craffu yn 2019, roedd rôl craffu materion corfforaethol gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Yn sgil dyfodiad Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 bu rhaid symud y cyfrifoldeb am graffu'r materion yma.

Cynhaliwyd trafodaeth mewn cyfarfod o'r Fforwm Craffu (cyfarfod cadeiryddion ac is-gadeiryddion craffu), lle daethpwyd i'r casgliad mai'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi fyddai'r cartref gorau wrth ystyried y pwysau gwaith cyfredol. Penderfynodd y Cyngor Llawn yn ei gyfarfod ar 23 Mehefin 2023 i symud rôl craffu materion corfforaethol i'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi. Bwriedir adolygu'r trefniant yn ystod 2023/24.

Gweler isod pa feysydd gwaith mae'r gwahanol bwyllgorau yn gyfrifol am ei graffu:

## Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi

Adran Addysg, Adran Economi a Chymuned, GwE, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, Tîm Arweinyddiaeth a Chyfreithiol, Adran Cefnogaeth Gorfforaethol, Adran Gyllid, Gweithrediad Mewnol y Cyngor a Partneriaethau

## Pwyllgor Craffu Cymunedau

Adran Amgylchedd, Adran Priffyrdd, Peirianneg a YGC (Ymgynghoriaeth Gwynedd), Cynllun Datblygu Lleol, Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, Trosedd ac Anrhefn a'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur

## Pwyllgor Craffu Gofal

Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd, Iechyd a'r Adran Tai ac Eiddo

Cynhaliwyd y cyfarfodydd yn aml-leoliad yn ystod 2022/23, heblaw am ddau gyfarfod a gynhaliwyd yn gyfan gwbl rithiol, sef cyfarfod y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar 20 Hydref 2022 oherwydd rhesymau diogelwch a chyfarfod y Pwyllgor Craffu Cymunedau ar 9 Mawrth 2023 oherwydd tywydd garw. Mae gan aelodau'r opsiwn i fynychu cyfarfodydd pwyllgorau craffu ffurfiol yn yr ystafell gyfarfod yn swyddfeydd y Cyngor neu o leoliad arall drwy ymuno ar Zoom.

# Gweithdai Craffu

Cynhaliwyd gweithdai i lunio rhaglen waith ddrafft ar gyfer 2022/23 ar yr un diwrnod a chyfarfodydd cyntaf y Pwyllgorau Craffu. Ar ddechrau cyfnod cyngor newydd, rhoddwyd hyfforddiant i'r aelodau craffu o ran beth yw swyddogaeth craffu a beth y dylai ei gyflawni, pwrpas craffu yng Ngwynedd, rôl aelodau, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a sut i wneud cyfraniad effeithiol i graffu.

Pwrpas craffu yng Ngwynedd yw:

**CYFRANNU AT YRRU GWELLIANT MEWN GWASANAETHAU I BOBL GWYNEDD**

Gwneir hyn yn adeiladol trwy:

- Ymchwilio i bryderon am ansawdd ein gwasanaethau
- Weithredu fel Ffrind Critigol yn sicrhau fod sylw priodol yn cael ei roi i lais y dinesydd
- Adnabod ymarfer da a gwendidau
- Dal y Cabinet a'i aelodau i gyfrif
- Adolygu neu graffu penderfyniadau neu weithredoedd nad ydynt yn gyfrifoldeb y Cabinet

Cadwyd hyn mewn cof wrth flaenoriaethu eitemau i'w craffu yn ystod 2022/23.

Anfonwyd rhestr o eitemau posib i'w craffu ymlaen llaw at aelodau'r pwyllgor craffu perthnasol. Rhannwyd yr aelodau i ystafelloedd trafod er mwyn ystyried yr eitemau posib mewn grwpiau llai. Gofynnwyd i'r aelodau adnabod eu prif flaenoriaethau o'r rhestr o eitemau posib a rhoddwyd cyfle i aelodau awgrymu eitemau posib arall.

Dyma'r ffactorau a ystyriwyd wrth flaenoriaethu'r eitemau:

- A yw'r mater yn effeithio ar gyfran helaeth o'r boblogaeth?
- A yw craffu yn gallu gwneud gwahaniaeth / cael dylanwad? (Pobl / gwasanaeth / perfformiad)
- A yw'r mater yn amserol i'w graffu?
- Ydi'r mater yn flaenoriaeth i'r Cyngor?
- A ydym yn glir beth ydym yn ceisio ei wella?

Cynhaliwyd trafodaethau agored yn dilyn adrodd yn ôl o'r grwpiau gydag anghytuno o ran blaenoriaethu rhai eitemau yng Ngweithdy'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi. Daethpwyd i gonsensws ar yr eitemau yma ar sail barn y mwyafrif.

Gwahoddwyd y Penaethiaid ac Aelodau Cabinet perthnasol i ymuno i adnabod unrhyw fater oedd angen ystyriaeth yng nghyd-destun y materion a flaenoriaethwyd ac o ran amseru'r craffu.

Roedd gan bob pwyllgor rhaglen waith ddrafft ar ddiwedd y gweithdy. Manylir ar y camau nesaf o dan y pennawd 'Fforwm Craffu'.

# Fforwm Craffu

Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu yw aelodau'r Fforwm Craffu. Mae'r Fforwm yn cymryd trosolwg o holl waith craffu'r Cyngor gyda'r aelodau yn herio naill a'r llall i sicrhau fod y materion cywir yn cael eu blaenoriaethu.

**Rôl y Fforwm Craffu yw:**

- Cynghori ar FLAENORIAETHU eitemau i'w craffu (mwyafrif yn craffu ffurfiol gyda nifer fechan o ymchwiliadau) gan herio sail adnabod eitemau i'w craffu.
- Adnabod y dull craffu mwyaf effeithiol o fewn yr adnoddau sydd ar gael (craffu ffurfiol/ymchwiliad)
- Adnabod eitemau sydd er gwybodaeth, gan geisio osgoi defnyddio trefniadau craffu i gyflawni'r rôl rhannu gwybodaeth.
- Asesu cyfraniadau'r pwyllgorau unigol ac asesu EFFAITH y gwaith craffu, gan adolygu ein trefniadau craffu yn barhaus.

Etholwyd cadeiryddion ac is-gadeiryddion ar gyfer 2022/23 yng nghyfarfod cyntaf y pwyllgorau craffu. Dyma'r cadeiryddion ac is-gadeiryddion fesul pwyllgor:

**Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi**



Cynghorydd Beth Lawton



Cynghorydd Cai Larsen

**Pwyllgor Craffu Cymunedau**



Cynghorydd Elin Hywel



Cynghorydd Kim Jones

**Pwyllgor Craffu Gofal**



Cynghorydd Eryl Jones-Williams



Cynghorydd Linda Ann Jones

Yng nghyfarfod cyntaf y Fforwm ar 25 Gorffennaf 2022, cyflwynwyd gwybodaeth am rôl y Fforwm, trafodwyd rôl craffu yn y trefniadau hunanasesiad perfformiad, cymerwyd trosolwg o'r flaenraglen craffu drafft a rhoddwyd sylw i bryderon aelodau o ran llwyth gwaith y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi.

Wrth ystyried y flaenraglen ddrafft, gwahoddwyd y Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion i ymhelaethu ar gynnwys blaenraglen eu pwyllgor perthnasol. Cafwyd trafodaeth am yr eitemau a flaenoriaethwyd. Roedd y Fforwm yn gefnogol i'r flaenraglen craffu ac i gyflwyno rhaglen waith y Pwyllgorau unigol i'r cyfarfodydd cyntaf i'w cymeradwyo.

Yn dilyn trafod llwyth gwaith y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi yng ngoleuni'r pryderon a godwyd gan aelodau yng ngweithdy blynyddol y pwyllgor, daethpwyd i'r casgliad y dylid rhoi cyfle i weithredu'r trefniadau a'i adolygu yn amserol.

Cynhaliwyd cyd-gyfarfod o'r Fforwm a'r Cabinet ar 25 Hydref 2022 i sicrhau cyd-ddealltwriaeth o rolau gwahanol Craffu/Cabinet, rhoddwyd ystyriaeth i'r blaenraglenni gwaith a thrafodwyd trefniadau cydweithio a chyfarfodydd i'r dyfodol. Daethpwyd i'r ddealltwriaeth y dylid cynnal cyd-gyfarfod unwaith y flwyddyn a rhaglennu dau gyfarfod cyswllt fesul Aelod Cabinet / Pennaeth yn y calendr gan drefnu cyfarfodydd ychwanegol pan fo materion penodol yn codi. Roedd yn gyfarfod adeiladol ac yn gosod sylfaen ar gyfer y berthynas cyd-weithio ar gychwyn tymor y Cyngor newydd.

Yng nghyfarfod y Fforwm ar 11 Ionawr 2023, bu'r aelodau yn trafod yr adnoddau i gynnal ymchwiliadau craffu / grwpiau tasg a gorffen ynghyd â brîff ar gyfer ymchwiliad craffu posib. Ar derfyn y drafodaeth, penderfynwyd bod dau ymchwiliad craffu yn cyd-redeg yn ddigonol ar hyn o bryd ac y gellid ail-asesu'r sefyllfa yn y dyfodol pe byddai angen, defnyddir meini prawf wrth adnabod/blaenoriaethu ymchwiliadau craffu ac i flaenoriaethu ymchwiliad craffu 'Ysgolion Uwchradd Categori 3 Gwynedd'. Daethpwyd i'r casgliad bod angen amlinellu'r broses o ran adnabod/blaenoriaethu ymchwiliad craffu. Dyma'r camau fydd yn cael eu dilyn:

- Cam 1 — Adnabod mater a allai deilyngu cynnal Ymchwiliad Craffu
- Cam 2 — Ystyried y mater yn erbyn meini prawf adnabod maes gwaith ymchwiliad
- Cam 3 — Llunio brîff drafft cychwynnol
- Cam 4 — Cyfarfod Anffurfiol y Pwyllgor Craffu perthnasol i ystyried y brîff drafft a gwahodd aelodau i ddatgan diddordeb i fod yn aelod o'r ymchwiliad
- Cam 5 — Fforwm Craffu i ystyried blaenoriaethu'r ymchwiliad yng nghyd-destun yr adnoddau sydd ar gael
- Cam 6 — Os yw'r Fforwm Craffu yn blaenoriaethu'r ymchwiliad yna cyflwynir y brîff drafft gerbron y Pwyllgor Craffu perthnasol i'w gymeradwyo ac i ethol aelodau

---

Trafodwyd yn ogystal y flaenraglen gan ystyried os oedd y materion cywir wedi eu blaenoriaethu ac edrych yn ôl ar y materion a graffwyd yn y cyfarfodydd pwyllgor. Rhoddwyd ystyriaeth i frîff yr adolygiad o effeithiolrwydd craffu gan Archwilio Cymru a rôl Cadeiryddion Craffu yng ngweithdrefnau'r Cynllun Deisebau.

# Eitemau Craffu

Dyma wybodaeth am rai o'r eitemau a graffwyd yng nghyfarfodydd y Pwyllgorau Craffu yn ystod 2022/23. Mae pwyslais ar graffu yn ychwanegu gwerth yng Ngwynedd, gyda'r eitemau isod yn enghreifftiau o hyn. Gellir gweld rhaglenni a chofnodion cyfarfodydd y Pwyllgorau Craffu o dan y linc yma – www.gwynedd.llyw.cymru/craffu

## Recriwtio a chadw staff yn y maes gofal (Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant)

Mae'r sefyllfa heriol iawn o ran recriwtio a chadw staff yn y maes gofal yn fater cenedlaethol sy'n effeithio ar Awdurdodau Lleol yn ogystal â'r Gwasanaeth Iechyd, y sector breifat a'r drydedd sector. Derbyniodd y Pwyllgor Craffu Gofal ar 29 Medi 2022, ddiweddariad ar yr argyfwng staffio sy'n bodoli ac yn gwaethygu yn yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant.

Tynnodd swyddogion sylw at y rhesymau dros yr heriau a sut mae'r Adran yn ymateb i'r sefyllfa. Soniwyd am effaith y sefyllfa, gan gynnwys, rhestrau aros maith, cleifion yn methu dychwelyd adra o'r ysbytai a'r pwysau ar staff. Nodwyd bod llawer o ymdrech a gweithgaredd yn digwydd, ac er bod yr Adran wedi profi llwyddiannau bychain, nid oes eto datrysiad i'r sefyllfa sy'n peri pryder. Pwysleisiwyd bod angen edrych ar yr hyn y gellid ei wneud yn lleol a'r hyn sydd o fewn rheolaeth y Cyngor a'r Adran drwy sicrhau buddsoddiad gofalus o adnoddau presennol.



Llun: "freepik.com"

Rhai o'r sylwadau a wnaed gan aelodau wrth drafod oedd:

- Y dyletswydd ar Gynghorwyr i hyrwyddo'r swyddi yn y maes gofal i bobl leol.
- A fyddai'n bosib cynyddu'r cyswllt efo colegau a chynnig lleoliadau i fyfyrwyr?
- Y dylid annog myfyrwyr cyrsiau iechyd a gofal cymdeithasol i chwilio am gyfleoedd yn lleol a sicrhau bod hyfforddiant parhaus ar gael yn y gweithle.
- A oedd bwriad i gynyddu cyflogau gofalwyr yn y dyfodol i'w cadw yn eu swyddi?
- Balchder bod gwaith lobio yn digwydd efo'r Llywodraeth a'r angen i barhau er mwyn ceisio cael newid yn genedlaethol.
- Yn ddigalon clywed am yr argyfwng yn y maes gofal, yn enwedig bod 44% o swyddi darparu gofal rheng flaen a 34% o swyddi gwaith cymdeithasol a hysbysebwyd rhwng Ebrill a Gorffennaf heb dderbyn unrhyw gais. Holwyd sut roedd y ffigyrau yn cymharu â Siroedd eraill ac Adrannau eraill y Cyngor.
- Sut ymatebir i geisiadau gan weithwyr gofal am help? A oedd modd ysgafnhau'r baich arnynt?
- Dylai'r Adran edrych ar gyfleodd pellach e.e. cynnig swyddi rhan amser pan nid yw'n bosib llenwi swyddi llawn amser a hyfforddi staff y Cyngor i helpu ambell ddiwrnod o'r wythnos. Pwysleisiwyd bod angen hyblygrwydd ac efallai ceisio targedu staff sydd yn colli eu gwaith o ganlyniad i sefydliadau / siopau yn cau.
- Yr angen i weithio efo'r Gwasanaeth Iechyd er mwyn sicrhau bod swyddi a hyfforddi pellach ar gael i raddedigion a'r rhai sy'n cwblhau cyrsiau iechyd a gofal cymdeithasol.

Bydd y Pwyllgor Craffu Gofal yn craffu'r sefyllfa o ran recriwtio a chadw gweithwyr cymdeithasol yn yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd yn ystod 2023/24. Manylir ar waith craffu'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar gynllunio'r gweithlu ar dudalen 10.

## Datblygiadau cenedlaethol a lleol yng nghyswllt rheoli effaith ail gartrefi a llety gwyliau ar allu pobl leol i gael mynediad i gartrefi yn eu cymuned a'r Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig

Roedd aelodau'r Pwyllgor Craffu Cymunedau yn awyddus i graffu'r maes yma oherwydd y problemau sy'n bodoli o ran rheoli niferoedd ail gartrefi a llety gwyliau a chael mynediad at gartrefi. Craffwyd yng nghyd-destun y datblygiadau deddfwriaethol, polisi cynllunio cenedlaethol a'r Cynllun Datblygu Lleol.

Eglurwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 27 Hydref 2022, bod tri dosbarth defnydd newydd bellach wedi dod i rym - C3 Prif Gartref, C5 Ail Gartref a C6 Llety Gwyliau Byr Dymor. Nodwyd bod gan berchnogion yr hawl i newid rhwng y dosbarthiadau defnydd hyn heb ganiatâd cynllunio. Byddai angen cyflwyno cyfarwyddyd Erthygl 4 i'w reoli a byddai'n rhoi grymoedd i'r Cyngor ei wneud yn ofynnol i berchnogion wneud cais am ganiatâd cynllunio cyn newid dosbarth defnydd eu tai.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y prif sylwadau canlynol gan aelodau:-
- Sut byddai'r broses o gasglu tystiolaeth a data yn cael ei ariannu?
- Fyddai'r ddeddfwriaeth yn debygol o greu problemau mewn ardaloedd lle nad oedd ail dai yn ofid ar hyn o bryd? A oedd ystyriaeth yn cael ei roi i ardaloedd a oedd yn ymylu gydag awdurdodau eraill? Oedd y Gwasanaeth yn cydweithio gyda'r awdurdodau yma?
- Fyddai'n bosib derbyn adroddiad ar ddatblygiadau'r broses recriwtio er mwyn gallu ystyried os bydd yr amserlen o allu gweithredu erthygl 4 ar ddechrau 2024 yn gyraeddadwy?
- Bod angen rhoi ystyriaeth i '*buffer zones*'.
- Sut fyddai'r ardaloedd yn cael eu hadnabod? Oes meini prawf penodol?
- A fydd ymgynghoriad i roi cyfle i bobl yr ardal leisio eu barn?

Penderfynwyd derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y drafodaeth; bod adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor yng nghyfarfod 9 Mawrth 2023, yn edrych ar yr opsiynau ardaloedd posib lle gellir tystiolaethu'r defnydd o Gyfarwyddyd Erthygl 4; gofyn i'r Adran gynnwys gwybodaeth am yr ymgynghoriad a recriwtio yn yr adroddiad.



## Cinio Ysgol am Ddim

Gyda'r gofyn i ysgolion cynradd ddarparu cinio am ddim ar gyfer yr holl ddysgwyr erbyn Medi 2023, roedd yn amserol i graffu'r trefniadau mewn lle i ehangu'r ddarpariaeth i'r gwahanol gyfnodau allweddol.

Dyma rai o'r sylwadau a gyflwynwyd gan aelodau craffu yn ystod y drafodaeth yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar 8 Rhagfyr 2022:
- Bod y prosiect cinio am ddim mewn ysgolion i'w groesawu, a phwysleisiwyd pwysigrwydd dwyn pwysau gwleidyddol i sicrhau bod y swm y pryd a ddarperir gan Lywodraeth Cymru yn cael ei amddiffyn, neu hyd yn oed ei godi, wrth i ni fynd i mewn i gyfnod o doriadau.
- Y dylid dathlu'r ffaith bod 1305 o blant UPFSM (*Universal Primary Free School Meals*), na fyddai wedi derbyn cinio ysgol am ddim fel arall, wedi dewis cinio ysgol ym Medi, a bod hynny'n golygu bod gan y rhieni arian ychwanegol yn eu pocedi i'w wario'n lleol gobeithio, a thrwy hynny roi hwb i'r economi leol.

- At y dyfodol, gallai fod yn fuddiol cynnal ymgynghoriad blynyddol gyda rhieni a phlant mewn ymgais i gynyddu'r ganran sy'n derbyn y prydau.
- Bod y prydau a ddarperir yn yr ysgolion yn gytbwys a maethlon, ond y gallai mwy o hyblygrwydd o ran y dewis o fwyd sydd ar gael fod yn fodd o gynyddu'r niferoedd sy'n derbyn cinio ysgol.
- Ei bod yn bwysig nad yw ansawdd y prydau'n dioddef o ganlyniad i gostau uwch cynhyrchu pryd bwyd.
- Croesawyd y bwriad i ymestyn y cynnig i Flwyddyn 2 erbyn Ionawr 2023.



Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a chyflwyno diweddariad i'r pwyllgor pan fydd y cynllun wedi ymestyn ar draws y sector cynradd, gyda sylw penodol ar y gwaith sy'n cael ei wneud i godi'r niferoedd ac i edrych ar y rhesymau pam nad yw rhai disgyblion yn cymryd cinio ysgol, a sicrhau bod ystyriaeth yn cael ei roi i ansawdd y bwyd, gan hefyd geisio cadw'r budd yn lleol.

## Gwasanaeth Casglu Gwastraff ac Ailgylchu

Blaenoriaethodd aelodau'r Pwyllgor Craffu Cymunedau yr eitem yng Ngweithdy Blynyddol y Pwyllgor. Yn dilyn cais gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio roedd y gwaith craffu yn cynnwys edrych ar y rhesymau tu ôl i'r gorwariant a gwireddu arbedion yn y maes.

Yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 19 Ionawr 2023, craffwyd amlinelliad o raglen waith adolygu Gwasanaethau Gwastraff ac Ailgylchu. Roedd yr adroddiad yn cynnwys y rhesymau am y gorwariant a pa gamau a gymerir i'w daclo.

Rhai o'r sylwadau a wnaed gan aelodau wrth drafod oedd:

- Dylid ystyried y posibilrwydd o ddefnyddio system y Tîm Cymunedau Glân a Thaclus ar gyfer aelodau i nodi casgliadau a fethwyd eu cwblhau. Yn y cyfamser dylid cymryd camau i gysylltu gydag aelodau lleol er mwyn iddynt rannu'r wybodaeth gyda thrigolion eu ward.
- Bod newid cylchdeithiau fel bod yr un aelod o staff yn gweithio ar yr un teithiau wedi bod yn effeithiol. Oedd safon y gwasanaeth yn gyson drwy'r sir yn dilyn y newid?
- A ellir uchafu'r incwm yn deillio o werthu deunyddiau wedi eu hailgylchu?
- Dylid ystyried mewn rhai sefyllfaoedd, megis fflatiau, rhoi biniau gwyrdd mawr gyda goriad i gael mynediad atynt i'r rhai fyddai yn eu defnyddio.
- Bod canrannau ailgylchu Ceredigion a Phowys yn uwch na Gwynedd. Sut mae'r siroedd hyn yn llwyddo i ailgylchu mwy?
- A oes ystyriaeth wedi ei roi i gael biniau mawr cymunedol er mwyn casglu gwastraff a ellir ei ailgylchu mewn rhai ardaloedd?
- Bod cyfraddau salwch staff yn uchel. Sut mae'r Adran yn cefnogi'r gweithlu?
- Beth yw barn y gweithlu ar y ffordd o weithio?

Nodwyd yn ystod y drafodaeth y bwriad i'r Pwyllgor graffu rhai elfennau o raglen waith y gwasanaethau gwastraff ac ailgylchu pan yn amserol. Bydd y Pwyllgor yn craffu'r maes ymhellach yn ystod 2023/24.



## Cynllunio’r Gweithlu

Yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar 23 Mawrth 2023, craffwyd sefyllfa’r Cyngor mewn perthynas â recriwtio a chadw staff. Roedd yr adroddiad yn cyfeirio at yr heriau a’r camau sydd eisoes yn cael eu cymryd i fynd i’r afael â’r sefyllfa. Yn ogystal â rhoi trosolwg o amcanion hirdymor y Cyngor ar gyfer cynllunio’r gweithlu.

Dyma rai o’r sylwadau a gyflwynwyd gan aelodau craffu yn ystod y cyfarfod:-

- Bod methu cyflogi, e.e. swyddogion gorfodaeth, yn arwain at sefyllfa lle mae’r gwaith yn ôl-gronni dros gyfnod o amser.
- Bod yr adroddiad yn un cryno, i bwrpas a gonest, sy’n dangos yn glir lle mae’r diffyg. A oes enghreifftiau o ddulliau creadigol o ddenu gweithwyr? Faint o brentisiaid sydd wedi aros gyda’r Cyngor, a beth sydd wedi gweithio, a ddim wedi gweithio, o ran y Cynllun Profiad Gwaith?




- Bod cyfweliadau gadael yn bwysig er mwyn deall pam bod pobl yn dewis gadael. Oes cyfle i unigolion rannu gofidiau, ayb, yn ystod eu cyflogaeth?
- Bod peryg’ nad yw cynnal cyfweliad gadael gyda chyn-reolwr llinell y gweithiwr yn rhoi’r darlun cyflawn. Oedd modd gwneud hynny’n gwbl annibynnol drwy’r Gwasanaeth Adnoddau Dynol?
- Gallai disgwyliadau’r Cyngor o ran sgiliau iaith ei gwneud yn fwy heriol recriwtio staff. Byddai cyswllt gyda’r Coleg Cymraeg Cenedlaethol o gymorth.
- Dylai’r Tîm Adnoddau Dynol roi ystyriaeth i gynnal fforymau bychain anffurfiol gyda grwpiau o’r gweithlu rheng-flaen. Er mwyn datblygu perthynas dros amser lle mae pobl yn teimlo’n gyffyrddus i roi barn onest am y gwaith.
- Bod cyfle gwych i werthu Gwynedd yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Moduan. Cymerid y byddai gwybodaeth ynglŷn â’r cyfleoedd sydd ar gael ar stondin y Cyngor, ynghyd â phosteri wrth y fynedfa i’r Maes, yn y maes parcio ac ym Maes B i godi delwedd Gwynedd fel lle da i fyw a gweithio.
- Bod Cynllun Yfory yn greiddiol i gadw ieuenctid yn y sir. Angen clustnodi arian penodol i’r diben hwn.
- Pwysigrwydd medru denu a chadw’r staff hynny sydd ar gyflogau lefel is.




- Bod prinder staff addysg yn gyffredinol ar draws y sir hefyd, gan gynnwys cymorthyddion a chymorthyddion mewn ysgolion anghenion arbennig. Roedd angen i’r Cyngor edrych ar yr holl fater yn ei gyfanrwydd o ran sut i ddenu a gwobrwyo staff ar lefel cyflog is.
- A fu cynnydd yn y trafodaethau ynglŷn â phecynnu swyddi rhan-amser mewn gwahanol adrannau er mwyn gallu cynnig un swydd lawn-amser?
- Lle mae’r Cyngor yn hysbysebu swyddi?
- O ran delwedd y Cyngor, tueddiad i feddwl bod angen gradd a bod yn ddosbarth canol i weithio i’r Cyngor. Sut gellid gwerthu’r Cyngor i bobl ifanc dosbarth gweithiol yn ein hardaloedd difreintiedig, ac nid y swyddi cyflog isel yn unig?
- Bod y cyfnod Mai/Mehefin yn adeg dda i ddenu pobl ifanc i ddod i weithio i’r Cyngor, wrth iddynt adael yr ysgol a’r colegau. Fyddai’n bosib’ rhoi post ar *Instagram* gyda linc i swyddi’r Cyngor er mwyn targedu pobl ifanc yn benodol?

Roedd y drafodaeth yn adeiladol ac amlygodd yr aelodau syniadau er mwyn ymateb i’r heriau recriwtio a chadw staff.

## Cynllun Awtistiaeth 2021-23

Craffwyd Cynllun Awtistiaeth 2021-23 yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu Gofal ar 25 Tachwedd 2021 cyn i'r Cabinet ei gymeradwyo. Derbyniwyd diweddariad yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 20 Ebrill 2023. Roedd yn adroddiad ar y cyd gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant a'r Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd.

Eglurwyd bod cynnydd sylweddol wedi ei wneud ers i'r Cod Ymarfer ar gyfer Cyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth ddod i rym yn Medi 2021. Cyfeiriwyd at y bid llwyddiannus a fyddai'n golygu y gellid cynyddu adnoddau staffio ar gyfer datblygu gwasanaethau Awtistiaeth ar draws y Sir a datblygu modiwlau e-ddysgu i godi ymwybyddiaeth staff Awdurdodau Lleol, y Bwrdd Iechyd a'r Heddlu. Nodwyd bod gan y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol rôl gyffredinol yn natblygiad gwasanaethau ledled Cymru ac, wrth gyfarfod yn chwarterol, yn rhoi cyfle i rannu gwybodaeth a diweddariadau perthnasol. Manylwyd ar flaenoriaethau'r 6 mis nesaf.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau canlynol gan aelodau:

- Canmol gwaith y gwasanaeth.
- Croesawu penodiad Cydlynydd/Swyddog Prosiect ar gyfer datblygu Gwasanaethau Awtistiaeth.
- Bod angen sicrhau penodiadau Cymraeg fel nad yw plant o aelwyd Cymraeg o dan anfantais.
- Bod angen gweld newid a sicrhau gweithrediad.
- Bod y Bws Awtistiaeth yn wych (hyfforddiant arloesol ac ymarferol sydd yn rhoi profiad i bobl nad ydynt yn awtistig o'r anawsterau sy'n wynebu pobl ar y sbectrwm awtistiaeth) ac y dylid annog y bws teithiol yma.
- Bod y sbectrwm yn eang a'i bod yn bwysig adnabod pwy sydd wir angen cefnogaeth.
- Bod angen sicrhau cefnogaeth briodol i oedolion a phlant wrth iddynt fynd drwy'r broses asesu.
- Pryder bod plant yn cael eu gwrthod gan y gwasanaeth asesu gan nad ydynt yn cwrdd â'r meini prawf - lle fydd y plant yma yn cael sylw? Angen symleiddio'r gwasanaeth.
- Bod nifer yn talu yn breifat am asesiad oherwydd y rhestr aros ond nid oedd yn sicrhau mynediad at wasanaethau yn gynt.
- Bod cymariaethau rhwng Awtistiaeth a Dementia ac y dylid annog adnabod cyfleoedd i gydweithio rhwng y ddau dîm. Awgrymwyd sefydlu cynllun sydd yn ymdebygu i Ddementia Cyfeillgar.
- Angen sicrhau bod digwyddiadau yn cael eu cynnal yng nghefn gwlad.
- Croesawu'r bwriad i sicrhau bod staff sydd yn gweithio'n uniongyrchol gyda phlant, pobl ifanc neu oedolion yn ymgymryd â hyfforddiant ymwybyddiaeth. Rhaid sicrhau hyfforddiant dwys i'r rhai hynny sydd yn ymdrin ag awtistiaeth yn uniongyrchol.

Cyfeiriwyd at yr angen i gydweithio gyda'r Adran Addysg a'r Bwrdd Iechyd. Fel rhan o'r penderfyniad, nodwyd y dylid sefydlu Grŵp Tasg a Gorffen i drafod gweithredu'r Cynllun gyda'r tîm newydd gan sicrhau cynrychiolaeth o'r Adran Addysg a'r Bwrdd Iechyd. Gweithredir ar hyn yn ystod 2023/24.



# Blaengraffu

Un o'r ffyrdd mae craffu yn ychwanegu gwerth yw wrth flaengraffu, hynny yw, craffu cyn i benderfyniad cael ei wneud gan y Cabinet a/neu'r Cyngor. Dyma'r eitemau a flaengraffwyd yn ystod 2022/23:

## Cynllun Economi Ymweld

Craffwyd y Cynllun cyn i'r Cabinet ei gymeradwyo. Argymhellwyd y dylid ystyried newid gweledigaeth y cynllun a bod angen cynnwys cynrychiolwyr eraill ar Bartneriaeth Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri. Er ni ddiwygiwyd y weledigaeth, fe weithredwyd o ran aelodaeth y bartneriaeth.

## Adroddiad Sefydlogrwydd Marchnad Gofal Gogledd Cymru

Bu i'r Pwyllgor Craffu Gofal graffu'r adroddiad cyn i'r Cabinet ei ystyried a'i argymell i'r Cyngor Llawn. Yr adroddiad yn ddogfen ranbarthol a oedd yn dangos tueddiadau ar draws y Gogledd yn ogystal â negeseuon lleol i Wynedd.

## Adroddiad Asesiad Anghenion Poblogaeth Oedolion Gwynedd

Mae'r asesiad yn rhoi sylfaen i'r Cyngor o ran cynllunio gwasanaethau oedolion i'r dyfodol ac adnabod y blaenoriaethau i'w ariannu. Mewnbwn craffu cyn i'r Cabinet ei ystyried a'i argymell i'r Cyngor Llawn i'w gymeradwyo.

## Cynllun Gwella Hawliau Tramwy

Pwyllgor Craffu Cymunedau wedi craffu ar hyd y daith o greu cynllun newydd. Y gwaith craffu yn 2022 wedi arwain at gynnwys mwy o wybodaeth o ran gwirfoddolwyr a materion mynediad i bawb cyn i'r Cabinet gymeradwyo'r cynllun.

## Cynllun Llesiant

Materion penodol wedi eu codi o ran gwarchodaeth i'r Iaith Gymraeg. Wedi arwain at addasiadau i'r Cynllun Llesiant Drafft ond ni ychwanegwyd fel amcan llesiant i'r cynllun. Esiampl o graffu yn amlygu pethau sydd angen sylw. Er ni chydsyniwyd â barn y craffwyr yn gyfan gwbl, bydd rôl bwysig ganddynt i graffu gweithrediad y cynllun dros y blynyddoedd nesaf.

## Opsiynau Ardaloedd Posib Cyfarwyddyd Erthygl 4 – dosbarthiadau defnydd tai

Bu cyfle i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau graffu'r opsiynau posib cyn i'r Cabinet ystyried y mater. Penderfynwyd argymell i'r Cabinet y dylid cymeradwyo'r opsiwn a ffafrir o ran cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4, sef 'Opsiwn 4: Gwynedd gyfan (Ardal yr Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd)'.

# Ymchwiliad Craffu

Bwriad Ymchwiliadau Craffu yw asesu effaith polisïau cyfredol a/neu berfformiad gwasanaethau. Mae hyn yn cael ei wneud drwy gasglu tystiolaeth angenrheidiol sydd yn cynnwys gwrando ar brofiadau pobl mewn cyfnod o tua 6 i 9 mis.

Yn dilyn blaenoriaethu cynnal ymchwiliad craffu ‘Ysgolion Uwchradd Categori 3 Gwynedd’ mewn cyfarfod o’r Fforwm Craffu, mabwysiadwyd brîff y gwaith ac etholwyd aelodau yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar 2 Chwefror 2023.

Y prif gwestiwn mae’r ymchwiliad yn ei gyfarch yw:

‘Beth yw’r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ein hysgolion uwchradd a pha gynlluniau sydd mewn lle i gynyddu’r ddarpariaeth yng Nghyfnod Allweddol 3, Cyfnod Allweddol 4 a Chyfnod Allweddol 5 yng Ngwynedd?’

Mae’r ymchwiliad yn ystyried gweithrediad Polisi Iaith Addysg yr Awdurdod mewn tair ysgol uwchradd categori 3 (1 ysgol o Arfon, Dwyfor a Meirionnydd). Y tair ysgol yw:

- Ysgol Dyffryn Nantlle
- Ysgol Eifionydd
- Ysgol Godre’r Berwyn

Aelodau’r ymchwiliad yw’r Cynghorwyr Paul Rowlinson (Cadeirydd), Cai Larsen, Beth Lawton, Huw Rowlands a Rhys Tudur.

Mae aelodau’r ymchwiliad craffu wedi cychwyn ar y gwaith a bydd yr ymchwiliad yn adrodd i’r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi. Byddwn yn adrodd ar waith yr ymchwiliad yn Adroddiad Blynyddol 2023/24.

# Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae’r Ddeddf yn gofyn i gyrff cyhoeddus ddylunio gwasanaethau sy’n gwarchod cenedlaethau’r dyfodol yn y tymor hir. Mae’n gosod dyletswydd i wella llesiant amgylcheddol, economaidd, diwylliannol a chymdeithasol pobl Cymru.

Wrth graffu mae aelodau yn ystyried y 5 ffordd o weithio sydd wedi eu nodi yn y Ddeddf ac yn eu defnyddio i lywio eu trywydd cwestiynu:



# Herio Perfformiad

Mae cyfarfodydd herio perfformiad yn cael eu cynnal bob yn ail fis (ac eithrio mis Ebrill a mis Awst), fesul maes gwaith adrannau'r Cyngor. Ystyrir datblygiadau prosiectau'r Adrannau sydd yng Nghynllun y Cyngor, mesurau perfformiad 'dydd i ddydd' ynghyd â'r gofrestr risg.

Rhoddir gwahoddiad i gynrychiolwyr y pwyllgorau craffu i fynychu cyfarfodydd dwywaith y flwyddyn.

Mae cynrychiolwyr y pwyllgorau craffu yn cael gwahoddiad er mwyn:

- Cael blas o faint o afael sydd ar faterion perfformiad o fewn yr adrannau unigol.
- Adnabod, os oes angen, unrhyw faterion perfformiad allai deilyngu sylw mewn pwyllgor craffu ffurfiol maes o law.

Disgwylir i'r cynrychiolwyr adrodd yn ôl i'r cyfarfod anffurfiol cyntaf o'r pwyllgor craffu perthnasol yn dilyn y cyfarfodydd hyn. Mae cyfarfodydd anffurfiol yn cael eu cynnal yn dilyn cyfarfodydd ffurfiol o'r Pwyllgorau Craffu.

Dyma'r aelodau a fynychodd cyfarfodydd herio perfformiad yn ystod 2022/23:

Addysg
**Beth Lawton**
**Gwynfor Owen**
wrth gefn –
**Jina Gwyrfai**

Economi
**Iwan Huws**
**Dewi Owen**
wrth gefn –
**Jina Gwyrfai**

Cefnogaeth Gorfforaethol a Chyfreithiol
**Huw Rowlands**
**Paul Rowlinson**

Cyllid
**Elin Hywel**
**Beth Lawton**

Amgylchedd
**Linda Morgan**
**Llio Elenid Owen**
**Rhys Tudur**

Priffyrdd, Peirianneg a YGC
**Stephen Churchman**
**Rob Triggs**
wrth gefn –
**Arwyn Roberts**

Oedolion, Iechyd a Llesiant
**Meryl Roberts**
**Sasha Williams**

Plant a Chefnogi Teuluoedd
**Gwynfor Owen**
**Sasha Williams**

Tai ac Eiddo
**Menna Baines**
**Dewi Jones**

# Ffeithiau am Graffu yng Ngwynedd yn 2022/23

**45 aelod** wedi bod yn rhan o wneud y gwaith craffu pwysig yn ystod y flwyddyn.

**33 eitem** wedi eu craffu mewn cyfarfodydd ffurfiol.

**2 gyfarfod** o'r Fforwm Craffu wedi ei gynnal yn ystod y flwyddyn.

**Cyd-gyfarfod** o'r Fforwm Craffu a'r Aelodau Cabinet wedi ei gynnal.

**Sesiwn hyfforddiant** agweddau cyfreithiol cadeirio pwyllgorau craffu ar gyfer Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion craffu.

**Cyfarfodydd wedi eu cynnal** rhwng Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion a'r Aelodau Cabinet a Phenaethiaid perthnasol.

Aelod o'r Pwyllgor Craffu Cymunedau yn **cynrychioli'r pwyllgor** ar y Bwrdd Newid Hinsawdd a Natur.

Aelodau'r Pwyllgor Craffu Gofal wedi **mynychu gweithdy** i roi mewnbwn ar Strategaeth Gwasanaethau Clinigol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

ATODIAD

# Rhaglen Waith Craffu 2022-23

## PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI

**20/10/2022**

- Cwricwlwm i Gymru: Y Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb
- Cwricwlwm newydd i Gymru
- Ffordd Gwynedd

**08/12/2022**

- Cadw'r Budd yn Lleol
- Cinio ysgol am ddim
- Adroddiadau Blynyddol
  (i) Adran Addysg
  (ii) GwE

**02/02/2023**

- Cynllun Economi Ymweld
- Brîff Ymchwiliad Craffu Ysgolion Uwchradd Categori 3 Gwynedd

**23/03/2023**

- Cynllun Twf - Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru
- Addysg a'r Gymraeg: Gweledigaeth Newydd ar gyfer Cyfundrefn Addysg Drochi tuag at 2032 a thu hwnt
- Cynllunio'r Gweithlu

## PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU

**28/09/2022**

- Adroddiad Blynyddol 2021/22 - Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn
- Biniau Halen a graeanu strydoedd cefn
- Datblygiadau yn y maes Cludiant Cyhoeddus

**27/10/2022**

- Datblygiadau cenedlaethol a lleol yng nghyswllt rheoli effaith ail gartrefi a llety gwyliau ar allu pobl leol i gael mynediad i gartrefi yn eu cymuned a'r Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig
- Cynllun Gwella Hawliau Tramwy
- Strategaeth Llifogydd Lleol

| 19/01/2023 |
| --- |
| • Diweddariad Blynyddol gan Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn<br>• Cynllun Llesiant<br>• Torri Gwair a Chynnal Tiroedd<br>• Gwasanaeth Casglu Gwastraff ac Ailgylchu (gan gynnwys gorwariant a gwireddu arbedion) |
| **09/03/2023** |
| • Opsiynau Ardaloedd Posib Cyfarwyddyd Erthygl 4 – dosbarthiadau defnydd tai<br>• Glendid Stryd |

## PWYLLGOR CRAFFU GOFAL

| 07/07/2022 |
| --- |
| • Adroddiad Sefydlogrwydd Marchnad Gofal Gogledd Cymru |
| **29/09/2022** |
| • Recriwtio a chadw staff yn y maes gofal (Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant)<br>• Gwasanaeth Cadwraeth Ynni Newydd |
| **10/11/2022** |
| • Gwasanaeth Ambiwlans<br>• Gwasanaeth Ieuenctid<br>• Polisi Gosod Tai |
| **16/02/2023** |
| • Adroddiad Archwiliad Arolygiaeth Gofal Cymru - Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant<br>• Adroddiad Asesiad Anghenion Poblogaeth Oedolion Gwynedd |
| **20/04/2023** |
| • Cynllun Awtistiaeth 2021-23<br>• Darpariaeth Gofal Dementia |

**FERSIWN CRYNO**

# ADRODDIAD BLYNYDDOL CRAFFU 2022/23

# PWRPAS CRAFFU

**CYFRANNU AT YRRU GWELLIANT MEWN GWASANAETHAU I BOBL GWYNEDD**

Gwneir hyn yn adeiladol trwy:

- Ymchwilio i bryderon am ansawdd ein gwasanaethau
- Weithredu fel Ffrind Critigol yn sicrhau fod sylw priodol yn cael ei roi i lais y dinesydd
- Adnabod ymarfer da a gwendidau
- Dal y Cabinet a'i aelodau i gyfrif
- Adolygu neu graffu penderfyniadau neu weithredoedd nad ydynt yn gyfrifoldeb y Cabinet

# PWYLLGORAU CRAFFU

Mae tri Pwyllgor Craffu yng Ngwynedd, dyma'r meysydd gwaith mae'r gwahanol bwyllgorau yn gyfrifol am ei graffu:

### Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi

Adran Addysg, Adran Economi a Chymuned, GwE, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, Tîm Arweinyddiaeth a Chyfreithiol, Adran Cefnogaeth Gorfforaethol, Adran Gyllid, Gweithrediad Mewnol y Cyngor a Partneriaethau

### Pwyllgor Craffu Cymunedau

Adran Amgylchedd, Adran Priffyrdd, Peirianneg a YGC (Ymgynghoriaeth Gwynedd), Cynllun Datblygu Lleol, Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, Trosedd ac Anrhefn a'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur

### Pwyllgor Craffu Gofal

Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd, Iechyd a'r Adran Tai ac Eiddo

Cynhelir cyfarfodydd y Pwyllgorau Craffu yn aml-leoliad. Mae gan aelodau'r opsiwn i fynychu cyfarfodydd yn yr ystafell gyfarfod yn swyddfeydd y Cyngor neu o leoliad arall drwy ymuno ar Zoom.

# FFORWM CRAFFU

Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu yw aelodau'r Fforwm Craffu. Mae'r Fforwm yn cymryd trosolwg o holl waith craffu'r Cyngor gyda'r aelodau yn herio naill a'r llall i sicrhau fod y materion cywir yn cael eu blaenoriaethu. Rôl y Fforwm Craffu yw:

- Cynghori ar FLAENORIAETHU eitemau i'w craffu (mwyafrif yn craffu ffurfiol gyda nifer fechan o ymchwiliadau) gan herio sail adnabod eitemau i'w craffu.
- Adnabod y dull craffu mwyaf effeithiol o fewn yr adnoddau sydd ar gael (craffu ffurfiol/ymchwiliad)
- Adnabod eitemau sydd er gwybodaeth, gan geisio osgoi defnyddio trefniadau craffu i gyflawni'r rôl rhannu gwybodaeth.
- Asesu cyfraniadau'r pwyllgorau unigol ac asesu EFFAITH y gwaith craffu, gan adolygu ein trefniadau craffu yn barhaus.

Mae'r fersiwn llawn yn ymhelaethu ar waith y Fforwm yn ystod 2022-23.

# EITEMAU CRAFFU

Yn 2022-23, craffwyd 33 eitem yng nghyfarfodydd ffurfiol craffu, gan gynnwys y canlynol:

**Recriwtio a chadw staff yn y maes gofal (Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant)**

**Cinio Ysgol am Ddim** **Gwasanaeth Casglu Gwastraff ac Ailgylchu**

**Cynllunio'r Gweithlu** **Cynllun Awtistiaeth 2021-23**

**Datblygiadau cenedlaethol a lleol yng nghyswllt rheoli effaith ail gartrefi a llety gwyliau ar allu pobl leol i gael mynediad i gartrefi yn eu cymuned a'r Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig**

# BLAENGRAFFU

Un o'r ffyrdd mae craffu yn ychwanegu gwerth yw wrth flaengraffu, hynny yw, craffu cyn i benderfyniad cael ei wneud gan y Cabinet a/neu'r Cyngor. Dyma'r eitemau a flaengraffwyd yn ystod 2022/23:

**Cynllun Economi Ymweld** **Cynllun Gwella Hawliau Tramwy** **Cynllun Llesiant**

**Adroddiad Sefydlogrwydd Marchnad Gofal Gogledd Cymru**

**Adroddiad Asesiad Anghenion Poblogaeth Oedolion Gwynedd**

**Opsiynau Ardaloedd Posib Cyfarwyddyd Erthygl 4 – dosbarthiadau defnydd tai**

# DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL

Mae'r Ddeddf yn gofyn i gyrff cyhoeddus ddylunio gwasanaethau sy'n gwarchod cenedlaethau'r dyfodol yn y tymor hir. Mae'n gosod dyletswydd i wella llesiant amgylcheddol, economaidd, diwylliannol a chymdeithasol pobl Cymru.

Wrth graffu mae aelodau yn ystyried y 5 ffordd o weithio sydd wedi eu nodi yn y Ddeddf ac yn eu defnyddio i lywio eu trywydd cwestiynu:




# HERIO PERFFORMIAD

Mae cyfarfodydd herio perfformiad yn cael eu cynnal bob yn ail fis (ac eithrio mis Ebrill a mis Awst), fesul maes gwaith adrannau'r Cyngor. Ystyrir datblygiadau prosiectau'r Adrannau sydd yng Nghynllun y Cyngor, mesurau perfformiad 'dydd i ddydd' ynghyd â'r gofrestr risg.

Rhoddir gwahoddiad i gynrychiolwyr y pwyllgorau craffu i fynychu cyfarfodydd dwywaith y flwyddyn.

Mae cynrychiolwyr y pwyllgorau craffu yn cael gwahoddiad er mwyn:

- Cael blas o faint o afael sydd ar faterion perfformiad o fewn yr adrannau unigol.
- Adnabod, os oes angen, unrhyw faterion perfformiad allai deilyngu sylw mewn pwyllgor craffu ffurfiol maes o law.

Disgwylir i'r cynrychiolwyr adrodd yn ôl i'r cyfarfod anffurfiol cyntaf o'r pwyllgor craffu perthnasol yn dilyn y cyfarfodydd hyn. Mae cyfarfodydd anffurfiol yn cael eu cynnal yn dilyn cyfarfodydd ffurfiol o'r Pwyllgorau Craffu.

**Mae'r holl wybodaeth am y gwaith craffu yn 2022-23 ar gael yn y fersiwn llawn ar wefan y Cyngor – https://www.gwynedd.llyw.cymru/craffu**

# FFEITHIAU AM GRAFFU YNG NGWYNEDD 2022/23

**45 aelod** wedi bod yn rhan o wneud y gwaith craffu pwysig yn ystod y flwyddyn.

**33 eitem** wedi eu craffu mewn cyfarfodydd ffurfiol.

**2 gyfarfod** o'r Fforwm Craffu wedi ei gynnal yn ystod y flwyddyn.

**Cyd-gyfarfod** o'r Fforwm Craffu a'r Aelodau Cabinet wedi ei gynnal.

**Sesiwn hyfforddiant** agweddau cyfreithiol cadeirio pwyllgorau craffu ar gyfer Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion craffu.

**Cyfarfodydd wedi eu cynnal** rhwng Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion a'r Aelodau Cabinet a Phenaethiaid perthnasol.

Aelod o'r Pwyllgor Craffu Cymunedau yn **cynrychioli'r pwyllgor** ar y Bwrdd Newid Hinsawdd a Natur.

Aelodau'r Pwyllgor Craffu Gofal wedi **mynychu gweithdy** i roi mewnbwn ar Strategaeth Gwasanaethau Clinigol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

# Eitem 10

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | CYNGOR |
| **DYDDIAD** | 6 Gorffennaf 2023 |
| **PENNAWD** | DIWYGIO CYNLLUN HAWLIAU DIRPRWYEDIG SWYDDOGION |
| **PWRPAS** | I adrodd ar newidiadau i'r Cynllun Dirprwyo  Swyddogion ynglŷn a chymeradwyo grantiau |
| **ARGYMHELLIAD** | Fod y Cyngor yn derbyn yr adroddiad, ynglŷn a diwygio'r Cynllun Dirprwyo i Swyddogion. |
| **AELOD CABINET** | Cyng Dyfrig Siencyn |
| **AWDUR** | Iwan G D Evans - Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol – Swyddog Monitro |

**Cefndir**

Yn dilyn adolygiad o'r trefniadau dirprwyo i swyddogion penderfynodd y Cabinet gymeradwyo newid i'r Cynllun Dirprwyo. Mae'r adroddiad atodedig yn esbonio y cefndir am y newid ynghyd a'r diwygiadau.

Mae'n ofynnol fod unrhyw newid i'r Cyfansoddiad yn cael eu adrodd er gwybodaeth i'r Cyngor Llawn

**Argymhelliad**
**Fod y Cyngor yn derbyn yr adroddiad**

**Swyddog Monitro**

Awdur yr Adroddiad

**Pennaeth Cyllid**

"Nid oes gennyf sylwadau pellach i'w hychwanegu i'r rhai a nodais ar yr adroddiad Cabinet.

## Adroddiad i Gyfarfod o Gabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 13 Mehefin 2023 |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn ( Arweinydd y Cyngor) |
| **Awdur yr Adroddiad :** | Iwan Evans Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol – Swyddog Monitro |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | 32015 |
| **Teitl yr Eitem:** | Addasiadau i'r Cyfansoddiad Cynllun Dirprwyo Adroddiad Swyddog Monitro |

**1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

1.1 **Cymeradwyo yr addasiadau i Adran 13 (3) o'r Cyfansoddiad Cynllun Dirprwyo Swyddogion a ddangosir yn Atodiad 1**

**2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD**

Mae dyfodiad ystod o gronfeydd grantiau newydd yn o amryw ffynonellau a maint wedi amlygu angen i diweddaru hawliau dirprwyedig er sicrhau eu bod yn briodol ac addas i gefnogi gweinyddiaeth effeithlon o geisiadau.

**3. CEFNDIR**

3.1 Mae hawliau dirprwyedig gan y Pennaeth Economi ac Adfywio i ddyfarnu grantiau ar draws sawl maes. Cydnabyddir fod y rhan yma o'r Cyfansoddiad a'r rhiniogau wedi bod mewn bodolaeth ers cryn amser heb eu hadolygu. Mae sawl rheswm am hyn ac mae'n debygol nad oedd angen ystyried trefniadau amgen o gan fod trefniadau dyrannu a priodoli grantiau unai yn deillio o gronfeydd Ewrop neu fod lle ac amser i drefnu penderfyniadau ar sail achos fesul achos. Yr hyn sydd wedi dod i'r amlwg yn y misoedd diwethaf yw fod ystod o gronfeydd yn dod i'r arfaeth gyda rôl ganolog gan y Cyngor yn gweinyddu yr arian yma. Mae hefyd yn amlwg hefyd fod y cronfeydd yma yn gallu esgor ar nifer o geisiadau sydd angen eu prosesu a dyfarnu a hynn o fewn amserlenni cadarn a chymharol fyr os yw'r arian am gael ei sicrhau.

3.2 Gyda hyn mewn golwg ac yn dilyn trafodaethau gyda'r Adran y Prif Weithredwr a'r Pennaeth Cyllid rwyf yn awgrymu fod yr addasiadau sydd yn Atodiad 1 yn cael eu gwneud i'r Cynllun Dirprwyo. Mae'r rhain yn faterion sydd o fewn swyddogaethau yr Arweinydd ond ystyrir oherwydd fod y Cabinet yn ymwneud a sefydlu a gosod

trefniadau mewn lle ar gyfer rhai o'r grantiau yma ei fod yn briodol fod y Cabinet yn cymeradwyo y newidiadau. Mae balans yn cael ei dynnu yn y newidiadau arfaethedig rhwng cynyddu y rhiniog ar gyfer cymeradwyo grantiau i £100,000 ond fod modd cymeradwyo hyd at £250,000 mewn ymgynghoriad a'r Aelod Cabinet yn unig. Nodir hefyd fod yr hawl ynglŷn a phrosiectau sydd o fewn Gwynedd,

Yn unol a'r Cyfansoddiad byddaf yn adrodd ar y newid yma i'r Cyngor Lawn er gwybodaeth yn ei gyfarfod nesaf.

. **UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD**

Yn unol a'r adroddiad

**Barn y swyddogion statudol:**

**Y Swyddog Monitro:**

Awdur yr Adroddiad

**Pennaeth Cyllid:**

Mae'r addasiadau arfaethedig i'r Cyfansoddiad yn adlewyrchu'r angen i weithredu'n hyblyg a chwimwth mewn perthynas â'r grantiau mae'r awdurdod yn eu gweinyddu. Fel mae'r adroddiad yn nodi, nid yw'r rhan yma o'r Cyfansoddiad wedi cael ei adolygu ers peth amser, ac mae'n amserol i wneud hynny rŵan.

Rwyf yn fodlon fod trefniadau rheolaeth fewnol addas a chadarn yn eu lle o fewn y Cyngor i liniaru'r risgiau sydd ynghlwm â gweinyddu a chymeradwyo taliadau grant. Nid oes gennyf felly wrthwynebiad i'r penderfyniad a geisir o safbwynt priodoldeb ariannol."

## 7. Pennaeth Economi a Chymuned

*Yn y "Cynllun Dirprwyo i Bwyllgorau" yn Atodiad 1 i Adran 13 o'r Cyfansoddiad, nodir lle mae swyddogaethau nad ydynt yn gyfrifoldeb i'r Weithrediaeth wedi eu dirprwyo i Brif Swyddogion. Lle nad oes prif swyddog wedi ei enwi yn y ddogfen honno nid yw'r pŵer wedi ei ddirprwyo, ond yn hytrach fe'i cedwir gan y pwyllgor.*

**Swyddogaethau a ddirprwyir gan y Cyngor**

Dim

**Swyddogaethau a ddirprwyir gan y Cabinet**

7.1 Gweithredu ar sail dydd i ddydd ac o fewn y cynllun yn y meysydd canlynol:-

- Ewrop
- Rhaglenni cyllido Ewropeaidd
- Rhaglenni adfywio
- Gwasanaethau busnes
- Marchnata
- Twristiaeth
- Digwyddiadau
- Cymunedau'n Gyntaf
- Grantiau adfywio
- Amgueddfeydd
- Archifdai
- Orielau
- Sinemâu a theatrau
- Celfyddydau
- Morwrol
- Parciau gwledig
- Gwasanaethau ieuenctid
- Llyfrgelloedd
- Canolfannau hamdden
- Datblygu chwaraeon

7.2 Yn ddarostyngedig i 7.8 a 7.9 isod ac ei yn unol a'r rhaglenni, meini prawf, ac amodau a briodolir i'r cronfeydd;

(a) cymeradwyo grantiau yn y meysydd adfywio , busnes, celfyddydol a chymunedol hyd at uchafswm o £100,000 mewn unrhyw achos unigol i ymgeisydd cymwys ar gyfer prosiect sydd wedi ei leoli yng Ngwynedd ac,

(b) mewn ymgynghoriad a'r aelod Cabinet cymeradwyo grantiau yn y meysydd adfywio, busnes, celfyddydol a chymunedol uwchlaw £100,000 hyd at uchafswm o £250,000 mewn unrhyw achos unigol gan ymgeisydd cymwys ar gyfer ar gyfer prosiect sydd wedi ei leoli yng Ngwynedd.

(c) ~~Cymeradwyo grantiau busnes hyd at uchafswm o £50,000 mewn unrhyw achos unigol gan ymgeisydd cymwys sydd a'i gartref neu fusnes wedi ei leoli o fewn terfyn Gwynedd.~~

7.3 Gosod unedau a thiroedd diwydiannol a chymryd camau i'w diogelu rhag meddiant anghyfreithlon ac i'w hadfeddiannu.

7.4 Cyflwyno rhybudd ymadael i denant uned neu dir diwydiannol a cheisio meddiant trwy'r llysoedd.

7.5 Caniatau disgownt rhent ar unedau a thiroedd diwydiannol.

7.6 Pennu neu amrywio taliadau am fynediad i amgueddfeydd, orielau a theatrau'r Cyngor lle bo hynny'n briodol.

7.7 Awdurdod i wneud ceisiadau am arian grant o wahanol ffynonellau a gweithredu'r rhaglenni sy'n deillio o hynny.

~~Mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dyrannu grantiau cymunedol yn unol â rhaglenni a gymeradwywyd gan Y Cabinet o wahanol gronfeydd cymunedol.~~

7.8 Mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet penderfynu ar geisiadau am gymorth ariannol o Gronfa'r Degwm.

7.9 Mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet penderfynu ar geisiadau am gymorth ariannol o'r Grantiau Strategol i'r Celfyddydau.

7.10 Gweithredu is-ddeddfau llyfrgelloedd.

# CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod o Gyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **6ed o Orffennaf, 2023** |
| **Teitl yr Eitem:** | Absenoldeb Aelod o'r Cyngor |
| **Swyddog Cyswllt:** | Ian Jones, Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth |

### 1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Argymhellir bod y Cyngor Llawn yn cymeradwyo absenoldeb y Cynghorydd Eirwyn Williams o gyfarfodydd y Cyngor am gyfnod o 6 mis o ddyddiad y cyfarfod hwn oherwydd amgylchiadau personol, yn unol ag Adran 85 Deddf Llywodraeth Leol 1972, gan ei alluogi i barhau i fod yn aelod o Gyngor Gwynedd.

### 2. CEFNDIR A RHESYMEG

**CEFNDIR**

2.1 Mae Adran 85 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn nodi os yw aelod o awdurdod lleol yn methu mynychu unrhyw gyfarfod o'r awdurdod am gyfnod o chwe mis yn olynol o ddyddiad eu presenoldeb diwethaf, yna ni fyddant yn aelod o'r awdurdod mwyach.

2.2 Yr unig eithriad i hyn yw os y cymeradwyir yr absenoldeb gan yr awdurdod.

**SEFYLLFA PRESENNOL CYNGHORYDD YNG NGHYNGOR GWYNEDD**

2.3 Mae'r Cynghorydd Eirwyn Williams yn wael ar hyn o bryd ac felly mae hyn yn effeithio ar ei allu i fynychu cyfarfodydd ffurfiol o'r awdurdod.

2.4 Mae gofyn i'r Cyngor Llawn gymeradwyo absenoldeb y Cynghorydd Eirwyn Williams o gyfarfodydd yr awdurdod er mwyn ei alluogi i barhau i fod yn aelod yn unol â'i ddymuniad.

2.5 Os na roddir cymeradwyaeth i'r absenoldeb, yna byddai cyfnod y Cynghorydd Eirwyn Williams fel aelod o'r Cyngor yn dod i ben 6 mis ar ôl ei bresenoldeb diwethaf mewn cyfarfod o'r Cyngor.

2.6 Awgrymir, o dan yr amgylchiadau, y dylid cymeradwyo absenoldeb y Cynghorydd Eirwyn Williams.

## 3. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

### 3.1 SYLWADAU'R SWYDDOGION STATUDOL:

**Swyddog Monitro:**

Rwyf wedi cynorthwyo gyda paratoi yr adroddiad yma . Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Swyddog Cyllid Statudol:**

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol.

Annwyl Gynghorydd, Elwyn Jones

Diolch ichi am eich llythyr sy'n tynnu ein sylw at y cynigion a wnaed mewn cyfarfod o Gyngor Gwynedd. Ymddiheuraf am yr oedi cyn ymateb i chi.

Gwerthfawrogwn y pryderon a godwyd am ein gwasanaethau trên yng Ngwynedd. Rydym yn ymwybodol o’r effaith andwyol y mae'r oedi parhaus wedi'i gael ar brofiad cwsmeriaid a hoffwn eich sicrhau bod gweithredu gwasanaeth trên sy'n brydlon ac â digon o le ar bob llwybr ac sydd hefyd yn cynnig gwerth da am bris tocyn yn bwysig iawn i ni. Rydym yn adolygu a monitro'n barhaus yr hyn sy'n tarfu ar ein trenau i'n helpu i leihau'r achosion o oedi a chanslo a hefyd i sicrhau bod unrhyw broblem yn cael sylw.

Mae ein timau cynllunio a gweithredu trenau'n gweithio'n eithriadol o galed i sicrhau bod cymaint â phosib o le ar gael a phan fo digwyddiadau mawr, megis gemau rygbi rhyngwladol, yn cael eu cynnal byddwn yn darparu mwy o gerbydau trên ar gymaint o wasanaethau â phosib i ddiwallu'r cynnydd yn y galw. Fodd bynnag, dim ond nifer cyfyngedig o gerbydau trên sydd gennym i weithredu'r cannoedd o wasanaethau yr ydym yn eu rhedeg yn ddyddiol ar draws ein rhwydwaith. Gyda hyn mewn golwg, gall ychwanegu un cerbyd trên mewn un ardal effeithio'n uniongyrchol ar ardal arall ac mae'n rhaid i ni gydbwyso hyn yn ofalus. Oherwydd cyfyngiadau gweithredol, ni all pob trên yn ein fflyd weithredu gwasanaeth ar bob llwybr, ac mae hyn yn ffactor arall sy'n effeithio ar sut yr ydym yn dynodi adnoddau. Efallai eich bod eisoes yn ymwybodol ein bod wedi buddsoddi mewn trenau newydd i gynyddu lle ac i helpu i ostwng amseroedd teithio i'n teithwyr gan gynnwys y llwybr rhwng Bangor a Chaerdydd. Rydym hefyd yn gweithio ar gynlluniau i ychwanegu mwy o wasanaethau wrth ddiweddaru'n hamserlenni yn y dyfodol a chyflwyno trenau newydd sbon.

Mae'n ddrwg gennyf glywed fod yna bryder ynghylch safon y gwasanaeth cwsmer ac argaeledd rhai mathau o docynnau. Efallai mai buddiol fyddai i mi egluro mai dim ond nifer cyfyngedig o fathau penodol o docynnau megis tocynnau Ymlaen Llaw (*Advance*) sydd ar gael. Caiff y tocynnau hyn eu rhyddhau fesul bwndel gyda'r rhai rhataf yn cael eu gwerthu'n gyntaf ac mae nifer cyfyngedig o docynnau ym mhob grŵp pris. Cyn gynted ag y gwerthir y bwndel rhataf o docynnau, mae'r bwndel nesaf o docynnau yn cael ei ryddhau ac yn y blaen. Mae prisiau'r tocynnau'n codi nes iddynt gyrraedd pris tocyn sengl safonol a'u bod i gyd wedi’u gwerthu. Fodd bynnag, byddwn yn cymryd camau priodol i wella safon ein gwasanaeth cwsmer gan ein bod yn disgwyl i'n staff fod o gymorth pob amser.

Gobeithiaf fy mod wedi medru rhoi sylw i'r pryderon a godwyd am wasanaethau Trafnidiaeth Cymru a hoffwn eich sicrhau ein bod wedi ymrwymo i wella gwasanaethau trên yng Ngwynedd. Mae croeso i chi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw bryderon neu unrhyw beth arall i'w ychwanegu nad wyf wedi'i ystyried eisoes.

Yn gywir,

**Gail Jones**

**Teitl Swydd | Job Title: Rheolwr Rhanddeiliaid (Canolbarth a Gogledd Cymru)**

**Trafnidiaeth Cymru | Transport for Wales, 3 Llys Cadwyn, Pontypridd, Rhondda Cynon Taf, CF37 4TH**

**RHIF FFÔN: 07956 709 882**